

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 25ain Mehefin, 2019
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 21 MAI AC Y 4 MEHEFIN 2019			3 - 12
6	ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU	Cyng. Nia Jeffreys	Gwenllian Williams	13 - 30
7	RHEOLAETH STAD MANDDALIADAU'R CYNGOR	Cyng. Gareth Griffith	Dafydd Gibbard	31 - 36
8	ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2018/19	Cyng. Dyfrig Siencyn	Dewi Wyn Jones	37 - 95
9	POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN GWYNEDD	Cyng. Craig ab Iago	Gareth Wyn Parri	96 - 155
10	STRATEGAETH TAI - DYRANIAD ARIANNOL AR GYFER 2019/20	Cyng. Craig ab Iago	Arwel Wyn Owen	156 - 160
11	ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB 2018/19	Cyng. Nia Jeffreys	Delyth Gadlys Williams	161 - 208

Y CABINET DYDD MAWRTH, 21 MAI 2019

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Rees Williams

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ffion Madog Jones (Uwch Reolwr Cyllid) ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eitem 6: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 – ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNWYD

- 1.1 Nodi'r sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2018/19
- 1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1) sef –

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	15
Plant a Theuluoedd	100
Addysg	100
Economi a Chymuned	28
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	100

Amgylchedd	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(59)
Tîm rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(76)
Cyllid	(59)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(61)

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2)

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.
- Yr Adran Addysg i dderbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario mlaen gan yr Adran i £28k.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, cadw at y drefn arferol i ganiatáu i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, trosglwyddo:
 - (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
 - (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - (£738k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.
- Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Bydd gweddill tanwariant Corfforaethol (£173k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, sef:

- Cynaeafu (£3.931m) o gronfeydd a (£69k) o ddarpariaethau.
- Trosglwyddo £3m i'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Trosglwyddo £1m i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
- Neilltuo £262k am gyfnod o flwyddyn o'r gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i bontio'r ffynhonnell ariannu ymrwymadau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor am 2018/19. Diolchwyd i'r Cyng. Peredur Jenkins am ei ymrwymiad i sicrhau sefyllfa ariannol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegwyd fod rheolaeth ariannol y Cyngor wedi bod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn er y gofynion i gyflawni arbedion.

Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi sefyllfa derfynol yr holl adrannau, a thynnwyd sylw at y prif faterion. Nodwyd fod hanner yr adrannau wedi medru cadw o fewn eu cyllidebau. Tynnwyd sylw at welliant yn sefyllfa'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant erbyn diwedd y flwydd o ganlyniad i dderbyn ac ail-gyfeirio grantiau hwyr. Er hyn, pwysleisiwyd fod gorwariant o bron i £1m yn y gwasanaeth Darparu a nodwyd angen i'r Aelod Cabinet a Pennaeth yr Adran Oedolion i edrych ymhellach i mewn i'r gorwariant yma.

Nodwyd yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd fod cynnydd wedi ei weld ar draws nifer o benawdau a olygai erbyn diwedd y flwyddyn fod cynnydd yn y gorwariant net i £1.6m. Esboniwyd mai lleoliadau all sirol sydd yn gyfrifol am ran helaeth o'r gorwariant ac mae cyfarfod wedi ei drefnu rhwng yr Aelodau Cabinet perthnasol, y Prif Weithredwr a swyddogion eraill er mwyn rhoi sylw llawn i'r mater. Argymhellwyd fod y Cabinet yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario ymlaen i £100k.

Tynnwyd sylw at yr Adran Addysg gan nodi ers yr adolygiad diweddfod gwelliant sylweddol i'r sefyllfa ariannol o ganlyniad i dderbyn ac ail-gyfeirio grant. Er hyn mynegwyd fod gorwariant yn parhau yn y maes Cludiant, sydd wedi bod yn destun adolygiad i reoli'r gorwariant, ond mynegwyd yr angen i waith pellach. Argymhellwyd fod y gorwariant yn cael ei gyfyngu i £100k er mwyn cynorthwyo'r adran yn 2019/20.

Yn yr Adran Economi a Chymuned, nodwyd canran uchel o'r gorwariant o ganlyniad i lithriad yn amserlen sefydlu Cwmni Byw'n Iach, ac argymhellwyd i ddigolledu'r adran £157k, sef gwerth y lithriad. Hefyd, argymhellwyd i'r Cabinet roi cymorth ariannol un-tro i leddfu'r gorwariant o £0.5m ym maes Gwastraff yr Adran Briffyrdd.

Mynegwyd bydd modd i ddefnyddio tanwariant rhai adrannau trwy reolaeth effeithiol o'r cyllidebau, er mwyn cyllidebu cyfanswm gwariant yn unol â'r bwriad am 2018/29, gan ddefnyddio £1.51m o gronfeydd i ariannu bidiau un-tro 2018/19 a pheidio gwneud defnydd o falansau cyffredinol y Cyngor. Nodwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i gynaeafu dros £4m o adnoddau gyda £3m yn cael ei neilltuo ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Diolchwyd i'r holl staff am eu gwaith yn sicrhau fod y gwaith cau'r cyfrifon a chynhyrchu'r datganiad mewn cyfnod llawer byrrach nac y blynyddoedd diwethaf.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod gan yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd ffydd yn y gwasanaeth a lefel diogelwch plant o fewn gofal. Ychwanegwyd fod gorwariant yn destun trafodaeth yn aml yn yr Adran ac yn Genedlaethol

gan ei fod yn broblem sydd i'w gweld ar draws y wlad. Mynegwyd fod yr adran wedi derbyn adnodd ychwanegol a fydd yn gwneud adolygiad Ffordd Gwynedd yn yr adran i sicrhau fod eu systemau yn gwbl effeithlon. Nodwyd y camau nesaf yn dilyn yr Adolygiad Ffordd Gwynedd fydd codi'r cwestiwn os yw'r gyllideb yn addas i bwrpas.

- Tynnwyd sylw at y ffaith fod dau bosibilrwydd yn dilyn yr adroddiad Adran Blant fod y rheolaeth ariannol yn wael neu fod y gorwariant yn anorod. Ategwyd nad oedd y gorwariant yn newyddion i'r swyddogion ac o ganlyniad dangoswyd fod y rheolaeth ariannol yn dda. Er hyn, nodwyd fod angen sicrhau fod yr adran yn gweithio mor effeithlon â phosib ac felly tanlinellwyd pwysigrwydd y cyfarfod a swyddogion er mwyn sicrhau fod pob carreg wedi ei droi.
- Nodwyd fod dros £800,000 wedi'i ychwanegu at gyllideb yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd erbyn 2019/20, mewn ymateb i'r cynnydd mewn galw, a bydd trafodaethau pellach am wireddu cynlluniau arbedion hanesyddol yr Adran.
- Mynegwyd mai llithriad sefydlu cwmni Byw'n Iach oedd y swmp o orwariant yr Adran Economi a Chymuned, ond mynegwyd fod angen rhoi sylw brys i orwariant yn Storiol.
- Esboniwyd fod yr Adran Addysg ym mis Tachwedd wedi rhagweld gorwant o dros £700k ond fod yr adran, drwy grantiau wedi llwyddo i'w leihau i £116k. Mynegwyd fod gwaith pellach angen ei wneud yng nghyd-destun cludiant. Esboniwyd fod balansau ysgolion yn parhau'n uchel, ond fod hyn yn rhannol o ganlyniad i dderbyn grantiau Llywodraeth yn hwyr yn y flwyddyn.
- Nodwyd yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol fod rhai tagedau incwm o bosib yn uchel, ond mae'r adran yn monitro hyn. Ychwanegwyd fod newid am fod i'r Gwasanaeth Gwastraff fydd, ymhen y flwyddyn, yn lleihau'r gorwariant.
- Mynegwyd fod gorwariant yr Adran Oedolion wedi lleihau o ganlyniad i grant yn dod yn hwyr, ond mynegwyd fod angen i'r adran barhau i edrych ar y mater er mwyn sicrhau eu bod yn delio ag unrhyw siawns o orwariant.
- Tynnwyd sylw at doriadau yn digwydd i wasanaethau o ganlyniad i leihad yn y setliad gan y Llywodraeth ac ein bod wedi cyfleu'r neges i'r Llywodraeth yn barhaus fod y lleihad yma yn creu poendod i drigolion Gwynedd.

7. RHAGLEN CYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (31 MAWRTH 2019)

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £7,000 cynnydd mewn defnydd o fenthycs
- £1,739,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £71,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf

- £158,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £184,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno sefyllfa derfynol rhaglen gyfalaf 2018/19. Mynegwyd fod yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad fesul adran o'r rhaglen gyfalaf o £53.53 miliwn am y 3 blynedd 2018/19 - 2020/21.

Tynnwyd sylw at brif gasgliad, sef fod y Cyngor wedi gwario dros £22.8m drwy gynlluniau cyfalaf, ble mae 55% ohono wedi ei ariannu drwy grantiau. Codwyd pryderon am ostyngiad yn nifer y staff o fewn y Cyngor a'r capasiti fydd ar gael i sicrhau fod cynlluniau yn aeddfed i'w cyflwyno am grantiau yn y dyfodol. Esboniwyd fod cyfanswm o £12.7m yn llithro o 2018/19 o'i gymharu â £15.6m ar ddiwedd 2017/18. Ymhelaethwyd ar y prif resymau dros y llithriadau a oedd yn cynnwys Grant Cynnal a Chadw Ysgolion o £1.8m yn cyrraedd yn hwyr, newid mewn amseriad gwario ar gyfer adnewyddu cerbydau'r Cyngor a disgwyl am benderfyniadau arian cyfatebo gan Lywodraeth Cymru ar gynlluniau yn y maes Eiddo.

Pwysleisiwyd fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf, yn cynnwys grantiau Cynnal a Chadw Ysgolion a'r grant Cronfa Gofal Canolradd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd, gan fod y rhai gwasanaethau yn ddibynnol ar grantiau, sut y gall hyn effeithio'r Cyngor yn y dyfodol. Nodwyd fod y Cyngor yn ceisio rhoi pwysau ar y Llywodraeth i grantiau gael ei rhoi yn rhan o'r setliad, mynegwyd fod gwasanaethau yn ddibynnol ar grantiau yn peri ansicrwydd ac yn ei gwneud yn anodd cynllunio i'r dyfodol.
- Diolchwyd i staff am eu gwaith caled yn sicrhau grantiau ac i gynllunio ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD AR GYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod dros 96% o arbedion 2015/16 - 2017/18 wedi'u gwireddu erbyn Mawrth 2018, ychwanegwyd fod hyn yn gyfanswm o dros £23m. Mynegwyd fod llithriad ar 12 o'r cynlluniau gyda 7 ohonynt gan yr Adran Oedolion. Codwyd pryder am 2 gynllun yn yr Adran Addysg sef Elfen Gwarchod o fewn y Cynllun Brechwast am Ddim, a Chynyddu Pris Prydau Ysgolion Cynradd o £2.30 i £2.50. Ychwanegwyd nad yw'r cynlluniau yn cyrraedd yr arbedion disgwylidig ac o ganlyniad wedi arwain at orwariant.

Nodwyd fod Strategaeth Ariannol 2018/19 wedi cynllunio gwerth £2.5m o arbedion. Er hyn, mynegwyd fod 73% o'r cynlluniau wedi'u gwireddu ond fod 7 wedi llithro a oedd yn cynnwys oediad yn trosglwyddo'r ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach, a chynllun 'Dechrau i'r Diwedd' yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Ychwanegwyd fod adolygiad wedi ei gynnal yn y maes Gofal Plant sydd wedi casglu fod niferoedd o nosweithiau plant mewn lleoliadau preswyl wedi disgyn, ond fod yr achosion wedi mynd yn fwy dwys, ac o ganlyniad wedi cynyddu cost y lleoliadau.

Yn gyffredinol, nodwyd fod y cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu arbedion yn dderbyniol, ond fod rhai trafferthion cyflawni wedi eu hamlygu. Ychwanegwyd pwysigrwydd o gadw at arbedion, gan nodi os na fydd modd cadw at y cynlluniau arbedion, yr unig ddewis arall fydd torri gwasanaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd gyda chynllun codi pris cinio ysgol, fod lleihad wedi bod yn nifer y disgyblion sydd yn prynu cinio yn dilyn codi'r pris, o ganlyniad i hyn nid yw'r cynllun wedi cyrraedd ei darged arbedion.
- Nodwyd fod cyflawni cynlluniau arbedion yn mynd yn fwyfwy anodd i adrannau. Er hyn, ychwanegwyd fod yr adroddiad yn dangos llwyddiant i gyflawni, bod y Cyngor wedi cynllunio yn briodol ar gyfer arbedion, a bod ei drefniadau ariannol cadarn yn golygu ein bod mewn gwell sefyllfa i sicrhau fod hynny'n parhau.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.55

CADEIRYDD

Y CABINET DYDD MAWRTH, 4 MEHEFIN 2019

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Cemlyn Rees Williams

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol,) ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion)

Eitem 7 ac 8: Mari Wynne Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion) a Ann Pari Williams (Arweinydd Tîm Llesiant)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Catrin Wager.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Nia Jeffreys ar gyfer eitem 8 gan ei bod yn aelod o'r Grwp Llywio ar gyfer cynllun Dementia Go. Roedd yn eitem a oedd yn rhagfarnu a bu iddi adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 7 Mai 2019 fel rhai cywir.

6. YSGOL LLANAELHAEARN

Cyflwynwyd gan Cyng. Cemlyn Rees Williams

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r Adran Addysg i gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn awyddus i gynnal cyfarfodydd ffurfiol a'r Corff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol i drafod ystod o opsiynau posib ar gyfer dyfodol yr ysgol. Mynegwyd fod pryderon wedi codi am y cwymp sylweddol yn y nifer o ddisgyblion yn yr ysgol, a bod amcangyfrifon yn dangos fod y niferoedd yn mynd i leihau ymhellach.

Nodwyd fod y trafodaethau cychwynnol wedi ei cynnal gyda'r Bwrdd Llywodraethol a phwysleisiwyd mai ymgynghoriad fydd yn cael ei gynnal er mwyn adnabod a thrafod opsiynau posib. Ychwanegodd y Swyddog Addysg fod gan yr ysgol capasiti o 53 o ddisgyblion, ac ar hyn o bryd fod y niferoedd wedi disgyn i 11. Ychwanegwyd fod niferoedd wedi lleihau ers 2013 gyda nifer o blant yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill.

Mynegodd yr Aelod Lleol fod Ysgol Llanaelhaearn yn ysgol fechan sydd wedi gweithio yn galed dros y blynyddoedd diwethaf i godi safon addysg a chyrrhaeddiad y plant. Nododd ei fod yn siomedig a trist am sefyllfa'r ysgol a bod y Llywodraethwyr yn gweithio yn galed i geisio cynyddu nifer y plant yn yr ysgol. Ychwanegodd ei fod yn ymwybodol y bydd problemau cyllid sylweddol gan yr ysgol os na fydd niferoedd yn cynyddu, ond gofynnodd i'r aelodau Cabinet i ystyried ansawdd yr addysg a hapusrwydd y plant tra'n trafod yr opsiynau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd gyda newid yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion y llynedd a fydd hyn yn addasu'r ffordd y bydd yr adran yn gallu edrych ar opsiynau. Nodwyd fod yr ysgol yn disgyn o dan gategori Trefn Cau Ysgolion Gweledig, ac felly rhan o'r drefn yna fydd angen edrych ar bob opsiwn gan roi gwir ystyriaeth i effaith cau ar addysg, ar y gymuned ac ar deithio i ysgolion eraill.
- Nodwyd o ran amserlen cyfarfodydd y bydd angen cyfarfod cyntaf cyn diwedd tymor yr haf, ac yna'r ail gyfarfod ym mis Medi yn dilyn gwneud gwaith ymchwil pellach yn ystod yr haf.

7. HYBU ANNIBYNAETH TRWY GYNYDDU CAPASITI, DATBLYGU GWASNAETHAU A NEWID DIWYLLIANT O FEWN DARPARIAETH THERAPI GALWEDIGAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd dyrannu £116,000 o adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer ariannu swydd Arweinydd Therapi Galwedigaethol fydd â chyfrifoldeb am arwain a datblygu'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ar draws yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfnod o 2 flynedd).

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn gwneud cais un tro o'r Gronfa Trawsffurfio am £116,000 i ariannu swydd Arweinydd Therapi Galwedigaethol am gyfnod o ddwy flynedd. Ychwanegwyd mai'r rhesymeg dros hyn yw'r agenda o newid sydd gan yr Adran yn benodol yn y maes ataliol ac i sicrhau ffyrdd i geisio cadw defnyddwyr gwasanaeth adref mor hir â phosib cyn mynd i ofal. Mynegwyd fod rôl Therapyddion Galwedigaethol yn allweddol i sicrhau cefnogaeth yn y cartrefi. Ategwyd fod y rôl newydd yn allweddol er mwyn newid diwylliant o fewn y gwasanaeth er mwyn sicrhau fod y dinesydd yn ganolog i'r gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig iddynt.

Ychwanegodd y Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion y bydd y rôl yn trawsnewid y gwasanaeth gan roi pwyslais penodol ar waith ataliol. Ychwanegwyd y bydd y rôl yn gwneud gwaith o ail fodelu ac integreiddio rolau therapi rhwng yr Awdurdod Lleol a'r bwrdd Iechyd i sicrhau fod adnoddau presennol yn eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol ac y bydd y gwasanaeth yn fwy person canol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os yw'r Bwrdd Iechyd yn barod i gyd-weithio yn nes gyda'r Cyngor. Nodwyd fod gweledigaeth gyson gan y Pwyllgor Integredig Rhanbarthol i weithio yn nes ac ychwanegwyd fod angen edrych ar brosesau ar y cyd i leihau dyblygu.
- Dangoswyd cefnogaeth i'r cynllun gan nodi ei fod yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cabinet. Ychwanegwyd pwysigrwydd gwaith ataliol gan fod pethau bach yn gwneud llawer o wahaniaeth i sicrhau fod pobl yn gallu aros adref am gyfnod hwy.
- Pwysleisiwyd mai cais un tro am gyfnod o 2 flynedd yw'r cais yma gan ychwanegu y bydd angen ail edrych ar y cynllun ar ddiwedd y cyfnod.
- Holwyd os bydd posibilrwydd o brentisiaethau o fewn y maes, nodwyd fod trafodaethau yn cael eu cynnal a Phrifysgol Glyndŵr er mwyn hyfforddi staff yn y maes i ennill cymwysterau Therapydd Galwedigaethol.

8. CAIS AM ADNODDAU UN TRO O'R GRONFA TRAWSSFFURFIO I ARIANNU Y CYNLLUN GWASNAETHAU CEFNOGI DEMENTIA YN Y GYMUNED (SY'N CYNWYS DEMENTIA GO) AM GYFNOD O FLWYDDYN

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd dyrannu £97,660 o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go), i

ariannu 2 swydd llawn amser (ym Mhwillheli a Porthmadog) a dwy swydd 7awr yr wythnos wedi eu lleoli yn Nhywyn a Chaernarfon hyd at 31 Mawrth, 2020.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y cais am arian yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus o ddwy flynedd. Mynegwyd fod elfen Dementia Go yn rhaglen a ddatblygwyd yng Ngwynedd a oedd yn cyfrannu at fywydau pobl a'u gofalwyr sydd yn byw a dementia. Ychwanegwyd fod Dementia Go yn gyfle i ddod a phobl sydd yn byw a dementia at ei gilydd yn gymdeithasol ac yn gymorth i cynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy.

Nodwyd fod 11 o grwpiau Dementia Go yn cael ei gynnal ar draws y sir gyda 4 aelod o staff penodol i'r cynllun. Ategwyd fod y pedwar aelod o staff yn bencampwyr yn y maes ac yn rhannu gwybodaeth ac yn trafod dementia yn y gymuned. Mynegwyd fod pwyslais ar ymarfer corfforol drwy sesiwn Dementia Go, a drwy ddod a phobl at ei gilydd yn lleihau unigedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at yr elfen o ddatblygu technoleg yn yr adroddiad, a holwyd pa fath o ddatblygiadau a fyddai'r rhain. Mynegwyd fod y gwasanaeth wedi datblygu teclyn sydd yn rhoi dealltwriaeth i bobl yn y gymuned drwy declynnau rith wirionedd sut beth yw byw gyda dementia.
- Nodwyd fod yr arian ar gyfer un tro yn unig, holwyd os oes modd hyfforddi staff o fewn Canolfannau Byw'n lach fel bod modd iddynt barhau i gynnal y sesiynau. Mynegwyd fod staff Dementia Go yn cynnal sesiynau hyfforddiant ac yn benodol mewn cartrefi preswyl.
- Pwysleisiwyd fod ymchwil yn cael ei wneud ac y dylid yn ystod y flwyddyn i werthuso'r cynllun yn fwy ffurfiol i'n galluogi i ystyried a ddylid ei gyllido yn dilyn y flwyddyn hon.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.35

CADEIRYDD

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	25 Mehefin 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Gwenllian Williams
Rhif Ffôn Cyswllt:	Est: 32469
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol ar Weithrediad Safonau'r Gymraeg 2018-19

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo yr Adroddiad Blynyddol ac awdurdodi ei chyhoeddi yn unol a gofynnion Safonau Iaith Cyngor Gwynedd.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Gosodir gofyniad statudol ar y Cyngor drwy Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ni adrodd ar weithrediad y Safonau yn flynyddol, gan gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan gorfforaethol a sicrhau fod copi ar gael yn mhob un o swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor erbyn Mehefin 30. Cyflwynir yr adroddiad ar weithredaid y Saofnau felly er mwyn ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.

3 CYFLWYNIAD

Mae nifer o safonau penodol y mae angen i ni adrodd arnynt, sef **Safonau 158, 164 ac 170**.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-laith-Gymraeg/Hysbysiad-cydymffurfio-Cyngor-Gwynedd.pdf>

Mae angen i'r adroddiad ar gyfer 2018-19 gynnwys y wybodaeth hon:

- o y modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu)
- o nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu) – cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol gennych chi, heb gynnwys cwynion a wnaed i'r Comisiynydd
- o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y

flwyddyn

- nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi penodol a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg – mae hyn yn berthnasol i gyrsiau penodol a enwir yn y safonau (h.y. recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau cwyno a disgyblu; ymsefydlu; delio â'r cyhoedd; iechyd a diogelwch) ac nid yw'n cyfeirio at hyfforddiant dysgu Cymraeg
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd â gwahanol ofynion o ran sgiliau Cymraeg.

4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Gofynnir i'r Aelodau dderbyn cynnwys yr adroddiad drafft a'i gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi.

Mae'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2019.

5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 2018 - 19

CYNGOR GWYNEDD

1. Cefndir

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd.

Nod Polisi Iaith y Cyngor – sef ei brif gyfrwng o sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Safonau Iaith – yw sicrhau fod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dilynir yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ond gan weithio yn rhagweithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser.

2. Cydymffurfio efo'r Safonau

Mae Polisi Iaith a gweithdrefnau'r Cyngor yn sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Yn sgil blynyddoedd o osod gofynion iaith wrth recriwtio, ac o gynnig hyfforddiant i wella sgiliau a dysgu'r Gymraeg, rydym wedi sicrhau bod mwyafrif llethol staff y Cyngor yn gallu'r Gymraeg ac yn gallu gweithredu'r unol a'r polisi hwn, gan normaleiddio defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddi-ofyn.

Nodir yn yr adran hon unrhyw Safonau lle mae'r Cyngor wedi gorfod cymryd camau ychwanegol neu roi ystyriaeth arbennig – y tu hwnt i weithredu'r Polisi Iaith – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cymerir camau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau dros bobl Gwynedd o safbwynt cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, ac hefyd o safbwynt annog a hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r gwasanaethau hynny.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 70 o safonau cyflenwi gwasanaeth, a 6 o safonau atodol cyflenwi gwasanaeth. Yn sgil ymrwymiad hanesyddol Cyngor Gwynedd i'r Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu thu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y gosodwyd hwy ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
7+14+21+ 30+32	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â gofyn i unigolyn a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg neu ddatgan ein bod yn croesawu cyswllt yn Gymraeg	<p>Yn sgil Polisi Iaith ac ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r Gymraeg, y mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi ei normaleiddio ac mae ymwybyddiaeth uchel ymysg y cyhoedd y gallent gyrchu gwasanaethau a gohebu gyda'r Cyngor yn Gymraeg.</p> <p>Mae egwyddorion y Polisi iaith, ac egwyddorion gweithredu ehangach y Cyngor yn golygu bod disgwyl i staff weithredu yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol – hynny yw, bod y dewis iaith a'r gwasanaeth Cymraeg wastad ar gael fel dewis cyntaf, ac na ddylai unrhyw un orfod "gofyn" am y gwasanaeth hwnnw.</p> <p>Gan dderbyn bod camgymeriadau yn mynd i ddigwydd ar adegau, rydym yn ffyddiog bod gweithredu'n rhagweithiol yn hepgor yr angen i ofyn a datgan, ac hefyd bod dealltwriaeth dda ymysg trigolion bod y gwasanaethau oll ar gael yn ddwyieithog.</p>

		<p>Serch hynny, rydym yn cydnabod bod arferion pobl yn newid, a bwriedir blaenoriaethu gwaith ymchwil dros y flwyddyn nesaf fydd yn edrych ar agweddau defnyddwyr, a'u canfyddiadau am gyfrwng iaith gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod yr agwedd yma o'r polisi yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.</p>
<p>52+55+56+ 57+58+ 59+60</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r wefan, apiau, cyfryngau cymdeithasol, a pheiriannau hunan-wasanaeth</p>	<p>Mae rhai rhwystrau yn parhau efo apiau a gwefannau, ac yn enwedig felly wrth brynu systemau allanol. Rydym yn parhau i ddelio gyda'r achosion hyn yn unigol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth a'r dewis gorau.</p> <p>Mae angen gweithio yn barhaus i godi ymwybyddiaeth cwmnïau allanol o'r angen i ddatblygu apiau yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na gorfod eu haddasu i anghenion bellach ymlaen. Mae hefyd yn parhau yn her pan fydd angen i wefan neu wasanaethau'r Cyngor drosglwyddo i wefannau allanol, megis gwasanaethau talu ar-lein, i sicrhau bod popeth ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Mae mwy o wasanaethau a ffurflenni yn cael eu cyflwyno ar-lein erbyn hyn, ac mae'r Cyngor ei hun wedi bod yn datblygu nifer o wasanaethau ar-lein yn ddiweddar, er mwyn galluogi'r cyhoedd i wneud ceisiadau a thaliadau drwy wefan y Cyngor. Mae'r rhain i gyd ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newid yng ngwasanaethau ar-lein Bathodyn Glas ac hefyd ceisiadau DBS. Mae'r Cyngor wedi ceisio dylanwadu ar y newidiadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cyrraedd ein safonau, ond mae'r ddau fater hwn yn parhau ac wedi eu cyfeirio at y Comisiynydd Iaith am gefnogaeth i'w datrys.</p>
<p>ATODOL 155+156+157+ 158+159+160</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth sydd yn ymwneud â threfniadau cydymffurfio gyda'r</p>	<p>Dilynir y drefn gwynion gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith, ac mae'r drefn honno ar wefan y Cyngor.</p>

	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	Llunir a chyhoeddir adroddiad blynyddol gan y Cyngor yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.
--	--------------------------------	---

SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 10 o safonau llunio polisi, a 6 o safonau atodol llunio polisi. Eto, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu y tu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y'u gosodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
88+89+90+94	Safonau Llunio Polisi yn ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.	<p>Mae'r Uned Iaith yn chwarae mwy o rôl mewn asesiadau effaith, gan gynnig llais arbenigol ac annibynnol wrth asesu effaith newidiadau polisi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Mae'r drefn o asesu effaith ar faterion cydraddoldeb yn cynnwys effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yr Uned yn cyfrannu a gwirio unrhyw asesiadau er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf posib.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adnabod nad yw'r drefn bresennol sy'n bodoli yn dod â'r canlyniadau a ddymunir o ran sicrhau bod y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg.</p> <p>Roedd Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd yn haf 2018 hefyd yn tynnu sylw at yr angen i edrych ar y maes hwn, ac felly mae'r Uned Iaith a'r Swyddog Cydraddoldeb wedi bod yn cydweithio i ystyried newidiadau i'r broses, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau allan o'r ymarfer wrth i adrannau asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar wahanol nodweddion cydraddoldeb ac iaith.</p> <p>Mae gwaith y Cyngor ar ddatblygu'r canllawiau asesu effaith ar gyfer ceisiadau cynllunio hefyd wedi helpu datblygu ein dealltwriaeth yn y maes hwn. O fis Mai 2019 ymlaen, bydd yr Uned Iaith yn cymryd rhan weithredol wrth wirio unrhyw asesiadau iaith (cryno neu lawn) a gaiff eu cyflwyno fel rhan o geisiadau cynllunio, ac yn argymhell camau i'w cymryd os gwelwn bod effaith posib i ffyniant y Gymraeg yn ein cymunedau o ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig.</p>

SAFONAU GWEITHREDU

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHREDU
127+136+136A+	Safonau Gweithredu yn ymwneud ag asesu sgiliau iaith ein cyflogeion	<p>Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth flynyddol gan bob adran i bennu nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae'r angen i siarad Cymraeg wedi cael ei osod fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, sydd yn golygu bod angen rhyw lefel o allu a dealltwriaeth ar gyfer pob swydd.</p> <p>Yn ystod 2018-19 sefydlwyd trefn newydd ar gyfer pennu gofynion ieithyddol wrth benodi i swyddi newydd. Mae sgiliau yn y Gymraeg yn parhau i fod yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob swydd, ond nawr, wrth lunio'r swydd ddisgrifiad a manylion person, gofynnir i reolwyr ystyried pa lefel o sgiliau ieithyddol fydd ei angen ar gyfer y swydd dan sylw, a gwahaniaethu rhwng sgiliau ysgrifenedig, llafar, a darllen a deall, ar sail fframwaith sydd wedi ei datblygu gan y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn hefyd, cwblhawyd rhan gyntaf y gwaith o fapio sgiliau ieithyddol y swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y Cyngor. Mae pob adran o fewn y Cyngor bellach wedi edrych ar fanylion person pob swydd o fewn eu gwasanaethau, a gwirio a yw'r lefelau iaith wedi eu gosod yn briodol ar gyfer gofynion y swydd.</p> <p>Ail gam y gwaith hwn, sydd eisoes ar waith, yw adnabod a yw'r swyddogion sydd yn y swyddi hynny ar hyn o bryd yn cyrraedd y gofynion iaith neu beidio.</p> <p>Mae hwn yn waith sydd yn cymryd amser, gan ei fod yn golygu cyswllt dwys gyda rheolwyr ac unedau, cynnal hunan-asesiadau, ac ar gynnig cefnogaeth a hyfforddiant ar unwaith i unigolion os gwelir eu bod yn is na'r sgiliau dymunol ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen i gychwyn, a hyd at</p>

		<p>ddiwedd Mawrth 2019, roedd y prosiect wedi'i gwblhau mewn 9 gwasanaeth rheng flaen ac yn parhau mewn 7 arall. Bydd yr unigolion nad ydynt yn cyrraedd gofynion y swydd yn derbyn asesiad arall i gadarnhau'r hunanasesiad ac yna'n cael cynnig hyfforddiant er mwyn cau'r bwlch. Mae'r holiadur hwn yn caniatáu i swyddogion ymateb i anghenion penodol yr unigolyn yn dilyn dadansoddiad manwl o'r atebion.</p> <p>Budd ychwanegol annisgwyl o'r gwaith hwn yw ein bod nid yn unig wedi gweld bod gan nifer fawr o staff sgiliau ieithyddol uwch na'r hyn sydd yn ddisgwyledig ar gyfer eu swyddi penodol, ond mae hefyd wedi arwain at gynnydd yn nifer yr aelodau staff sydd yn gofyn am hyfforddiant, megis gloywi iaith, er mwyn gwella eu sgiliau ymhellach.</p>
<p>128+129+130 +131+132+133+</p>	<p>Safonau Gweithredu yn ymwneud ag hyfforddiant cyffredinol, hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth</p>	<p>Mae nifer helaethaf hyfforddiant y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, gyda chysiau Saesneg ar gael drwy gais yn unig.</p> <p>·</p> <p>Mae cyrsiau arbenigol mewn meysydd penodol, lle bydd angen prynu gwasanaeth allanol, yn dal i fod yn rhwystr, fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion cyson y Cyngor i ddylanwadu ar ddarparwyr, a bydd nifer o'r cyrsiau hyn yn cael eu darparu yn ddwyieithog</p> <p>Ran amlaf, llwyddir i gael deunyddiau Cymraeg, ond ceir problem wrth geisio cael hyfforddwyr sydd yn gallu arwain y sesiynau yn Gymraeg.</p> <p>Lle bo'n bosib, bydd y Cyngor yn ymateb i'r her drwy gynnal sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr, ac yn datblygu sgiliau y tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, er mwyn sicrhau eu bod hwy'n gallu darparu'r hyfforddiant eu hunain.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, bu swyddogion Cyngor Gwynedd yn allweddol yn yr ymdrechion i sicrhau hyfforddiant iechyd a diogelwch (IOSH) yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Hyd y pwynt yma, roedd swyddogion y Cyngor wedi bod yn gorfod cynnal y cwrs eu hunain, ond yn methu a chael y</p>

		deunyddiau achrededig yn Gymraeg. Bellach gellir dilyn y cwrs yn ei gyfanrwydd yn y Gymraeg.
--	--	--

SAFONAU HYBU

Yn ystod 2018-19 cafodd cynllun strategol newydd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg ei gyhoeddi yn unol a'r gofyniad yn y Safonau. Mae **Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023** yn ymgais i adnabod y prif heriau a chyfleoedd sydd yn wynebu'r Gymraeg yng Ngwynedd. Y nod cyffredinol yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, drwy wasanaethau'r Cyngor ei hun ac yn gymunedol. Roedd Pwyllgor Iaith y Cyngor yn rhan allweddol yn llunio'r cynllun hwn ac maent yn cadw trosolwg dros ei weithrediad drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd am wahanol brosiectau a ffrydiau gwaith sydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Hybu yma [linc]

3. Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Mae'r data canlynol yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau fesul gwasanaeth:

Nid yw'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer GWE ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (NMWTRA) gan eu bod yn adrannau rhanbarthol sydd yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Gwynedd.

GWASANAETH	CYFANSWM NIFER STAFF	NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL	NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT	NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG
Addysg – Staff canolog	185	185		
Staff Dysgu ¹	775	716	-	59
Staff Ategol				
Amgylchedd	162	159	3	
Cyllid	206	204	2	
Cefnogaeth Gorfforaethol	184	184		
Economi a Chymuned	406	395	11	3
Oedolion Iechyd a Llesiant	915	786	129	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	238	206	29²	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	546	530	16	
Ymgynghoriaeth	118	105	12	1
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	33	33		
CYFANSWM				

¹ Er nad ydym wedi bod yn casglu data manwl ar allu ieithyddol staff addysg ac ysgolion yn y gorffennol, mae darn o waith wedi ei wneud yn ystod 2018, dan arweiniad GWE, i asesu lefelau sgiliau y gweithlu addysg cyfan. Mae'r arolwg hwnnw yn dangos bod **87.1% o'r 1,345** o staff a ymatebodd i'r cais gwybodaeth yn gallu cyfathrebu yn rhugl a hyderus yn Gymraeg a dim ond **0.7%** heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg o gwbl.

² Mae'r data a ddangosir yma yn berthnasol i 2017-18. Cesglir y wybodaeth am y gwasanaethau Oedolion a Phlant drwy eu hadroddiad data blynyddol (STF) – nid yw hwnnw eto wedi ei gwblhau ar gyfer 2018-19. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei ddiweddarau pan fydd ar gael.

4. Adrodd ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff a datblygu sgiliau iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170 –

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennyh yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg, gyda chysiau ar gael yn Saesneg ar gais. Os bydd aelodau o staff di-Gymraeg neu ddysgwyr mewn hyfforddiant anwytho, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ddwyieithog. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, a nifer y rhai di-Gymraeg yn y sesiwn – drwy ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd, defnyddio sibrwd, neu yr arweinydd/hyfforddwr yn cyflwyno yn y ddwy iaith bob yn ail.

Yr unig achlysuron lle bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, llwyddwyd i gymryd cam mawr ymlaen ym maes lechyd a Diogelwch drwy sicrhau y bydd yr hyfforddiant IOSH rhyngwladol o hyn ymlaen ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff.

Roedd y Cyngor wedi tynnu sylw'r Comisiynydd at y rhwystrau gyda'r math yma o hyfforddiant wedi i ni dderbyn cwynion gan aelodau o staff, ac i ofyn am eu cefnogaeth i ddylanwadu ar y darparwyr, ond mae'n deg dweud bod dyfalbarhad staff y Cyngor ar y mater wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn y pen draw i wyrddroi agweddau a phenderfyniad o fewn y sefydliad.

Nifer “**digwyddiadau**” hyfforddi mewnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2018 i 30 Mawrth 2019: **798**

Mae hyn yn gyfuniad o deitlau ‘corfforaethol’ ac ‘arbenigol’ ac yn cynnwys pob math o ddysgu – wyneb yn wyneb, e-fodiwlau a webinarau.

Nifer Teitlau unigol yn ystod yr un cyfnod oedd **252**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR
Cymraeg	381	1483
Saesneg	218	1067
Dwyieithog	208	1140

5. Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2017- 2018

O safbwynt y ddarpariaeth a gynigiwyd i ddysgwyr, defnyddiwyd y trefniadau isod yn ôl y galw:

- Cyrsiau cymunedol dros gyfnod hir (dysgwyr yn mynychu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn y gymuned)
- Sesiynau Gloywi iaith rheolaidd a gynhelir gan y Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) e.e. Gloywi iaith, Treiglo, Cymraeg Elfennol
- Sesiynau unigol 1:1 gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiwtoriaid allanol ar gais unigolion
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy – yn y Prifysgolion neu Nant Gwrtheyrn)
- Cyrsiau achlysurol – e.e. *Cymraeg yn y Gweithle* (dau ddiwrnod)
- Ysgolion Haf (a gynhaliwyd gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)
- Cyrsiau ar-lein gan Dysgu Cymraeg e.e. Croeso Cymraeg Gwaith
- Un dosbarth mewnol: Dosbarth Iefel Meistroli (Lefel Uwch 2) – un bore'r wythnos.

Mae'r tablau isod yn dangos y cofnod o niferoedd oedd yn derbyn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith fel ag yr oedd ar y 31 Mawrth 2019.

Lefel	Nifer
MYNEDIAD	28
SYLFAEN	15
CANOLRADD	16
UWCH	10
MEISTROLI	13
GLOYWI	90
	172

Mae'r dysgwyr yn dilyn amrywiaeth eang o gyrsiau, fel a ganlyn:

Cwrs	Cyfanswm
Cyrsiau cymunedol	35
Dosbarth Meistrolï	8
1:1 mewnol (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg)	20
1:1 allanol (Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)	3
Cymraeg Gwaith ar-lein	15
Cymraeg yn y Gweithle	3
Ysgol Haf	2
Cwrs Calan	1
Nant Gwrtheyrn	4
Treiglo (mewnol)	34
Cymraeg Elfennol (mewnol)	12
1:1 Siwan	1
Gloywi Iaith (mewnol)	33
Cyfanswm	171

Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draw adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:

Adrannau	Cyfanswm	%
Addysg	25	15%
Amgylchedd	8	5%
Cyllid	2	1%
CG	10	6%

Economi	9	5%
Oedolion	40	23%
Plant	35	20%
Priffyrdd	5	3%
YGC	21	12%
NMWTRA	6	3%
Byw'n lach	9	5%
AELODAU	2	1%
	172	

Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2018 – 2019

Rhoddir dwy wobwr flynyddol bellach, i gydnabod unigolion o fewn y Cyngor sydd yn dysgu'r Gymraeg, ond hefyd i unigolion neu dimau sydd yn gwneud ymdrech arbennig, neu yn mynd y tu hwnt i'w swyddi arferol i hybu'r Gymraeg ac i sicrhau bod posib i drigolion a defnyddwyr gwasanaethau'n defnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr.

Enillwyd y gwobrau eleni gan Nancy Wilkinson (Swyddog Amgylchedd yn Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant (am eu gwaith i sicrhau adnoddau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant IOSH).

6. Adrodd ar ofynion iaith wrth benodi

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	500
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

Mae pob swydd a hysbysebwr gan y Cyngor yn cynnwys gallu yn y Gymraeg fel sgil hanfodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag mae'r Cyngor wedi sefydlu trefn newydd ar gyfer adnabod yr union ofynion ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi, ac erbyn hyn mae pob swydd sydd yn cael ei hysbysebu gydag esboniad clir o pa lefel o sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen.

Mae hyn yn rhan o waith ehangach y Dynodiadau Iaith.

7. Adrodd ar gwynion iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(d) nifer y cwynion a dderbyniwyd

Cafwyd dau ymchwiliad gan y Comisiynydd Iaith i fethiant honedig i gydymffurfio gyda'r Safonau yn ystod 2017-18.

Ymchwiliad CSG236

Ym mis Mawrth 2019 barnwyd bod y Cyngor wedi torri dau Safon ac wedi methu a delio gyda gohebiaeth a phroses apelio yn ei chyfanrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau i sicrhau na fydd y sefyllfa yn codi eto, ac mae Polisi Iaith y Cyngor yn datgan yn glir bod gan unrhyw aelod o staff hawl i gyflwyno cwynion a dilyn proses gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymholiadau Comisiynydd a chwynion mewnol:

Nifer cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol drwy broses gwynion y Cyngor:

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Amgylchedd	1	Dogfennau'r broses Gynllunio ddim ar gael yn Saesneg
Cefnogaeth Gorfforaethol	2	Cyfeiriad swyddogol y Cyngor ar y we Ymholiad gan swyddog o GwE wedi i neges fewnol gael ei hanfon yn uniaith Gymraeg a'r Saesneg yn yr atodiad, yn ôl yr arfer ar gyfer cyfathrebu mewnol. Cadarnhawyd bod y neges yn cydymffurfio gyda gofynion y Polisi Iaith.
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	1	Holiadur ar-lein ddim ar gael yn Gymraeg
Economi a Chymuned	2	Amodau Cronfa benthyciadau busnes – busnes newydd heb ddefnyddio'r Gymraeg Tafleenni Cymunedau dros Waith ddim ar gael yn Gymraeg
Cyllid	2	Peiriannau ateb: 1 neges uniaith Saesneg ar beiriant ateb y gwasanaeth sy'n delio gyda cheisiadau pas bws. 1 neges uniaith Gymraeg ar beiriant ateb y gwasanaeth treth Cyngor.
Cyfanswm	8	

Gwaith datblygol:

Mae gennym ffrwd gwaith wedi ei sefydlu o dan y teitl “Cymraeg yn y Gweithle”, sydd yn edrych yn thematig ar wahanol agweddau o gydymffurfiaeth ac yn ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatblygu gallu’r Cyngor i gynnig dewis iaith yn rhagweithiol ac i annog mwy o’r cyhoedd i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio yn bennaf ar y gwaith dynodiadau iaith swyddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi adnabod meysydd thematig sydd yn cynnwys defnydd iaith wrth ddatblygu gwasanaethau ar-lein a defnyddio apiau.

Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar

- Barhau gyda’r gwaith o adnabod sgiliau iaith swyddogion drwy waith y Dynodiadau iaith.
- Deall sut mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau a sut y gallwn annog mwy i ddefnyddio fersiynau Cymraeg ffurflenni a gwasanaethau ar-lein.
- Datblygu cynllun hyfforddi fydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn defnyddio iaith eglur, syml a chlir wrth ysgrifennu a chyfathrebu
- Ehangu ar y rhaglen ymwybyddiaeth i ddatblygu dealltwriaeth staff o’u cyfrifoldebau wrth hyrwyddo’r Gymraeg – yn ehangach na dim ond cynnig gwasanaeth dwyieithog.
- Cyfrannu at beilota prosiect Arfer gan Brifysgol Bangor sydd yn edrych ar geisio newid arferion iaith ymysg timau gwaith lle mae arferiad o siarad Saesneg wedi ei sefydlu.

Byddwn hefyd yn:

- Datblygu trefniadau a dealltwriaeth am y modd y gall y Cyngor asesu effaith penderfyniadau ar y Gymraeg yn fwy effeithiol a sicrhau bod pob penderfyniad o blaid y Gymraeg.

Eitem 7

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod:	25ain o Fehefin, 2019
Aelod Cabinet perthnasol:	Y Cynghorydd Gareth Griffith
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo
Teitl yr Eitem:	Rheolaeth Stad Manddaliadau'r Cyngor

Y Penderfyniad a geisir

Argymhellir y dylid ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau drwy:

- Cefnogi'r Aelod Cabinet i sefydlu un Panel Ymgynghorol Manddaliadau Sirol gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach i gynorthwyo'r Aelod Cabinet ynglŷn a'i swyddogaethau rheolaeth y stâd manddaliadau.
- Gomisïynu gwaith gan y Gwasanaeth Eiddo i ystyried os oes buddiannau ariannol o sefydlu cwmni i reoli'r manddaliadau yn y dyfodol.
- Gyfeirio unrhyw elw a ddaw o'r stad yn y dyfodol, sydd uwchlaw'r swm sydd eisoes yn rhan o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth ar hyn o bryd, gael ei ail fuddsoddi o fewn y Stad Manddaliadau.

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar egwyddorion a threfniadau rheoli Stad Manddaliadau'r Cyngor i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y 13eg o Ragfyr, 2018.
- 1.2 Yn dilyn ystyriaeth o'r wybodaeth a gyflwynwyd, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:
 - Sefydlu un Panel Ymgynghorol Manddaliadau ar draws y Sir gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach
 - Ystyried os oes buddiannau o sefydlu cwmni i reoli'r Manddaliadau yn y dyfodol
 - Cadw'r adnodd staff dros dro
 - Y dylai unrhyw elw, tu hwnt i'r ffigur sydd wedi ei glustnodi, gael ei ail fuddsoddi yn y stad.
- 1.3 Mae rhai o'r casgliadau hyn yn gofyn am waith pellach cyn y gellir gweithredu ac eraill yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol. Felly, yn yr adroddiad hwn byddaf yn ystyried casgliadau'r Pwyllgor Craffu ac yn argymhell sut yr wyf yn credu y dylem weithredu o hyn allan.

2 Y Stad Manddaliadau

- 2.1 Y mae darpariaeth statudol o fanddaliadau gan y sector gyhoeddus yn dyddio yn ôl i Ddeddf Manddaliadau 1892. Cafodd y mwyafrif ohonynt eu sefydlu yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'r bwriad o gynig cyfleoedd i deuluoedd ifanc ddechrau ffermio ar eu liwt eu hunain.
- 2.2 Erbyn heddiw, mae 46 daliad unigol yn rhan o Stad Manddaliadau Cyngor Gwynedd, gyda 35 ym Meirionnydd, 10 yn Nwyfor ac 1 yn Arfon. O'r 46 daliad, mae 39 yn ddaliadau gyda thŷ ac 7 yn ddaliadau tir moel.
- 2.3 Mae maint y stad yn ymestyn i 2996 acer neu 1213.53 hectar. Mae maint daliad unigol yn amrywio o 2.5 acer i 212 acer. Maint cyfartalog daliad yw 65 acer.
- 2.4 Mae'r trosiant tenantiaid yn isel. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, dim ond un neu ddau o newidiadau sydd yn cymryd lle mewn blwyddyn.
- 2.5 Yn 2008, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Stad gan Weithgor o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau. Edrychwyd ar bwrpas y stad, ei pherfformiad ariannol a'r trefniadau/egwyddorion rheoli. Gan fod degawd wedi pasio ers yr adolygiad hwn, roedd yn amserol ail ymweld gyda'r maes hwn a chraffu'r ystyriaethau ynghlwm â darparu cyfleoedd amaethu drwy fod yn berchen ar Stad Manddaliadau.

3 Pwrpas y Stad Manddaliadau

- 3.1 Edrych ar bwrpas ac egwyddorion rheoli'r stad oedd y prif waith a gyflawnwyd gan y Gweithgor yn 2008. Heriwyd os oedd cyfiawnhad i barhau i ddarparu gwasanaeth 'dewisol' o'r math yma, ac a oedd darparu adnodd o'r fath yn parhau i fod mor berthnasol heddiw ag yr oedd rhai degawdau yn ôl pan sefydlwyd y stad yn wreiddiol?
- 3.2 Prif gasgliad y Gweithgor bryd hynny oedd bod y manddaliadau yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y gymuned wledig yn nhermau economaidd a chymdeithasol, ac yn sgil hynny penderfynodd y Pwyllgor Craffu ar y pryd y dylid cadarnhau'r rhesymeg oedd yn cefnogi pwysigrwydd parhau i ddarparu manddaliadau fel a ganlyn:
 - Cynnig mynediad fforddiadwy i bobl ifanc i'r diwydiant amaeth - cyfleoedd a fyddai yn eithriadol o brin heblaw am ddaliadau a gynigir gan awdurdodau cyhoeddus.
 - Cyfle i amaethwyr newydd sefydlu eu busnesau eu hunain a chynnig y cyfle i symud ymlaen i ddaliadau mwy masnachol eu natur yn y dyfodol.
 - Cynnig cyflogaeth mewn cymunedau gwledig a darparu llafur arbenigol ar gyfer daliadau eraill.
 - Cyfle i gefnogi a hyrwyddo'r economi leol mewn ardaloedd gwledig eu natur.
 - "Banc" o dir parod ar gyfer pa bynnag her all wynebu'r Cyngor yn y dyfodol gan gynnwys tai fforddiadwy, cynlluniau amgylcheddol, 'carbon trading' a.y.y.b.
 - Cyfle i hybu a chefnogi strategaethau amgylcheddol bositif ynghyd a dulliau amaethu cynaliadwy.

- Cyfrannu at gadw pobl ifanc yng nghefn gwlad a’u galluogi i gyfrannu tuag at bob agwedd o fywyd cymdeithasol traddodiadol yr ardal.

3.3 Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn rhannu’r farn hon pan ystyriwyd y mater cyn y Nadolig, ac yn fodlon fod rhesymeg glir a theg i barhau i ddarparu stad Manddaliadau.

4 Perfformiad ariannol y Stad

4.1 Pan edrychodd y Gweithgor ar berfformiad ariannol y stad yn 2008, roedd yr incwm a’r costau fel a ganlyn:

Pennawd incwm/gwariant	2008
Incwm rhent	£165,800
Costau cynnal a chadw dydd i ddydd	£106,300
Costau refeniw eraill (cynnwys staffio)	£63,500
Costau canolog	£13,000
Elw/colled flynyddol	-£17,000

4.2 Felly, ar y pryd, roedd cost o £17,000 i’r Cyngor ddarparu stad manddaliadau.

4.3 Roedd dymuniad clir gan yr Aelodau y dylai’r stad fod yn hunangynhaliol yn y dyfodol. Er mwyn ceisio sicrhau hyn sefydlwyd rhai egwyddorion rheoli pendant e.e. adolygiadau rhent cyson, trosglwyddo tenantiaid i delerau mwy modern, trosglwyddo cyfrifoldeb cynnal a chadw ar denantiaid newydd ayb

4.4 Yn dilyn mabwysiadu’r egwyddorion hyn, roedd y gwahaniaeth yn sefyllfa ariannol y stad erbyn 2018 fel a ganlyn:

Pennawd incwm/gwariant	2008	2018	Gwahaniaeth
Incwm rhent	£165,800	£234,000	£68,200
Costau cynnal a chadw (cyfartalog)	£106,300	£119,000	£12,700
Costau refeniw eraill (cynnwys staffio)	£63,500	£67,900	£4,400
Costau canolog	£13,000	£16,000	£3,000
Elw/colled flynyddol	-£17,000	£31,100	£48,100

4.5 Gwelir fod y stad bellach yn hunangynhaliol yn gyllidol. Dros y ddegawd ddiwethaf mae gwahaniaeth o £48,100 rhwng y golled yn 2008 a’r incwm i’r Cyngor erbyn heddiw.

4.6 Gwelir fod yr incwm o rent wedi cynyddu £68,200 (41%) drwy fod yn llwyddiannus gyda’n hadolygiadau rhent a chymryd cyfleoedd i drosi tenantiaid o’r hen gytundebau i gytundebau newydd ar delerau masnachol modern.

4.7 Mae’r gwariant ar gynnal a chadw wedi aros yn weddol gyson, yn bennaf oherwydd bod newid i’r cytundebau modern lle bo’r tenant yn gyfrifol am gynnal a chadw wedi ein cynorthwyo i leihau costau.

- 4.8 Wrth ystyried costau cynnal a chadw dylid talu sylw at gyflwr presennol y daliadau a'r gwariant sy'n debygol o'n hwynebu yn y dyfodol. Cynhelir arolwg cyflwr blynyddol o'r prif adeiladau. Mae'r ôl groniad cynnal a chadw (sef y gwariant sydd ei angen i ddelio gyda'r diffygion presennol ar draws y stad) yn £515,000.
- 4.9 Mae'r costau refeniw eraill, gan gynnwys gwariant ar adnoddau staff, wedi aros yn weddol gyson dros y ddegawd ddiwethaf. Dim ond £9,600 o wariant sydd ar yr adnodd staffio o fewn yr Uned Stadau ar gyfer rheoli'r manddaliadau o ddydd i ddydd.

5 Argymhellion y Pwyllgor Craffu

a) Sefydlu un Panel Ymgynghorol Manddaliadau Sirol gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach

- 5.1 Yn hanesyddol, yr Aelod Cabinet dros faterion Amgylchedd sydd wedi bod yn gwneud penderfyniadau ar osod manddaliadau gyda chymorth Aelodau eraill ar ffurf Panel Ymgynghorol Manddaliadau, un ar gyfer gosod daliadau yn Nwyfor ac un gwahanol ar gyfer Meirionnydd.
- 5.2 Cytunaf gydag argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau y byddai sefydlu un Panel Ymgynghorol Sirol ar gyfer y manddaliadau yn galluogi ystyried materion ehangach na'r cylch gorchwyl presennol sydd wedi ei gyfyngu i ystyried ceisiadau gosod daliadau yn unig.
- 5.3 Rwyf o'r farn y byddai'n fuddiol ehangu cylch gorchwyl y Panel i gynnwys cynghori'r ar faterion eraill megis blaenoriaethu gwariant, adolygu perfformiad y stad, cynghori ar faterion tenantiaid sydd tu hwn ti'r gwaith dydd i ddydd arferol ayb. Bydd angen sefydlu cylch gorchwyl clir drwy drafodaeth gyda'r Gwasanaeth Eiddo a gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol.
- 5.4 Rhagwelaf y bydd aelodaeth y Panel gynnwys oddeutu 4 Aelod, gan sicrhau cynrychiolaeth deg o'r ddwy ardal lle mae'r manddaliadau wedi eu lleoli gan gymryd i ystyriaeth hefyd fod angen gwybodaeth am y sector amaethyddol a'r daliadau eu hunain.

b) Ystyried os oes buddiannau o sefydlu cwmni i reoli'r manddaliadau yn y dyfodol

- 5.5 Gwyddom fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar wrth sefydlu cwmni dan reolaeth y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth Byw'n Iach ac roedd y Pwyllgor Craffu yn awyddus ystyried os oedd manteision ariannol i'r Stad Manddaliadau o wneud rhywbeth tebyg.
- 5.6 Ar yr olwg gyntaf ni allaf weld fod yr un buddion ariannol yn debygol o gael eu gwireddu yn yr achos yma o'i gymharu gyda sefyllfa'r Gwasanaeth Byw'n Iach. Fodd bynnag, mae angen gwaith manwl cyn y gellir dod i gasgliadau pendant. Credaf fod angen cymharu cryfderau a gwendidau'r drefn sydd eisoes mewn lle heddiw gydag unrhyw opsiynau amgen er mwyn sefydlu os oes gwir achos dros newid y drefn ac argymhellaf y dylid comisiynu'r Gwasanaeth Eiddo i arwain ar y gwaith hwn, gyda chefnogaeth gan y Gwasanaeth Cyfreithiol a Chyllid.

c) Cynyddu'r adnodd staff sydd ar gael i reoli'r manddaliadau

- 5.7 Mae'r stad manddaliadau yn cael ei rheoli gan yr Uned Stadau yng Ngwasanaeth Eiddo'r Cyngor. Mae prif feysydd gwaith yr Uned Stadau yn cynnwys rheoli holl denantiaethau'r Cyngor (Oddeutu £1.1M o incwm refeniw blynyddol) ynghyd â negodi telerau prynu eiddo ar gyfer ein cynlluniau cyfalaf a gwerthu eiddo gweddill i anghenion. Dros y ddegawd ddiwethaf mae'r rhaglen werthu wedi cynhyrchu oddeutu £12M o incwm cyfalaf i'r Cyngor allu ei ddefnyddio i fuddsoddi yn ein rhaglen gyfalaf blynyddol.
- 5.8 Hyd at ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, roedd gan yr hen Gyngor Sir Gwynedd ddau swyddog llawn amser yn rheoli'r Stad Manddaliadau. Am rhai blynyddoedd wedi hynny roedd cyfwerth ag un swyddog llawn amser yn rheoli'r stad. Dros y blynyddoedd dilynol bu i'r adnodd hwn leihau'n gyson ac erbyn 2008 nid oedd adnodd penodol o fewn yr Uned i roi sylw i faterion manddaliadau. Dros y ddegawd ddiwethaf mae'r tasgau rheoli wedi eu cyflawni fel rhan fechan o swyddogaeth Rheolwr yr Uned Stadau.
- 5.9 Dros y 18 mis diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi gallu rhyddhau amser swyddog arall o fewn yr Uned i gynorthwyo gyda'r gwaith rheoli manddaliadau ac mae hyn wedi eu galluogi i roi mwy o sylw i faterion nad oedd modd eu cyfarch yn amserol cyn hynny. Mae hyn wedi eu galluogi i gynyddu'r incwm rhent yn sylweddol a delio gyda nifer o faterion cytundebol oedd wedi bod yn disgwyl sylw. Trefniant dros dro oedd hyn ac mae wedi bod ar draul perfformiad ym meysydd gwaith eraill yr Uned Stadau.
- 5.10 Fodd bynnag, rhaid cydnabod fod clustnodi'r adnodd ychwanegol wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae wedi caniatáu i'r Uned gyfarch materion oedd angen sylw ers peth amser. Felly, yn dilyn ail strwythuro diweddar mae'r Gwasanaeth eisoes wedi gallu creu capasiti ychwanegol yn yr Uned hon sydd wedi caniatáu gwneud yr adnodd a gyfeiriwyd ar sail dros dro i reoli'r manddaliadau yn drefniant parhaol. Bydd swyddog ar lefel Uwch Syrfewr Stadau yn rhoi cyfwerth â hanner ei hamser i ddelio gyda'r gwaith hwn o hyn allan.
- 5.11 Felly, credaf fod y Gwasanaeth eisoes wedi gweithredu i ymateb i gasgliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn yr achos yma.

ch) Y dylai unrhyw elw o'r stad, tu hwnt i'r swm sydd eisoes yn rhan o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth, gael ei ail fuddsoddi yn y stad Manddaliadau.

- 5.12 Mae sefyllfa ariannol y stad wedi newid yn sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf a bellach mae'r stad yn hunangynhaliol ac yn creu incwm i'r Cyngor oddeutu £31,000 uwchlaw'r costau rhedeg. Roedd y Pwyllgor Craffu yn cydnabod fod yr incwm hwn wedi ei gynnwys yng nghyllideb refeniw'r Gwasanaeth ac mae'r Cyngor felly yn ddibynnol arno. Roedd yr Aelodau yn derbyn y byddai hynny'n arwain at yr angen i ddarganfod arbediad cyfwerth mewn maes arall ac nid oeddent yn gweld y byddai'n synhwyrol cynyddu'r galw am arbedion refeniw mewn cyfnod mor heriol.
- 5.13 Fodd bynnag, pe byddai'r incwm yn cynyddu ymhellach yn y dyfodol (drwy adolygiadau rhent neu drosglwyddo i delerau newydd o dan y cytundebau modern) roedd y Pwyllgor Craffu yn awyddus iawn i argymhell y dylid clustnodi'r swm ychwanegol i'w ail fuddsoddi yn y stad manddaliadau.

- 5.14 Rwy'n cytuno gyda'r casgliad hwn ac yn argymhell fod unrhyw elw newydd (h.y. swm fydd uwchlaw'r hyn mae'r Cyngor yn ddibynnol arno ar hyn o bryd) a gaiff ei greu yn y dyfodol yn cael ei gyfeirio ar gyfer ei ail fuddsoddi o fewn y Stad Manddaliadau ei hun.

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Fe nodir yn yr adroddiad fod trefn hanesyddol o benodi paneli i gynorthwyo'r Aelod Cabinet gyda gosod man ddaliadau. Mae'r argymhelliad i gyfuno a chreu un panel yn ymddangos yn synhwyrol. Gallaf weithio gyda'r gwasnaeth a'r Aelod Cabinet i sefydlu cylch gorchwyl fydd yn gydnaws a threfniadau dirprwyo sydd yn y Cyfansoddiad presenol. Rwy'n nodi sylwadau y Swyddog Cyllid ynglyn a dichonlwydd a gwerth trosglwyddo i endid arall. Nid yw trosglwyddiad o'r fath yn ymarfer syml ac mae angen cloriannu yn ofalus effaith y newid mewn llywodraethiant, angen am gytundebau, treth a chost effeithlonrwydd cyn cychwyn lawr y ffordd yma.

ii. Swyddog Cyllid Statudol

Nodaf argymhellir ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau mewn 3 cam, Yn gyntaf, cytunaf byddai sefydlu un panel ymgynghorol sirol ar gyfer y manddaliadau'n gallu cynorthwyo'r Aelod Cabinet perthnasol. Mae ymhygiadau ariannol i'r 2 argymhelliad arall.

Pe byddai'r incwm manddaliadau'n cynyddu ymhellach yn y dyfodol, bwdwn yn medru adnabod yr incwm 'ychwanegol' a'i neilltuo yn y gronfa manddaliadau i'w ail fuddsoddi yn y stad (yn yr un modd â'r drefn gyfredol gyda chronfa cynnal a chadw eiddo'r Cyngor). Credaf fod rhesymau i glustnodi incwm ychwanegol y manddaliadau fel hyn, ond dylai fod yn eithriad prin, yn hytrach nac yn gynsail i'w ledaenu ar draws weddill cyllidebau'r Cyngor.

Fodd bynnag, nid wyf wedi f'argyhoeddi byddai unrhyw werth ychwanegol o sefydlu cwmni i reoli'r manddaliadau. Mae tystiolaeth o sawl lle yn amlygu byddai hynny'n sicr o greu costau ychwanegol (gorbenion) diangen fyddai'n anghymesur â'r gwasanaeth / stad.

Atodiadau

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	25ain Mehefin 2019
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt:	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Rhif Ffôn Cyswllt:	32233
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2018/19 ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2018/19 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Mae gofyn i ni fel Cyngor gyhoeddi adroddiad yn flynyddol sy'n mesur ein perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau.
- 3.2. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.
- 3.3. Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 (Atodiad 1) wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau'r Blaenoriaethau Gwella a'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul Adran.
- 3.4. Nodir bod yr adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol aelodau'r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Fel yn y blynyddoedd diwethaf y bwriad yw cyhoeddi Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn yr haf gan ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar y 18fed o Orffennaf.
- 3.5. Yn wahanol i adroddiadau blaenorol nid oes tabl o'r mesurau wedi ei gynnwys ar ddiwedd y ddogfen. Yn hytrach, mae'r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori.

- 3.6. Nodir fod angen cadarnhau cynnwys Rhagair yr Arweinydd a bydd hyn yn digwydd cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r adroddiad i'r Cyngor Llawn.
- 3.7. Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1. Bydd y Cyngor yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2019. Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi.
- 4.2. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:


Mae adroddiad ar berfformiad ac allbynnau Cynllun y Cyngor yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac ar gyrhaeddiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr Adroddiad Perfformiad a'i atodiadau, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol (mae'r ffigyrau ariannol yn gyson gyda'r Datganiad o Gyfrifon 2018/19). Mae'n syfrdanol fod y Cyngor wedi cyflawni cymaint ar 'daith' 2018/19 (ar dudalen 4), tra'n isafu'r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth, wrth gyflawni £25miliwn o arbedion dros y 4 mlynedd ers 2015 (gweler tudalen 50).



Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2018/19



Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd	3
Taith 2018/19	4
Cyflwyniad	5
Ein Gwariant	7
Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella	8
Rhan 2 - Adroddiadau'r Adrannau	
Addysg	29
Oedolion, Iechyd a Llesiant	31
Plant a Chefnogi Teuluoedd	35
Economi a Chymuned	39
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	42
Amgylchedd	45
Ymgynghoriaeth Gwynedd	48
Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth	50
Cefnogaeth Gorfforaethol	53

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru



Graffeg "designed
by Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am yr
Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes
y Cyngor drwy ffonio 01766 771000
neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd

Taith Cyngor Gwynedd 2018/19

2018/19

Agor Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest, Porthmadog sy'n cynnwys 40 o fflatiau ble gall pobl barhau i fyw'n annibynnol neu dderbyn gofal.

Ymestyn y gwaith gofal arbenigol ar gyfer dementia trwy ddatblygu darpariaeth arbenigol yng nghartrefi Plas Hafan, Nefyn a Phlas Hedd, Bangor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.

Cymeradwyo grantiau gwerth £1.5m i brynwyr tro cyntaf fydd yn cartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd.

Ffordd Gwynedd

Pecynnau cymorth ariannol newydd wedi eu lansio ar gyfer busnesau yn ardaloedd Penygroes, Bethesda a Chanol Dinas Bangor.

Cwblhau dau gynllun adfywio strategol yng Nghaernarfon, sef adeilad Rheilffordd Ffestiniog a chynllun Galeri2.

Pobl Gwynedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus i weld pa wasanaethau lleol oedd bwysicaf iddynt er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu ble i edrych am arbedion.

Arolygaeth Gofal Cymru wedi nodi fod 'gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn'.

Drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd.

Erbyn diwedd 2018/19 roedd 63.3% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, aildefnyddio neu si gompostio, sy'n gynydd o 8% ers 2014/15.

9,129 o gwsmeriaid newydd wedi creu cyfiri hunanwasanaeth yn www.gwynedd.llyw/fynghyfrif er mwyn cael mynediad i nifer o wasanaethau'r Cyngor.

Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod dan sylw. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn edrych yn benodol ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma gan y Cynllun.

Eleni mae'r adroddiad wedi ei strwythuro mewn 2 ran. Yn y rhan cyntaf rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y prosiectau yr ydym wedi penderfynu canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i Gymunedau Gwynedd (ein Blaenoriaethau Gwella). Mae'r rhan yma wedi ei strwythuro ar sail y Blaenoriaethau Gwella. Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwaith dydd i ddydd a ddarperir i drigolion Gwynedd gan y gwahanol Adrannau o fewn y Cyngor. Adroddir hefyd ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig.



*wedi addasu ffigwr 2018/19 er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant a throsglwyddiadau er mwyn dangos gwir effaith

Fel yr ydym wedi adrodd yn y gorffennol mae ein sefyllfa ariannol fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein prosiectau a darparu ein gwasanaethau er gwaethaf gorfod wynebu toriadau sylweddol o £26m mewn grant gan y Llywodraeth ers 2013/14.

Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus

penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol a gofynion y Ddeddf mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan

- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng ngorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol a'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo a'i peidio. Er mwyn cael darlun gwell o'r gwir sefyllfa byddwn yn cynnal asesiad o sut mae'r 5 ffordd o weithio wedi ei wreiddio o fewn Adrannau unigol dros y flwyddyn nesaf cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i wella'r sefyllfa.


Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd	Nodau Llesiant Cenedlaethol						
Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
1. Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
2. Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
3. Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
4. Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
5. Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
6. Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
7. Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

Mae cynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro yn gyson yn ystod y flwyddyn mewn cyfarfodydd herio perfformiad Adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn mae'r Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yn adolygu cynnydd prosiectau'r blaenoriaethau gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran. Yn ogystal, mae aelodau o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bresennol fel eu bod yn gallu adrodd yn ôl i weddill yr aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

Yn dilyn y cyfarfodydd herio perfformiad, caiff adroddiadau unigol eu paratoi gan yr Aelodau Cabinet sy'n crynhoi'r sefyllfa diweddaraf o ran perfformiad y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet er mwyn adolygu ein gwaith yn gyson a sicrhau ein bod ar y trywydd cywir.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei baratoi sy'n adrodd ar gynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

Ein Gwariant



Blaenoriaethau Gwella

Mae 7 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 gyda phrosiectau y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn cwrdd a'r uchelgais o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2018/19 yn ogystal a nodi'r amcanion llesiant y maent yn cyfrannu tuag atynt.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor



Blaenoriaeth Gwella

I



Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cydweithio gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru ar faterion felly Cynllun Twf ar gyfer gogledd Cymru i greu'r amodau priodol er mwyn gallu denu buddsoddiad i'r ardal i gyflawni hynny.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn ystod 2018/19 mae Cyngor Gwynedd wedi cydweithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru gan sicrhau cyfraniad o £120Miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Twf, sy'n cynnwys 7 rhaglen strategol ac 14 o brosiectau. Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fel Cydbwyllgor yn ystod mis Chwefror 2019.

Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi arwain ar ddatblygu achos busnes amlinellol ar gyfer cynllun safle Atomfa Trawsfynydd, ynghyd a chyfrannu at gynlluniau eraill gan gynnwys y prosiect Cysylltedd Digidol a'r rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cadw'r Budd yn Lleol

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Rydym yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn gan geisio cynyddu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn gaffael y Cyngor gan eu cefnogi i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r canran o wariant lleol y Cyngor, wrth ddefnyddio ffigurau cyfalaf a referniw, yn gyson â 2017/18 sef 62%. Mae'r canran o wariant gyda chwmnïau lleol, wrth ddefnyddio ffigurau referniw yn unig, ar y llaw arall wedi codi 4% i 59%, sef cyfanswm o £62m.

Rydym fel Cyngor wedi canolbwyntio ar gynorthwyo cwmnïau lleol i fod yn ymwybodol o gyfleoedd sy'n bodoli i ymgeisio am gytundebau gyda'r Cyngor, i gynnig hyfforddiant iddynt ar sut i gyflwyno tendr ac i'w cynorthwyo i fedru ymgeisio am unrhyw achrediadau proffesiynol all fod eu hangen arnynt i ymgeisio am waith (ee. iechyd a diogelwch). Buom yn cefnogi'r farchnad yn y meysydd canlynol dros y flwyddyn:

- Gofal oedolion
- Trafnidiaeth
- Cynnal a chadw
- Hurio offer
- Dillad diogelwch
- Nwyddau glanhau

Rydym yn disgwyl i weld os fydd y gefnogaeth a roddwyd yn arwain at gynnydd yn nifer y cwmnïau lleol i Wynedd fydd yn sicrhau cytundebau gwaith gyda'r Cyngor i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Creu Swyddi Gwerth Uchel

(Cyflog £26,500 neu fwy)

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol gan hyrwyddo'r sir a denu buddsoddiad ychwanegol a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd. Byddwn yn lobbio a hwyluso gan greu'r amodau i ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa

Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin / Parc Menai. Mae gwaith da eisoes wedi cychwyn i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr, ond mae angen cynnal y momentwm yma.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Crëwyd 57 o swyddi gwerth uchel yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â diogelu 29 o swyddi gwerth uchel yn sgil y gwaith cefnogi dwys sy'n cael ei wneud i ddenu buddsoddwyr a busnesau i'r ardal.

Cadarnhawyd £7.5Miliwn o gyfraniad arian Ewrop tuag at y gwaith o ddatblygu safle Llanbedr fydd yn cynnwys gwella cyfleusterau'r safle a chreu gofod ar gyfer busnesau awyrofod ynghyd a chreu mynedfa newydd.

Lansiwyd Bargaen y Sector Niwclear Llywodraeth y DU yn swyddogol yn Nhrawsfynydd yn ystod mis Medi 2018, gan nodi fod y safle yn ddelfrydol ar gyfer datblygiad Adweithyddion Bach.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Arloesi Gwynedd Wledig

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd â chefnogi buddsoddiad yn isadeiledd ddigidol ein cymunedau gweledig gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Byddwn hefyd yn dylanwadu a lobio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio ac ystod o ddatblygiadau cyffrous er mwyn targedu cymunedau gwledig. Yn ystod 2018/19 cafodd 18 o ddatblygiadau arloesol cyffrous eu treialu, gydag enghreifftiau megis:

- Lansiwyd Maes Chwarae Digidol yng Nglynllifon, sy'n cynnig cyfleoedd i arbrofi gyda Rhyngrwyd Pethe i ymateb i heriau ardaloedd gwledig.
- Ysgol Dronau oedd yn rhoi cyfle i 25 o bobl ifanc fynychu 6 penwythnos o weithgareddau i ddysgu hedfan drôn yn Ganolfan Awyrofod Llanbedr.
- Cynllun Cysawd Eryri oedd yn brosiect bu ysgolion lleol yn rhan ohono i ail-greu Cysawd yr Haul o fewn ffiniau Gwynedd.
- Cynllun trafndiaeth gymunedol i ymwelwyr yn Harlech.

Mae rhai o'r cynlluniau sy'n cael eu treialu yn cael ei datblygu'n bellach, yn ystod 2018/19 fe wnaethom sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi 10 o drefi a phentrefi gwledig y sir i ddatblygu gwasanaeth WiFi i'r cyhoedd.

Cafodd rhaglen Arfor ei chymeradwyo gan sicrhau £523k i Wynedd er mwyn creu gwaith i gefnogi'r iaith Gymraeg.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir a arweiniodd at fuddsoddiad o £6.7m yn 2016/17. Rydym yn awyddus i barhau gyda hyn a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleodd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r siir, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cafodd pecyn cefnogaeth ei hyrwyddo ar gyfer tymor 2018/19. Cefnogwyd 23 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Zip World Rocs, Gŵyl Rhif 6, a chroesawu cymal olaf Ras beicio merched Tour of Britain i Ddolgellau sef tro cyntaf i'r digwyddiad ddod i Gymru. Llwyddwyd i uchafu budd economaidd y Sir o £5.7miliwn yn ystod y flwyddyn. Cafodd 2,776 o bobl ifanc y cyfle unai i gymryd rhan, gwirfoddoli neu fynychu digwyddiadau.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Safle Treftadaeth y Byd

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i wireddu rhaglen o weithgareddau adfywion yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwedd a golwg

cymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid, ynghyd â pharhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym wedi parhau i weithio ar gael dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer yr ardaloedd llechi, cyhoeddwyd mai enwebiad Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru fydd yn cael ei gyflwyno nesaf i Bwyllgor Treftadaeth y Byd gan Lywodraeth Prydain.

Rydym wedi llwyddo i ddenu bron i £1m o fuddsoddiad grant a benthyciadau i'r ardaloedd llechi er mwyn gwireddu gweithgareddau ymgysylltu ac adfywio. Mae Cydlynedd Llechi Cymru wedi ei benodi er mwyn arwain ar y gwaith.

Yn ystod y flwyddyn mae gwaith comisiynu wedi ei wneud, gan gynnwys comisiwn i greu Cynlluniau Cynefin yn ardaloedd llechi, bydd y cynlluniau yma yn llywio blaenoriaethau'r cymunedau dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Elwa ar Dwristiaeth

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r prosiect yma yn parhau yn y dyddiau cynnar, yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gweithdy gyda'r sector efo'r bwriad i ganfod barn a chyfrannu tuag at osod sail i gynllun busnes y Cynllun Elwa o Dwristiaeth. Sefydlwyd y Bwrdd prosiect sydd wedi cefnogi gyda'r gwaith cychwynnol. Comisiynwyd arbenigwyr i wneud gwaith pellach i adnabod modelau posibl ar gyfer gweithredu, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd prosiect yn fuan yn 2019/20.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

Blaenoriaeth Gwella 1



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn adolygu sut mae'r gwasanaethau yma yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'w amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Prosiect newydd yw hwn, ac felly mae'n parhau i fod yn y dyddiau cynnar. Yn ystod 2018/19 mae gwaith sgopio a thrafodaethau trawsadrannol wedi cynnal mewn perthynas â mabwysiadu rhaglen "Gwell Busnes i Bawb". Cafodd briff a chynllun prosiect ei gwblhau er mwyn llywio'r gwaith i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.



Blaenoriaeth Gwella

2



Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial drwy sicrhau fod gennym gyfundrefn addysg gynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd datblygu perthnasol i bawb waeth beth yw eu cefndir neu ymhél y maent yn byw.

Trawsnewid y Gyfundrefn Ysgolion

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym wedi ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol a byddwn yn sefydlu cynllun i wreiddio'r egwyddorion hynny er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg hyfyw fydd yn sicrhau fod pob plentyn yn y sir yn cael cyfle teg i ddatblygu ei botensial.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn dilyn pryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion presennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw;
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd;
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Mae'r egwyddorion yn ystyried y modelau cynaliadwy ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd â'r modelau arweinyddiaeth ar gyfer ein hysgolion. Mae'r egwyddorion yn cael ystyriaeth wrth wireddu prosiectau Band A a Band B Ysgolion G21 a rhain bellach fydd egwyddorion sylfaenol y byddwn yn eu hystyried wrth ymateb i unrhyw gyfleoedd i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Cryfhau Arweinyddiaeth

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau i annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion, gan ymrwmo i raglenni datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r rhaglenni hyn.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Awdurdod wedi cynllunio, mewn cydweithrediad gyda GwE, i roi trefniadau hyfforddi perthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion.

Amcanion Llesiant –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Dalgylch Bangor

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor gan edrych i roi cynllun newydd ar waith a fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn dilyn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7miliwn er mwyn adeiladu ysgol newydd yn y dalgylch a chynyddu capasiti Ysgol y Faenol. Cychwynnodd y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd, gan dorri'r dywarchen gyntaf mewn seremoni efo plant y tair ysgol sy'n uno ar 7fed o Fawrth 2019.

Amcanion Llesiant –

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

Dalgylch y Berwyn

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu Campws Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-19 oed ar safle Ysgol y Berwyn, Y Bala, a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol, erbyn mis Medi 2019. Golyga hyn gwblhau'r broses o sefydlu'r corff llywodraethol, cwblhau'r gwaith adeiladu a chynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer agor y Campws Dysgu newydd.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Gyda'r gwaith adeiladu wedi dirwyn i ben, mae'r Ysgol bellach wedi ei henwi fel Ysgol Godre'r Berwyn. Mae'r Pennaeth wedi cychwyn yn ei swydd yn ystod mis Ionawr, ac mae gwaith yn parhau i benodi i'r strwythur. Mae gwaith ar yr elfennau cymunedol yn symud ymlaen yn dda gyda chriw lleol yn prysur drefnu defnydd y gofod cymdeithasol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth, darpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac Ysgolion Arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein Hysgolion Arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cwblhawyd y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad sydd yn galluogi cyfeiriad strategol mwy effeithiol gyda chyswllt gwell rhwng y ddau faes.

Lansiwyd gwefan newydd ar gyfer y Gwasanaeth ADYaCh ar y 5ed o Dachwedd 2018 www.adyach.cymru

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Blaenoriaeth Gwella 3



Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurddod a diweithdra.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn ystod 2018/19 mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn £300k o gyllid gan Lywodraeth Cymru, lansiwyd y pecyn o brosiectau cyflogaeth fel "Gwaith Gwynedd". Mae'r pecyn yn cynnwys 5 o brosiectau sydd yn cydweithio er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i waith. I ddyddiad mae cynlluniau ADTRAC, OPUS, Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith

a Mwy wedi cefnogi bron i 350 o unigolion, gan gefnogi bron i 60 i waith ac 80 i ennill cymhwyster. Mae TRAC wedi cefnogi dros 600 o blant i leihau'r risg o fod yn NEET.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn ailedrych ar ein trefniadau presennol yn y maes yma er mwyn gwneud mwy o'r hyn sy'n gweithio i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysáu yn hanfodol er mwyn helpu plant a theuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Byddwn yn sicrhau gweledigaeth glir gyda phartneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'n cymunedau a'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd angen ein cymorth.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r rhaglen waith ar yr agenda wedi symud yn ei flaen yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi diweddarau asesiadau anghenion a'u dadansoddi i lefelau lleol ar gyfer asesiad poblogaeth Gwynedd. Mae gwaith pellach wedi digwydd i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi Teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma wedi arwain at wella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac i'r dyfodol bydd yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd gyda'n partneriaid.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cefnogi Teulu a chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau ataliol wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu ar ein cyfeiriad. Fel Cyngor rydym awyddus i edrych yn ehangach ar y maes ataliol a'r gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu ar draws ein holl wasanaethau i drigolion y Sir i fynd i'r afael a rhai o'r rhwystrau maent yn ei wynebu.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael a chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis anawsterau rhiant a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau, alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol. Mae'n fwriad gennym i sefydlu 'Bwrdd Cefnogi Pobl' er mwyn dod a'r holl elfennau uchod at ei gilydd gyda'r bwriad o gefnogi pobl yn well.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Cydymdrechu yn erbyn Tlodi

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau gyda gwaith i helpu trigolion i fagu sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion, i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein a gweithredu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleoedd gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Byddwn hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl i ymdopi efo newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd gyda'r newidiadau i'w budd-daliadau, sefydlwyd Grŵp Diwygio Lles Gwynedd ar y cyd gyda phartneriaid. Yn ystod y flwyddyn mae'r Grŵp wedi datblygu ac arwain ar Gynllun Gweithredu, ac wedi lansio ymgyrch marchnata "Mae eich budd-daliadau yn newid" ar y cyd ledled Gwynedd. Rydym wedi parhau i gydlynu a chynnal digwyddiadau Call efo'r Geiniog ar draws Gwynedd ar y cyd gyda'r Canolfannau Byd Gwaith gan gynnig mynediad at wybodaeth a chymorth i drigolion Gwynedd.

Mae'r prosiect Gwynedd Ddigidol wedi parhau i gynnig sesiynau Galw Draw Digidol ar draws y Sir, ac i ddyddiad mae 3,000 o drigolion wedi eu cefnogi i fagu sgiliau digidol.

I'r dyfodol bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori o fewn rhaglen waith y Bwrdd Cefnogi Pobl y cyfeirir tuag ato uchod.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Rhiant Corfforaethol

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Fel rhieni corfforaethol byddwn yn anelu i wella'r cyfleoedd ar gyfer ein plant ym mhob agwedd ar eu bywydau. Drwy wrando a chanfod barn y plant sy'n ein gofal byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gennym yn cwrdd â'u hanghenion gan weithredu i gau unrhyw fylchau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd yn gadael ein gofal yn cael eu

paratoi a'u harfogi ar gyfer bywyd fel oedolyn gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wireddu eu potensial.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae cryn waith wedi digwydd yn ystod y cyfnod i geisio adnabod lle mae angen i ni wella ac i adnabod ymarfer da drwy'r grwpiau tasg sydd eisoes wedi eu sefydlu. Rydym o'r farn bod y flaenoriaeth gwella yma wedi ei gwblhau erbyn hyn. Mae'r Panel wedi adnabod meysydd sydd angen derbyn sylw a rhaglen waith mewn lle i gyfarch hyn ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad yr Arolygaeth Gofal Cymru gan ddisgrifio'r Panel Rhiant Corfforaethol yn 'uchelgeisiol ar gyfer y plant mewn Gofal'.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion / Merched Mewn Arweinyddiaeth

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod bwlch cyflog yn bodoli rhwng dynion a merched.

Byddwn yn ymchwilio i sut mae modd lleihau'r bwlch cyflog hwn gyda golwg ar hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Ar ddiwedd Mawrth 2018 roedd 71% o holl weithlu'r Cyngor yn ferched, ac o'r canran hwnnw roedd 63% yn gweithio'n rhan-amser, a nifer mewn swyddi sy'n talu lefelau is o gyflog megis swyddi gofal neu lanhau. O ganlyniad, mae'r cyflogau y mae merched yn ei dderbyn, fel carfan gyfan, yn 9.9% yn is na'r garfan gyfan o ddynion sy'n gweithio i'r Cyngor.

Petai'r sefyllfa bresennol yn parhau, ni fyddai penodi merched i bob swydd uwch-reolaethol o fewn y Cyngor yn sicrhau lleihad arwyddocaol yn y bwlch cyflog. Daeth yn amlwg felly bod angen newid trywydd y prosiect, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar ddileu unrhyw elfen o'r amodau ac amgylchedd gwaith yn y Cyngor sy'n rhwystr i alluogi merched i ymgeisio am swyddi arweiniol a rheolaethol i'r dyfodol. Gyda 50% yn llai o ferched na dynion yn credu y gallant ymgeisio am swyddi arweiniol neu reolaethol, mae ffocws y prosiect hwn bellach ar 'Ferched mewn Arweinyddiaeth'.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Blaenoriaeth Gwella

4



Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.

Tai Addas a Fforddiadwy

Blaenoriaeth Gwella 4



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Pwrpas y prosiect **Tai Addas a Fforddiadwy** yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau, fel y gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud gwahaniaeth.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Adran Tai wedi bod yn gweithio ar asesu anghenion Tai yng Ngwynedd ac wedi ymgynghori ar y canfyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith o gwblhau'r Asesiad Anghenion Tai yn sylfaen gref i'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd (2019-2024) sydd wedi cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ac sydd ar fin cael ei chyflwyno i'r Cabinet. Mae'r Strategaeth yn gosod uchelgais clir ar gyfer y maes Tai yn ei gyfanrwydd gyda Chartrefi fforddiadwy ac addas yn gyrru ein cynlluniau i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai

Blaenoriaeth Gwella 4



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw gwella mynediad trigolion at gymorth sydd yn ymwneud ag anghenion tai gan adnabod mentrau a chynlluniau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Byddwn hefyd yn dod i benderfyniad ar y ffordd orau i hyrwyddo'r cynlluniau a'r mentrau yma ac ynghylch yr angen i ddatblygu cefnogaeth benodol bellach.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r gwaith o asesu anghenion Tai pobl Gwynedd ynghyd a llunio strategaeth Cartrefi Pobl Gwynedd wedi gwella ein dealltwriaeth o'r heriau sydd yn wynebu pobl o fewn y maes Tai. Mae mynd i'r afael o'r heriau sydd yn wynebu pobl wrth i geisio canfod cartref addas yn ganolog i'r Strategaeth Cartrefi Pobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Blaenoriaeth Gwella

5



Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosib i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Byddwn yn edrych i wella'r sefyllfa trwy gydweithio efo sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd er mwyn galluogi ac annog trigolion y sir i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu efo'r sefydliadau hynny a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r prif gyrrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth yng Ngwynedd yn aelodau o [Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn](#). Rydym felly wedi cydweithio â'n cyd-aelodau o'r Bwrdd i weld sut allwn ni rannu arfer da a helpu ein gilydd i weithredu Safonau Iaith Comisiynydd y Gymraeg er budd ein trigolion. Er bod nifer o enghreifftiau o gynnal gwasanaethau Cymraeg safonol, yn anffodus nid ydym yn credu bod y gwaith ar y mater pwysig hwn wedi symud yn ei flaen yn ddigon cyflym dros y flwyddyn.

Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae gan fusnesau Gwynedd rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, a'n bwriad fydd annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaeth. Bydd angen i ni ystyried sut y mae modd i'r Cyngor hyrwyddo hyn, a pha weithgareddau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol yn y maes.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Cyngor yn dod i gysylltiad â busnesau'r sir drwy sawl llwybr - ein gwaith yn cefnogi busnesau lleol er mwyn gwella'r economi leol, ein prosesau cynllunio a'n prosesau caffael (prynu nwyddau neu wasanaethau). Bu hi'n flwyddyn felly o weld sut fedrwn ni ddylanwadau a helpu busnesau i gynnig gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog i'w cwsmeriaid. Bellach mae amodau wedi eu gosod mewn cytundebau ar gyfer y gronfa benthyciadau busnes, ac rydym wedi cydweithio â'r prosiect Cymraeg Byd Busnes sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynyddu defnydd busnesau o'r Gymraeg. Yn yr un modd rydym hefyd wedi dechrau cydweithio â siroedd eraill gorllewin Cymru drwy'r prosiect Arfor, i gefnogi busnesau er mwyn datblygu'r gwasanaeth Cymraeg.

Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn gyson ar draws ein gwasanaethau.

Fe fyddwn yn parhau i gydweithio gydag adrannau i edrych ar y modd y maent yn ateb gofyn y cyhoedd am wasanaeth Cymraeg, i ystyried eu llwyddiant i normaleiddio'r Gymraeg a'r ffyrdd y gallent fod yn hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu defnyddwyr.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Wedi canolbwyntio ar weithio hefo gwasanaethau rheng flaen, gan gwblhau gwaith mewn 9 Gwasanaeth, a'r gwaith yn parhau mewn 7 arall. Aseswyd sgiliau Cymraeg staff yn y swyddi rheng flaen i weld oedd bylchau mewn sgiliau ac oedd angen cefnogaeth bellach gan gynnig

y gefnogaeth neu hyfforddiant ble roedd angen. Hyn i gyd er mwyn cynnal neu wella'r gwasanaeth Cymraeg i drigolion.

Mae cynnal hyfforddiant iaith a mentora un i un wedi arwain at unigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gyda'r cyhoedd ble nad oeddynt ynghynt. Mae defnyddio technoleg- ee. grwpiau Facebook, Whatsapp ayyb yn helaeth er mwyn rhannu syniadau ac ymarfer y Gymraeg wedi helpu staff. Mae preswylwyr mewn cartref gofal hefyd yn helpu staff y cartref i ymarfer eu Cymraeg.

'Roedd 86% o staff a holwyd yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi cael 'llawer' o effaith arnynt yn y gweithle, gyda 79% o staff a holwyd yn credu i'r derbynnydd gwasanaeth elwa o'r ffaith i'r staff dderbyn hyfforddiant.

Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

Strategaeth/Siarter Iaith Uwchradd

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau i gyflogi Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion uwchradd. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch. Bydd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn datblygu rhaglen o weithgareddau anffurfiol a chyffrous ar gyfer eu cyfoedion, er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleodd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cafodd yr holl ysgolion uwchradd gefnogaeth i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld a'u cynlluniau Gweithredu unigol. Hefyd cafodd pob ysgol uwchradd gefnogaeth i weithredu'r gwe iaith gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod tymor yr Hydref.

Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)
- [Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.](#)



Blaenoriaeth Gwella

6



Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Gwydnwch Cymunedol

Blaenoriaeth Gwella 6



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi eu hanelu at gefnogi trigolion, gan gysylltu pobl â chefnogaeth o fewn eu cymunedau gan ganolbwyntio ar 5 ardal yn ystod y flwyddyn gyntaf a'u gwneud yn Dementia Gyfeillgar. Rhan allweddol o wydnwch cymunedol yw sut maen gwahanol genedlaethau yn cyd-fyw a chymdeithasu a byddwn yn adeiladu r y gwaith y tu ôl i'r rhaglen 'Hen Blant Bach' a fu'n gyfle i edrych ar sut y byddai dod â phlant oed meithrin a phobl hŷn at ei gilydd.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Un o ofynion y Ddeddf* yw sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. I'r perwyl hyn rydym wedi ymgorffori hyn o fewn y 5 tîm cymunedol. Mae hyn yn golygu trefniadau syml i drigolion Gwynedd, gan hefyd sicrhau bod unigolion yn parhau i gadw rheolaeth wrth ganfod gwybodaeth ar hyn y maent eu hangen.

Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi ei sefydlu ac wedi lleoli unigolion a noddir gan asiantaeth 3ydd sector oddi mewn i 3 o'r TAC. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny ynghyd ac adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol.

Yn dilyn 2 cyfres lwyddiannus (6 wythnos yr un) o Bontio'r Cenedlaethau ym Mangor a Nefyn, mae'r Uned Llesiant wedi mynd ati i drefnu gweithgareddau rhwng tenantiaid Tai Gwarchod yn y Bermo a phlant Ysgol y Traeth. Mae'r Uned Llesiant yn ogystal yn gweithio gyda Phennaeth Safle Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar wneud cyswllt rhwng eu myfyrwyr a phobl hŷn, a rhagwelir y gall hyn gefnogi recriwtio mwy o bobl ifanc i'r maes gofal cymdeithasol.

Mae'r "Cynllun Dementia Go" yn mynd o nerth i nerth ac maent bellach yn cynnal 14 dosbarth ar draws y Sir. Mae'r cynllun yn ogystal wedi ei ehangu a'i datblygu i gynnig profiadau i breswylwyr o fewn ein cartrefi gofal. Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi gweithlu mewn 11 cartref preswyl y Sir. Bydd y cynllun yn sicrhau fod preswylwyr yn cael

y cyfle i fod mor actif â phosibl gan leihau'r risg o godymu, lleihau iselder a chynyddu ansawdd bywyd.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal

Blaenoriaeth Gwella 6



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn gan sefydlu 5 tîm lleol ar y cyd gyda'n partneriaid fydd yn sicrhau gwasanaethau effeithiol gyda'r ffocws ar yr unigolion, a sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Fel rhan o'n gwaith gyda'n darparwyr gwasanaethau gofal byddwn yn arbrofi efo ffyrdd newydd o gomisiynu pecynnau gofal cartref a hefyd yn buddsoddi yn ein cartrefi gofal er mwyn gwella ein darpariaeth gofal mwy dwys. Yn ogystal, fe fyddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaeth anabledd dysgu.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae 5 Tîm Lleol (TAC) wedi eu lleoli yn ardaloedd Llyn, Caernarfon, Bangor, Eifionydd/Gogledd Meirionydd a De Meirionydd. Timau amlddisgyblaethol integredig o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yw'r rhain. Mae'r newid hwn yn golygu fod y bobl sydd angen gwasanaeth, ynghyd a'u teuluoedd yn gallu cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol. Mae ardaloedd llai, hefyd yn golygu bod hi'n haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn cymunedau lleol, fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar wella llif cleifion drwy'r system gofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio dileu'r rhwystrau sydd yn codi. Mae'r gwaith yma hefyd yn cadw at yr egwyddor o wneud beth sydd yn bwysig i'r unigolyn ac wedi ei seilio ar yr un egwyddorion a'r gwaith timau integredig. Mae arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd wedi ceisio canfod dulliau i wella'r system trosglwyddo cleifion, er yn ddyddiau cynnar, mae gwaith dechreuol yn dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn.

Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau i ddatblygu'r unedau arbenigol yn Llys Cadfan yn Nhywyn; Plas Hafan yn Nefyn a Phlas Hedd ym Mangor diolch i gyllid drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, mae disgwyl y bydd yr uned yng Nghartref Bryn Blodau y Cyngor yn Llan Ffestiniog yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2019.

Bu i denantiaid cyntaf Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest ym Mhorthmadog symud i mewn yn ystod Ionawr. Mae Hafod y Gest yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin a datblygwyd y cynllun gan 'Anwyl Construction'. Mae wedi'i leoli yng nghanol tref a chymuned Porthmadog ac wedi ei leoli'n agos at siopau a chyfleusterau'r dref. Mae ymateb preswylwyr i'r datblygiad wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r Cyngor wedi manteisio ar gyllid o Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru i greu model newydd ar ddarparu gwasanaeth sydd yn elwa oedolion gydag anabledau dysgu wedi'i leoli yng Nghaernarfon. Mae'r arian wedi ei ddefnyddio i adnewyddu ardal caffi ynghyd ag uwchraddio'r ystafell gymuned. Mae'r caffi yn darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion sy'n adnabyddus i'r Tîm Anabled Dysgu yn yr ardal er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol pwysig ynghyd a darparu gwasanaeth newydd i' gymuned ehangach.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

Blaenoriaeth Gwella 6



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cyn medru sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem mae angen i ni sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem a byddwn yn cynnal ymchwiliad i'r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, y pwysau ar ein gweithlu ac i'r Cyngor, ac yn edrych i weithredu ar yr atebion ddaw i'r amlwg. Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy adolygu llwybrau gyrfaol presennol, fel bod gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa cadarnhaol, a byddwn yn hyrwyddo'r maes gofal fel gyrfa drwy ledaenu gwybodaeth briodol i sefydliadau lleol. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynllun Prentisiaethau o fewn y Cyngor i geisio dylanwadau ar y nifer o brentisiaethau o fewn y maes gofal.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae llawer wedi digwydd o fewn y prosiect gydag amryw o gynlluniau yn ceisio mynd i'r afael o wahanol agweddau i geisio deall y broblem yn well. Mae'r Prosiect Gofal Cartref ym Methesda yn ceisio mynd i'r afael o'r broblem o fewn y maes gofal cartref ac wedi arwain ar newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn darparu gofal cartref yng Ngwynedd. Mae projectau tebyg yn digwydd yn ardal Tywyn hefyd.

Mae darn o waith hefyd wedi ei gomisiynu i wella ein dealltwriaeth ac adnabod prif negeseuon o ran y maes pobl hŷn a bu i sesiwn ei drefnu ym mis Medi i wella dealltwriaeth aelodau o'r her recriwtio sy'n bodoli yn ogystal â cheisio canfod eu sylwadau a barn ar gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Timau Ardal yn ogystal yn cynnal ymarferiad ar y cyd gyda'n partneriaid i gasglu gwybodaeth am achosion mewn un ardal benodol. Bydd y tîm yn craffu achosion yn fanwl

er mwyn dod i ddeall yn well beth yw'r angen o fewn un ardal fechan. Bydd posib yna dod i gasgliad am ddatrysiadau posib.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Blaenoriaeth Gwella

7



Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

Blaenoriaeth Gwella 7



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ni fydd sicrhau diwylliant cyson yn digwydd ar ei ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau dwys gyda nifer o wasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'w gwaith. Yn ogystal bydd y rhaglen i hyfforddi Rheolwyr Gwasanaeth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) yn parhau a bydd cefnogaeth ar gael iddynt gynnal eu hadolygiadau eu hunain.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Fel y nodwyd wrth ddisgrifio'r prosiect 'Datblygu Arweinyddiaeth', mae swyddogion y fewn y Cyngor sy'n rheolwyr wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar sut i roi Ffordd Gwynedd ar waith. Maent wedyn wedi symud ymlaen i gynnal adolygiadau eu hunain ar sut mae eu gwasanaethau yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith o gynnal adolygiadau gwasanaeth dwys gyda chefnogaeth swyddogion arbenigol yn parhau ac mae dulliau o weithio wedi newid dros y flwyddyn yn sgil y gefnogaeth hon. Mae timau o weithwyr priffyrdd, er enghraifft, yn defnyddio teclynnau electronig symudol i gofnodi a threfnu gwaith trwsio ffyrdd sydd wedi lleihau'r amser y mae'r holl broses yn ei chymryd.

Gwireddu Arbedion



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygymod efo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Dros yr 8 mlynedd ddiwethaf rydym wedi gorfod tynnu dros £48m allan o gyllideb y Cyngor.

Byddwn felly n parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer darganfod arbedion y dyfodol. Yn ystod 2018/19 byddwn yn datblygu dewisiadau arbedion ar gyfer 2019/20 ymlaen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Yn naturiol, byddwn yn ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dewisiadau hynny.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Wedi cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus i weld beth oedd blaenoriaethau Pobl Gwynedd, yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau arbedion arfaethedig er mwyn cynorthwyo'r Cyngorwyr wrth wneud penderfyniad. Mabwysiadodd y Cyngor cyllideb ar 7/3/19 oedd yn gorfod ymgorffori £5.2m o arbedion. Roedd hyn ar ben y £48m yr oeddem eisoes wedi gorfod ei dynnu allan o gyllidebau'r Cyngor.

O ran gwireddu'r arbedion hynny mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18 wedi eu gwireddu, gydag elfen o bryder am gynlluniau codi incwm o fewn yr Adran Addysg lle nad yw'r incwm a ragwelwyd yn amlygu ei hun. Bydd yr Adran yn edrych am ddulliau i wneud yn iawn am y bwlch. O ran arbedion 2018/19 mae 73% o'r arbedion wedi eu gwireddu, gyda 7 cynllun allan o'r cyfanswm o 28 yn llithro. Fodd bynnag disgwylir i'r rhan fwyaf o'r rhain gael eu cyflawni maes o law, gyda phryder am un cynllun yn unig o fewn maes Plant lle gwelwyd cynllun oedd i fod i ddarganfod arbedion drwy adolygu sut yr oeddem yn cyflawni anghenion plant mewn gofal yn cael ei gyflawni ond ddim yn cynhyrchu cymaint o arbedion a ddisgwyliwyd. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod i weld beth arall sydd yn bosibl i'w wneud.



Adran Addysg



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mae canlyniadau Cyfnod Sylfaen (7 oed) eleni yn dangos gostyngiad cenedlaethol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a'r prif reswm am hyn yw'r defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg wrth asesu. Mae'r gostyngiad cenedlaethol yma yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Gwynedd. O ganlyniad dylai cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol. Roedd 81.7% o'r dysgwyr a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS), sy'n gyson gyda 82.6% yn genedlaethol.

Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS))



Mae cyrhaeddiad addysgol ein plant a phobl ifanc yng nghanlyniadau Haf 2018, yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 oed) a Chyfnod

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod Allweddol 2 (11 oed)



Allweddol 3 (14 oed) yn parhau'n gadarn dda. Roedd perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn y lefelau uwch yn gadarnhaol iawn, gyda 91.2% o'r dysgwyr yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC), sef Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol o 89.5%.

Roedd perfformiad dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn 92.8% sydd yn gadarn ac wedi aros yn gyson, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 88.1%. Er hynny, bu gostyngiad yn y canran o ddysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) a enillodd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod Allweddol 3 (14 oed)



Haf 2014	Haf 2015	Haf 2016	Haf 2017	Haf 2018
89.11%	91.3%	92.0%	92.8%	92.8%

Erbyn cyrraedd Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed - TGAU) gwelwyd gostyngiad ym mhob un o'r prif ddangosyddion o gymharu â llynedd, gyda 15 o bynciau wedi eu diweddarau ac wedi eu sefyll am y tro cyntaf eleni, ynghyd â newidiadau sylweddol i ffiniau graddau, yn arbennig gradd C mewn Saesneg a Mathemateg. Cafodd hynny effaith sylweddol ar ganlyniadau Saesneg, er hynny roedd perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel. Bydd ein ysgolion yn targedu ymyriadau perthnasol er mwyn ceisio gwella perfformiad Saesneg a Mathemateg CA4.

Roedd 43.8% o'r dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn 2018 wedi ennill 5 gradd TGAU A*-C, gan gynnwys Cymraeg


(iaith) neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Fathemateg (rhifedd) (TL2+).

Gwelwyd cynnydd mewn perfformiad 2 o'r 3 prif ddangosydd yng Nghyfnod Allweddol 5 (Lefel A), gyda 60.4% o ddysgwyr yn ennill 3 o raddau A*-C, ac yn rhagori ar berfformiad Cymru oedd yn 58.1%

Mae Estyn yn parhau i arolygu ein hysgolion, ac mae'r proffil arolygiadau ar draws y sectorau yng Ngwynedd yn rhagorol. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2017-18, bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 19 ysgol yng Ngwynedd, dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol mewn 16 o'r ysgolion arolygwyd, ac yn y 3 ysgol arall dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys.

Defnyddir proses a matrices cenedlaethol ar gyfer categorio ysgolion. Mae lliw'r categorio yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol - gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch (yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys). Ym mlwyddyn academiaidd 2017-18 roedd 91% o'n hysgolion yn y categorïau gwyrdd neu felyn, sydd yn gynydd o 24% ers 2014-15.


Canran presenoldeb ysgolion cynradd yn y flwyddyn academiaidd:



Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Roedd presenoldeb dysgwyr yn ysgolion cynradd ac uwchradd

Gwynedd yn ystod 2018/19 yn 94.8% sydd yn parhau yn gyson dda.

Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academiaidd:



Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Gonsortium Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn, sy'n gosod cyfeiriad i ddarpariaeth ôl-16 yr ardal. Yn ystod 2018-19 mynychodd 846 o ddysgwyr un o gyrsiau partneriaeth 14-16 yng Ngwynedd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbynn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae perfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ar gyfer y flwyddyn a fu yn gadarnhaol ac mae llawer iawn wedi ei gyflawni. Mae gennym lawer iawn i fod yn falch ohono yng Ngwynedd ac mae hynny i raddau yn adlewyrchiad o'r berthynas dda sydd gennym gyda'n partner allweddol o fewn y maes, sef y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi amlinellu ers sawl blwyddyn bellach ein bod ar siwrnai o drawsffurfio, ac mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cymru Iachach' ym mis Mai 2018, a bod y ddogfen hon yn ymateb i Adolygiad Seneddol Ionawr 2018. Mae'r cyfeiriad sydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru yn gyson gyda'r cyfeiriad rydym wedi ei chytuno arni fel Sir a bod ein gwaith trawsffurfio lleol yn gyson gyda'r hyn sydd yn cael ei amlygu fel yr ymarfer gorau.

Mae 5 Tîm Lleol wedi eu sefydlu o fewn y maes pobl hŷn ac mae pawb oddi fewn i'r tîm yn rhannu'r un egwyddorion, gan gynnig person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae'r newid hwn o ran dull o weithio wedi golygu bod staff

yn naturiol fynd ar ôl "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y prif beth sydd yn eu gyrru eu penderfyniadau. Mae'r ffordd yma o weithio yn profi'n llwyddiannus iawn. Mae hwn yn newid enfawr, ac yn seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae'n glir mai dyma'r ffordd ymlaen o ran cael y canlyniadau gorau i




bobl Gwynedd.

Mae cydnabyddiaeth fod angen adolygu'r modd yr ydym yn adrodd ar fesur ein pwrpas. Mae'r ystadegau presennol yn nodi fod **100%** o'r bobl hŷn ac anableddau corff sydd wedi eu asesu yn gallu **cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt**.

Er mai nifer fechan o achosion sydd wedi adrodd arnynt hyd yma mae'n dangos

DTC Rhesymau Gofal Cymdeithasol Gwynedd Misol

Rheswm Dros Oeddiad ● Community care arrangements ● Community care assessment



Data wedi ei dynnu allan o [Stats Wales](#) - Mai 2019

arwyddion calonogol. Mae grŵp tasg wedi bod yn adolygu ac addasu'r ddogfennaeth asesu ac mae'r ddogfennaeth newydd yn cael eu treialu ar hyn o bryd. Bydd posib cael adroddiad mwy cywir o'r dogfennau newydd ynghyd â gwybodaeth fanwl ynghylch unrhyw angen nad yw'n cael ei ddiwallu. Bydd yr wybodaeth yma o gymorth i'r arweinwyr ddatblygu a gwella cefnogaeth yn y timau lleol ac yn bwydo i'r asesiad anghenion poblogaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau addas lleol.

Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiad pobl wrth drosglwyddo o'r ysbytai yn ôl i'r gymuned. Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw cryfhau ein timau cymunedol er mwyn gwella ein gallu i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned. Mae nifer yr unigolion sydd yn methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ond rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau o fewn y Sir.

Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC) a datblygu cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Bethesda wedi cyfrannu at y lleihad yn ogystal ag arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd. yn ceisio gwella'r system trosglwyddo cleifion, er yn ddyddiau cynnar, mae'n dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn. Byddwn yn eich diweddarau ar yr arbrawf yma i'r dyfodol.

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r maes Anableddau Dysgu gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol. Mae'r mesur perfformiad o fewn Tîm Anableddau Dysgu yn ddatblygol ei natur ond mae yn dangos perfformiad cadarnhaol gyda 97% yn adrodd ein bod wedi cyflawni yr hyn sydd yn bwysig. Bydd y Tîm yn edrych ac yn datblygu ar eu mesurau perfformiad i'r dyfodol er mwyn cael darlun mwy llawn.

Rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. Bwriad y gwasanaeth newydd yw rhoi gwybodaeth gywir ac amserol i bobl Gwynedd am yr adnoddau, chysylltiadau a rhwydweithiau sydd ar gael iddynt yn lleol.

Mae gwaith parhaus yn digwydd i ddiweddarau gwybodaeth i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r cyhoedd yn glir ac yn gyfredol ac



rydym hefyd wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda DEWIS Cymru i ddiweddarau'r wefan ac i hybu ei defnydd. Mae'r wefan yma yn rhoi gwybodaeth i drigolion a staff am yr ystod o wasanaethau/clybiau a gweithgareddau sy'n digwydd o fewn eu hardal.


O fewn y maes gofawyr, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru wedi llunio strategaeth sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofawyr o bob oedran. Mae'r strategaeth wedi arwain at ddatblygu a chyd gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwmo i'w cyflawni. Dros y misoedd nesaf byddwn yn mynd ati i ystyried y strategaeth a llunio cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn ymrwmo yn llawn i'r safonau ynghyd a datblygu mesurau ystyriol yn erbyn y cynnig.

Mae'r Adran Oedolion wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o holl faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae cynnydd

cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Mewn ymateb i'r cynnydd mewn cyfeiriadau Diogelu mae'r Uned wedi datblygu 'Hwb Diogelu', lle mae'r holl gyfeiriadau Diogelu Oedolion yn cael eu derbyn cyn cael eu dyrannu am ymyrraeth briodol. Mae 400 o ymholiadau Diogelu wedi eu gwneud o fewn cyfnod 12 mis gyda 363 ymholiad wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod (91%).

Mae ein mesurau diogelu oedolion yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2018/19.

o'r holl atgyfeiriadau
amddiffyn oedolion
sydd wedi eu
cwblhau yn ystod
y flwyddyn,
llwyddwyd i reoli'r
perygl 92% o'r amser



Mae sawl her yn wynebu Gwynedd yn y maes tai gan gynnwys poblogaeth sydd yn heneiddio a newid mewn budd daliadau, ond mae cyfleon hefyd yn bodoli. Ein bwriad yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau er mwyn blaenoriaethu ein hymdrechion i greu'r budd cymdeithasol mwyaf.

Mae'r Tîm Tai Gwag wedi gweld llwyddiant ysgubol i'w cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf'. Yn ystod 2018-19, mae'r Tîm wedi derbyn 115 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.5 miliwn o grant ar 85 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn gymorth i gartrefu bron i 200 o unigolion a theluoedd. Ers cychwyn y cynllun mae'r Tîm wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am flaendal

morgeisi sydd ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf cael mynediad i'r farchnad dai.

Mae nifer uchel o dai gwag ar draws y Sir ac mae'r Gwasanaeth Tai wedi gweithio i ddod a'r tai hyn yn ôl i ddefnydd i drigolion Gwynedd. Mae oddeutu 1300 o dai yn wag ar draws y Sir. Mae cynnydd positif wedi bod yn erbyn y **mesurydd PSR/004 'Canran o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol'**. Erbyn diwedd y cyfnod perfformiad yma mae 61 tŷ wedi dod yn ôl i ddefnydd gyda 141 o bobl Gwynedd wedi cael eu cartrefu.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd ond hefyd darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Bu cynnydd sylweddol yn y galw llynedd a darparwyd gwasanaeth ar gyfer 768 o unigolion. Mae perfformiad yr Uned ymhlith y gorau yng Nghymru ar y meysydd atal digartrefedd ac yn cefnogi y pwyslais sydd wedi ei roi ar atal.

Gydag arian grant gan Lywodraeth, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl yn gadael carchar. Mae un swyddog yn y tîm yn cymryd cyfrifoldeb am bobl sydd yn dod yn ôl i Wynedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar a cheisio adnabod a threfnu llety ar eu cyfer i osgoi digartrefedd wrth adael carchar. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion. Rydym wedi cefnogi 120 unigolion gyda 41% yn cael eu lletya. Diffyg eiddo un llofft

gyda chefnogaeth ar gyfer pobl sengl bregus sydd yn gadael carchar yw'r rhwystr mwyaf i'r grŵp yma o unigolion.

Mewn ymateb i'r diffyg eiddo un llofft, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth Trydedd Sector, Cais i adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl bregus yn Ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu sydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion yw galluogi i fyw yn annibynnol.

Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Tai Gogledd Cymru a drwy help grant Llywodraeth Cymru, mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog.

I'r perwyl hyn, mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cais am arian 'Rhaglen Tai Arloesol' Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian ar gyfer datblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, y bwriad bydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Bydd gwaith yn cychwyn yn fuan ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed reoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2018/19 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 2,286 o bobl i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Rydym wedi datblygu gwasanaeth galw heibio mewn 2 ardal sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl

ifanc cyn yr angen am lety neu gefnogaeth fwy arbenigol. Ers cychwyn y prosiectau yma yn 2016 rydym wedi cefnogi 449 o bobl ifanc.

Blaenoriaethau Lleol

Roedd pryder wedi ei nodi am y nifer uchel o dai aml-ddeiliadaeth (Houses in Multiple Occupation – HMOs) ym Mangor sy'n effeithio'n negyddol ar ymddangosiad y ddinas. Mae pryder hefyd fod y sefyllfa yn arwain at nifer uwch na'r cyffredin o dai gwag, gyda sgil effaith ar leihau'r farchnad dai i drigolion lleol.

Bydd y materion hyn yn derbyn sylw o fewn y Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024.

Awgrymwyd fod angen datblygu darpariaeth gofal pwrpasol yn ardal Dolgellau ac ym Mhen Llŷn a thrwy gydweithio ag eraill gallwn fesur yn union pa ddarpariaeth sydd ei hangen, a sut orau i'w chyllido. Bydd hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y Maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i hyn gael ei gadarnhau mewn Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Awst 2018. Bu i'r Arolygwyr nodi bod 'gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn'. Fe wnaethant hefyd adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach ac mae'r meysydd yma yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi eu hadnabod o fewn Cynllun y Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mor lleol ag sydd bosib, mae 3 Tîm Cefnogi Teulu Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael eu sefydlu yn ardaloedd Arfon, Meirion a Dwyfor; gyda Barnardos yn arwain ar y Tîm ym Meirionydd. Mae'r Timau yma yn cynnwys gweithwyr cefnogi teulu sydd yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i ddatblygu sgiliau rhiantu a chefnogaeth i bobl ifanc yn ogystal â chefnogaeth ymarferol. Mae Gweithiwr leuenctid ynghlwm â phob tîm er mwyn gallu canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl ifanc 11-25. Mae modd i deuluoedd yn ogystal gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym hefyd wedi comisiynu 'Y Bont' i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth wedi ei sefydlu hefyd gyda'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o wybodaeth am weithgareddau a sefydliadau o fewn cymunedau a all arwain at ddiwallu anghenion unigolion. Bydd y gwasanaeth yma yn datblygu fwy fwy i'r dyfodol ac mae bwriad i gael Cysylltwyr Cymunedol fel rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau yn rhan o'r gwasanaeth uchod erbyn hyn ac er y newid maent eto eleni wedi cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.



Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd bod ein Timau Gwaith Cymdeithasol yn sefydlog a phrofiadol gyda throsiant staff yn isel iawn. Mae 84% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg, sef y ganran uchaf yng Nghymru, gyda'r gweddill yn ddysgwyr brwd.

Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth proffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyraethau mwy

arbenigol fel yr hyn sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Trothwy Gofal. Daeth y Tîm yn weithredol yn 2015 ac mae wedi bod yn ddatblygiad cyffrous a phwysig wrth i ni drawsnewid profiad i blant a theuluoedd. Pwrpas y Tîm ydi gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin fynd i ofal. Mae'r Tîm Trothwy Gofal yn dangos perfformiad boddhaol gyda'r ymyraethau i weld yn cael effaith cadarnhaol ar fywydau plant a'u teuluoedd sydd yn derbyn Gwasanaeth.


Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Mae hi'n ofyn statudol arnom i sefydlu gwasanaeth IFSS yn ogystal (Integrated Family Support Service) sydd yn cynnig ymyrraeth dwys i deuluoedd sydd yn wynebu anawsterau camddefnyddio sylweddau a thrais yn y Cartref. Rydym wedi bod yn cynnig y gwasanaeth yma ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Yn dilyn gwerthusiad llawn o'r gwasanaeth, er mwyn gwella canlyniadau i'r teuluoedd ac osgoi dyblygu, rydym yn ystod y flwyddyn wedi ailstrwythuro. Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu o fewn ein timau gweithredol a'r Tîm Trothwy Gofal.

Diwedd Mawrth 2019 roedd 247 o blant yn ein gofal. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 185 i 247, sef cynnydd o bron i 27%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd un ai mewn lleoliadau preswyl neu leoliadau maeth wedi aros yn gyson neu leihau.

Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ymwneud a phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 12 i 64 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Plant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor



Mae phroffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r cost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bu i'r mater yn ddiweddar fod yn destun trafodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Plant y Gogledd, mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd rhanbarthol i redeg lleoliad preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr presennol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal.

**Yn ôl ein Swyddogion Adolygu
Annibynnol mae 94% o
adolygiadau yn
uchelgeisiol dros
y Plant sydd Mewn Gofal.**



Mae gwella profiad plant a theuluoedd sydd yn mynd drwy'r drefn Diogelu yn rhywbeth sydd yn derbyn sylw gan yr Adran, gyda llai o bwyslais yn cael ei rhoi ar yr amserlen sydd yn cael ei osod, ond yn hytrach ar ansawdd y cyswllt mae'r plant a pobl ifanc yn eu cael gyda ein swyddogion. Mae hyn yr rhywbeth sydd wedi cael ei amlygu gan yr arolygaeth yn ddiweddar ac mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn edrych ar y ffordd yn maent yn gweithio a sut gallwn wella a datblygu ymarfer.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her. Rydym wedi cynnal sawl ymgyrch recriwtio dros y 5 mlynedd diwethaf i ceisio annog mwy o bobl i fod yn rieni maeth. Ar lefel Cenedlaethol eto mae cydnabyddiaeth bod diffyg lleoliadau maethu. Bu i'r Grwp Cyngori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant yn cyhoeddi Fframwaith Gweithredu 2017 – 2020 sydd yn anelu i Lleihau'r niferoedd o blant mewn gofal, Gwella profiadau a chanlyniadau gofal, Gwell cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, Mynd i'r afael a'r argyfwng mewn gofal

Fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol mae rhaglen waith manwl mewn lle yn ceisio mynd i'r afael a'r mater. Mae rheolwr prosiect rhanbarthol yn arwain y gwaith yn y Gogledd o ddadansoddi anghenion awdurdodau lleol ,

dadansoddi llwybrau gofal, dadansoddi proffil y carfan gofal, dadansoddi canlyniadau llys a lleoliadau a dadansoddi lefelau tor-leoliad. Ar lefel lleol mae gwaith yn bwrw 'mlaen i wella gwaith marchnata i ddenu rhieni maeth, gwella recriwtio a gwella proffil Gwynedd fel asiant maethu. Fel rhieni corfforaethol mae angen i ni fod yn fyw i'r her yma a chefnogi y gwaith yma ble gallwn.

Un o uchafbwyntiau'r Adran yn ystod 2013-18 oedd gweld yr Uned Egwyl Fer Hafan y Sêr yn agor eu drysau am y tro cyntaf i blant a phobl ifanc anabl. Agorwyd yr uned yn Ebrill 2018 ac mae'r gwasanaeth newydd yma yn cynnig darpariaeth egwyl fer fydd yn rhoi gofal a chefnogaeth gan staff arbenigol i blant anabl a'u teuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yma yn ateb angen y mae teuluoedd wedi bod yn ei fynegi i'r Tîm Derwen ers tro. Mae'r Uned wedi ei leoli ar safle Ysgol Hafol Lon ym Mhenrhyndeudraeth.



Yn ogystal mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd adran Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cydweithwyr o gyrff statudol arall ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan

(dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus i ddenu grant rhanbarthol i symud ymlaen gyda cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol'. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i anghenion ymarfer gweithwyr o fewn y maes heriol diogelu plant. Yn fras iawn, mae wedi cael ei ddatblygu er mwyn atal camdriniaeth mor effeithiol a phosib, gan arwain at benderfyniadau amserol ble gall gwasanaethau diogelu gamu yn ôl. Y bwriad fydd cyd-weithio gyda'r brifysgol er mwyn adolygu a gwerthuso'r cynllun ac os yw'n

dangos llwyddiant ei ledaenu ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Economi a Chymuned



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.



Datblygu Economi Gwynedd

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi i fusnesau dyfu a sbarduno twf yn yr economi, a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.


Rydym yn gweithio i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu'r amodau sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Yn ystod 2018/19 fe grëwyd 57 o swyddi gwerth uchel (cyflog £26,500 neu fwy), sef yr uchaf yn y 4 mlynedd ddiwethaf, a 29 o swyddi wedi eu diogelu yn uniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgaredd. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid drwy arwain ar brosiect STEM Gogledd (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg) gan sicrhau £1.9m i gyd-gordio darpariaeth all-gwricwlaidd STEM i ddisgyblion er mwyn sicrhau gweithlu lleol i fanteisio ar ddatblygiadau fydd yn arwain at swyddi gwerth uchel.

Swyddi gwerth uchel wedi eu creu



Yn ystod 2018/19 mae £14.1 miliwn o arian grant neu cydariannu wedi ei ddenu i'r Sir, yr uchaf yn y pum mlynedd diwethaf.

Arian grant neu cydariannu wedi ddenu i'r Sir



Mae lefelau incwm rhent wedi cynyddu wrth weld gofod diwydiannol / menter y Cyngor 96% yn llawn. Mae'r galw am unedau gwag yn parhau ar draws y Sir, a diffyg gofod ar gyfer busnesau sydd eisiau ehangu neu symud i'r ardal.

Yn ystod 2018/19 derbyniodd 213 o fusnesau gymorth, mae hyn yn ostyngiad ar y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i osod diffiniad mwy caeth o'r mesurydd.



Mae'r adran wedi gweithredu ar 202 o ymholiadau busnes yn ystod y flwyddyn, ac mae'r nifer wedi gostwng wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol.

Fel rhan o'r gwaith i adfywio canol tref Caernarfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad ymwelwyr i'r ardal a gwella gwedd a golwg y dref, cwblhawyd dau gynllun adfywio strategol sef adeilad Rheilffordd Eryri a Chynllun Galeri2.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Yn ystod y flwyddyn mae gwefan newydd Eryri Mynyddoedd a Môr wedi ei chwblhau, gyda dros 1 miliwn o bobl yn ymweld â'r wefan, sy'n gynydd o 29,000 o gymharu â llynedd. Llwyddwyd i ddenu nawdd gan Croeso Cymru i ariannu gweithgareddau i hyrwyddo Ffordd yr Arfordir y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr ar y cyd efo Ceredigion a Penfro.

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r hafan a harbwr i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli.




Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae Swyddogion Adfywio Bro yn parhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol er mwyn ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Cefnogwyd 65 o brosiectau i ddatblygu gwasanaeth newydd neu ddiogelu mynediad at wasanaeth yn 2018/19. Cafodd dros £500,000 o gyllid cyfatebol ei fuddsoddi mewn prosiectau Cist Gwynedd.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi parhau i sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth, gyda dros 300,000 o bobl yn ymweld â Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, a 96% o'r defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir. Cyflwynwyd system hunanwasanaeth newydd yn y llyfrgelloedd yn 2018/19 a bu 2,422 o blant Gwynedd yn rhan o'r Sialens Ddarllen Haf, gyda chyfanswm o 46,851 o lyfrau plant wedi eu darllen dros y cyfnod.

Pobl yn ymweld a Llyfrgelloedd Gwynedd



Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal orielau, amgueddfeydd ac archifau yng Ngwynedd, gyda bron i 60,000 o ymwelwyr i'r orielau ac amgueddfeydd yn ystod 2018/19. Cafodd Neuadd Buddug ei chau yn ystod mis Rhagfyr 2018, gan drosglwyddo i Theatr Derek Williams, sef y ganolfan newydd yn Ysgol Godre'r Berwyn. Lanswyd ymgyrch genedlaethol Archwiliwch Eich Archif yn Archifdy Caernarfon, ac roedd nifer yn nodi eu

bod wedi cael profiad da wrth ymweld a'r archifau, gyda 94% yn fodlon â'r gwasanaeth.

Gwelwyd newid i'n Gwasanaeth Ieuencid yn ystod y flwyddyn drwy ail-fodelu, a bellach mae'r strwythur newydd mewn lle. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cynnig amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith ymgysylltu, gwirfoddoli mewn cymunedau, a sgiliau coginio a chwaraeon.

Mae'r adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach, gyda 89% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth yn 2018/19. Mae gwaith dwys wedi wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn sefydlu cwmni Byw'n Iach Cyf ac ar 1af o Ebrill 2019 trosglwyddwyd rheolaeth o'r canolfannau i'r cwmni newydd trwy gytundeb.

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored gan gynnwys sesiynau Teulu Actif, Triathalon, Sboncen a Badminton. Mae cynllun Arweinwyr y Dyfodol wedi profi'n lwyddiant eleni, gyda nifer yn ennill gwobrau gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd, gyda 65% yn adrodd fod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn y gefnogaeth, ac 80% wedi gweld cynnydd yn lefel eu ffitrwydd.

Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da i ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn, ac mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn dod ag elw i'r cymunedau hyn.

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n

blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r Sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Lansiwyd pecynnau cymorth ariannol newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer busnesau lleol, sef Cronfa Benthyciadau Di-log Penygroes a Bethesda, a'r Gronfa Adnewyddu a Buddsoddiad Eiddo Canol Dinas Bangor sydd yn ymateb i'r blaenoriaethau lleol i adfywio ardaloedd Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bangor. Yn ystod y flwyddyn, mae 4 eiddo gwag wedi dod nol i ddefnydd yn dilyn derbyn cymorth.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol



Glanhau Strydoedd

Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad ein strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd, ac o ran yr amgylchedd lleol mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel. Mae perfformiad y Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd hyd yma eleni yn 74.1% gan ddangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2017/18 (71.95%).



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigaréts sydd ar unrhyw

stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.

Ffyrdd


Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o ffyrdd sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw. Gyda lleihad yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Leol, mae ein gallu i gynnal y ffyrdd dosbarth C a dddosbarth i'r un safon yn anoddach.

Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd gennym her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd

o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a D-ddosbarth.

Tra bod y cyflwr yn sefydlog gyda 14.5% yn ddiffygiol ac angen sylw, bydd y gostyngiad cyllid yr ydym yn ei wynebu yn ei gwneud yn anoddach cadw at y perfformiad presennol.

Canran prif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael



Gwastraff

Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd gywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol.




Erbyn diwedd 2018/19 roedd 63.3% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynnydd o 8% ers 2014/15.

Drwy ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau ein gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi, mae'r newid hwn wedi bod yn allweddol i wella ein perfformiad.

Mae busnesau'r sir hefyd wedi cyfrannu at welliant ac erbyn diwedd 2018/19 roedd 48% o wastraff masnachol yn cael ei gompostio neu ailgylchu, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â 35.45% yn 2014/15.

Mae hefyd yn bwysig i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu pan rydym yn dweud yr ydym am ei gasglu. Yn ystod 2018/19, gwnaethom gyfanswm o 4,556,708 o gasgliadau gwastraff, gyda 12,314 o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.27%). Roedd rhai o'r methiannau yma oherwydd y tywydd garw ac eraill oherwydd diffygion ar ein rhan ni. Er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym wedi bod yn adolygu ein harferion gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei roi i bobl Gwynedd. Bydd y newidiadau yma yn dod i rym yn raddol yn 2019/20.

Mae canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi yn is ar gyfer 2018/19, sef 18% o'i gymharu â 43.33% ar gyfer blwyddyn 2014/15. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ailgylchu a'r ffaith fod mwy o wastraff gweddilliol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.



Goleuadau Stryd



Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd dau ddiwrnod a hanner i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y 5 mlynedd diwethaf.

Fel rhan o raglen “buddsoddi i arbed” y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2018/19 newidiwyd 1,680 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED ac ers 2015/16, rydym wedi newid dros 10,000 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2). Bydd rhaglen newydd 3 blynedd i newid gweddill y goleuadau i LED yn cychwyn yn Ebrill 2019 a byddwn yn arbed £185,000 yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (572 Co2).

Toiledau Cyhoeddus

Mae cyfanswm o 62 o doiledau cyhoeddus yn y sir, ynghyd a 35 o doiledau cymunedol sydd ar gael mewn lleoliadau fel caffis, tafarndai ayb ynghyd ag 17 o doiledau cyhoeddus sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Fel siroedd ledled Cymru, mae Gwynedd wedi wynebu cyfnod o dorri sylweddol ar gyllidebau sydd wedi golygu'r angen i adnabod arbedion yng ngwariant ar doiledau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Ond drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd. Yr ydym hefyd wedi darparu strategaeth Toiledau Cyhoeddus sydd yn ofyn statudol ar bob awdurdod, bu i'r gwaith yma gael ei gwblhau yn ddiweddar iawn.

Blaenoriaethau Lleol

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu oherwydd gwaith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella'r sefyllfa yma. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau "Kerbside", sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau ac o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn bartneriaeth sydd wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac mae'r gwaith yma yn symud yn ei flaen yn dda. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y Ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna byddwn yn cyflwyno i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal. Byddwn yn dysgu o ein profiadau o weithio gyda'r prosiect ym Mangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Adran Amgylchedd




Prif feysydd Cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol

Cynllunio

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), gyda 90% o gwsmeriaid y gwasanaeth yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

Canran o Gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio




O'r rhai sy'n anfodlon mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn nodi anfodlonrwydd gyda'r trefniadau cysylltu gyda'r gwasanaeth, gydag anhawster cyfathrebu yn cael ei nodi yn y sylwadau a dderbyniwyd gan gwsmeriaid hapus yn ogystal â'r rhai anhapus. Bydd y gwasanaeth yn gweithio i wella'r sefyllfa yn 2019/20.

Ar gyfartaledd yn 2018/19 roedd ceisiadau cynllunio yn cymryd 57 diwrnod i'w penderfynu gan swyddog, gyda cheisiadau oedd yn derbyn penderfyniad Pwyllgor yn cymryd 137 diwrnod ar gyfartaledd. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu'r ffaith fod y ceisiadau sydd yn mynd gerbron Pwyllgor yn tueddu i fod yn geisiadau cymhleth neu gynhennus, ac nid yw'n anarferol i benderfyniadau gael eu gohirio er mwyn rhoi cyfle i dderbyn mwy o wybodaeth neu gynnal trafodaethau.

Mae tai fforddiadwy yn fater sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, gyda 48% o'r tai a ganiatawyd trwy'r drefn gynllunio yn 2018/19 yn dai fforddiadwy, naill ai trwy gytundeb 106 neu oherwydd eu bod yn dai a adeiladwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ffigur yma'n gynydd o'r 38% a gofnodwyd yn 2017/18, ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r targed uchaf yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sef bod datblygiadau yn cynnwys 30% o dai fforddiadwy. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu yn uniongyrchol tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Ngwynedd mewn ffordd arwyddocaol.

Canran Tai Fforddiadwy




Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn ymdrin â gorfodaeth cynllunio, gan gymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio. Bu iddynt ymdrin ag oddeutu 218 o achosion yn 2018-19. Ar gyfer 2018-19 roedd 61% o'r achosion wedi eu harchwilio, gan gymryd 37 diwrnod ar gyfartaledd i wneud hynny. Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 40 achos oedd angen camau cywiro, gyda 35% wedi cwblhau camau cywiro a'r 65% arall ar y gweill. Dylid nodi nid y unig fod y broses o gymryd camau gorfodaeth yn un hir oherwydd natur gofynion ymchwilio, gofynion statudol a phrosesau cyfreithiol, ond bod datrysiad boddhaol i'r achos yn aml yn bwysicach i'r cwsmer na'r amser a gymerwyd i gyflawni hynny.

Hylendid Bwyd



Mae 99.49% o sefydliadau bwyd Gwynedd yn cydymffurfio'n fras gyda safonau hylendid bwyd, sef 2,071 allan o 2,088 sefydliad.

% Sefydliadau Bwyd yn Cydymffurfio'n Fras



Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi ei chael hi'n anodd iawn dygymod gyda'r nifer o archwiliadau sy'n ofynnol, a bu'n rhaid darganfod adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad archwiliadau sydd wedi datblygu. Ar gyfer 2018/19 mae yna ôl-groniad o 77 archwiliad hylendid bwyd, ynghyd ag ôl-groniad o 203 archwiliad Safonau Bwyd. Yn y sefydliadau bwyd categorïau risg is y mae'r ôl-gronad yma, ond yng Ngorffennaf 2018 penderfynodd y Cabinet i ddyrannu mwy o adnoddau i'r gwasanaeth er mwyn iddynt benodi dau swyddog ychwanegol i fedru ymdopi â'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddod yn gymwys yn llawn i gynnal archwiliadau hylendid bwyd, ac felly ni fyddwn yn gweld effaith lawn yr adnoddau ychwanegol am beth amser.

Fel arall fe welir perfformiad calonogol ym maes Gwarchod y Cyhoedd gyda'r holl archwiliadau llygredd awyr a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harchwilio yn unol â'r rhaglen. Llwyddwyd i ddatrys 698 o droseddau drwy ymyraeth gan y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y flwyddyn gyda 49 arall yn aros i'w datrys.

Traffig a Gwaith Stryd

Yr hyn sy'n bwysig i'r sawl sy'n gofyn am orchmynion traffig yw gweld y gorchymyn yn dod i rym, ac mae'r arfer yr oedd gennym o hysbysebu nifer o geisiadau mewn un pecyn wedi dod i ben gan y byddai'n aml yn bosib i un gorchymyn cynhennus ddal nifer o orchmynion eraill yn ôl. Mae'r newid yma mewn canfyddiad o'r broses wedi arwain at gwtogi'r amser cyfartalog a gymerir i osod Gorchymyn Traffig yn ei le o 519 diwrnod i 297.



Cludiant Cyhoeddus

Mae'r sector trafniadaeth gyhoeddus yng Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael yn y maes Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd wedi ei seilio ar werth cymdeithasol, yn hytrach na chost a nifer teithwyr. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynig rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r adolygiad fod wedi ei gwblhau erbyn Medi 2019, gan ddod yn weithredol yn Ebrill 2020.



Yn y cyfamser mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y cyhoedd a chydweithio gyda'r diwydiant i gynnal gwasanaethau sydd yn ateb anghenion Pobol Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn monitro prydlondeb gwasanaethau bysus, gyda 83% o wasanaethau yn cyrraedd yn brydlon yn 2018/19. O'r gwasanaethau nad oedd yn brydlon, roedd y rhan helaeth wedi cyrraedd o fewn 5 munud i'r amser ar yr amserlen.

Eiddo


Mae Teleofal, neu dechnoleg gynorthwyol yn gymorth i leihau risgiau o fewn y cartref gan alluogi unigolion bregus i fyw bywyd annibynnol. Yn Ionawr 2018 bu i Wasanaeth Eiddo'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth mewnosod cyfarpar teleofal yng Ngwynedd. Bu i'r amser yr oedd yn ei gymryd i fewnosod offer Teleofal ddisgyn o oddeutu 53 diwrnod i 5 diwrnod yn dilyn ei drawsnewid o dan ofal y Gwasanaeth Eiddo. Wrth ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r gwaith, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i wella'n raddol, gan gymryd 4.5 diwrnod ar gyfartaledd erbyn diwedd 2018/19.

Allyriadau carbon

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu cynllun rheoli carbon yn Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol o £3,750,170 er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnsus dros dymor ehangach. Ers sefydlu'r waelodlin yn 2005/06 mae allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 43%, gyda gostyngiad o 4.1% pellach yn 2018-19, ac wedi arwain at arbedion ariannol cronnsus o £4,062,958 ers cychwyn gwireddu'r cynllun.

Canran gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor



Yn ystod 2018/19 daeth pwysigrwydd llwyddiannau'r cynllun rheoli carbon i'r amlwg wrth i'r Cyngor (7/3/19), Llywodraeth Cymru (29/4/19) a Senedd Prydain (1/5/19) ddatgan argyfwng hinsawdd. Golyga'r datganiad fod y Cyngor yn bwriadu cymryd camau pellach ac arloesi wrth ymdrechu am ddyfodol di-garbon.

Blaenoriaethau Lleol

Nodwyd fod pryder yn ardal Caernarfon a Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i bobl leol. Roedd gan drigolion ardal Penllyn bryder am y diffyg llefydd parcio i weithwyr ar stad ddiwydiannol Y Bala, sydd bellach wedi ei ddatrys. Ni fu i'r adran lwyddo i ymateb i'r pryderon hyn yn ardaloedd Caernarfon a Dyffryn Ogwen yn 2018, a byddwn yn ymchwilio ac yn edrych ar opsiynau er mwyn cyfarch y broblem.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:


- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.**
- **Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.**

Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peiranyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2018/19 llwydwyd i greu elw oedd £58,744 yn uwch na'r targed a osodwyd ar ein cyfer.

Elw yn erbyn Targed



Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf. Mae'r Uned yma'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu hefyd yn parhau i roi gwasanaeth da i drigolion gyda'r sgôr bodlonrwydd yn parhau'n uchel ac yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2018/19, rhoddwyd sgôr cyfartalog 9.6 allan o 10. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.

Bodlonrwydd Cwsmer (sgôr allan o 10)


2014-15 2015-16 2016-17 2017-18 2018-19



8.7 9.1 9.3 9.6 9.6

Un o dyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Cynlluniau Llawn. Mae'r Uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Yn ystod 2018/19, cymerwyd 16 diwrnod ar gyfartaledd i wirio ceisiadau cynllunio llawn (penderfyniad cyntaf), sef yr un nifer o ddyddiau ag yn 2017/18. Fodd bynnag, mae hyn yn un diwrnod yn fwy na'r targed o 15 diwrnod.

Nifer cyfartalog o diwrnodau a gymerwyd i wirio cais cynllunio llawn (penderfyniad cyntaf)



Yn yr un modd ag ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, mae rhai ardaloedd arfordirol yng Ngwynedd ble mae mwy o berygl o lifogydd. Rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid yn lleol a rhanbarthol i geisio adnabod a lleihau'r risg llifogydd i gymunedau Gwynedd.

Yn ystod 2018/19, mae'r Uned wedi denu grant er mwyn cynnal astudiaethau i weld sut y gellir gostwng y risg llifogydd yn ardaloedd Aberdyfi; Abermaw; Y Felinheli; Bae Hirael Bangor, Tremadog a Rhostryfan. Yn ogystal, fe wnaed gwelliannau yn ystod y flwyddyn yn Llanberis; Borth y gest; Abererch; Tal y Bont a Phwllheli. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 176 eiddo preswyl wedi elwa yn uniongyrchol o ran risg llifogydd yn sgil gwelliannau a gwblhawyd oherwydd grantiau.



Nid oes modd i'r Cyngor ymladd natur ym mhob achos wrth gwrs ac rydym yn parhau i geisio cynorthwyo trigolion Friog i gynllunio ar gyfer y dyfodol lle bydd yn anorfod y bydd grymoedd natur yn ein gorchfygu.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ar erydu arfordirol.

Yn ystod 2018/19 rydym wedi cwblhau'r gwaith o arolygu cyflwr ein hasedau a sicrhau ein bod yn cadw'r asesiadau yma yn gyfredol. Dengys yr arolwg cyntaf yma, fod gennym 3 ased allan o 183 sydd angen sylw ar fyrder gyda 21 pellach fydd angen sylw cyn bo hir. Bydd yr asedau yma yn derbyn sylw yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth



Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu referniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg. Mae gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

Rheolaeth Ariannol ac Arbedion

Ers 2015 mae cyllideb y Cyngor wedi lleihau, gyda chyfanswm o £25miliwn o arbedion wedi eu cyflawni dros y 4 mlynedd ddiwethaf. Golyga hynny fod gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth gyfrifol yr Adran Cyllid yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Trwy reolaeth ariannol gydwysbodol, mae'r Adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2018/19.

Yn yr hinsawdd ariannol lle mae gofyn i'r Cyngor leihau ei gyllidebau bob blwyddyn oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus, yn ogystal ag amcangyfrifon ariannol dibynadwy a chyfrifon cywir a theg, yr adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor ar gyfer sicrhau fod yr holl adrannau yn gwireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos fod 96% o'r cynlluniau wedi'u rhaglennu i'w cyflawni erbyn diwedd 2018/19 wedi eu gwireddu, sef gwerth £23 miliwn o arbedion. O ran cynlluniau 2018/19 mae 73% o'r £2.5 miliwn o arbedion a gynlluniwyd wedi eu gwireddu yn y flwyddyn gyda'r disgwyl i 1 cynllun gael ei gyflawni'n amserol a 7 cynllun yn llithro.

Mae gweddill unedau cefnogol yr Adran Cyllid yn perfformio'n dda gyda'r mesurau a ddefnyddir yn dangos fod perfformiad yn cael ei gynnal neu'n gwella. Mae bodlonrwydd adrannau eraill gyda gwasanaethau'r Adran yn parhau'n uchel, gan roi sicrwydd bod cefnogaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.

Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau'r Cyngor gyda gwasanaeth a chefnogaeth Cyllid (sgor 0-5)

Cyllid a Chyfrifeg 4.75	Archwilio Mewnol 4.93
Technoleg Gwybodaeth 4.38	Sgor Cyfansawdd 4.5

Archwilio Mewnol

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2018/19 bu i'r gwasanaeth gynnal 58 archwiliad, gyda'r mwyafrif naill ai wedi derbyn dyfarniad lefel sicrwydd 'uchel' neu 'digonol', ond 6 archwiliad wedi derbyn barn 'cyfyngedig'.

Yn ogystal â'r gwaith Archwilio Mewnol mae'r gwasanaeth wedi cynnig gwasanaeth archwilio mewnol i 67 o gynghorau tref a chymuned Gwynedd a Môn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y cynghorau fu'n cydweithio gyda'r Gwasanaeth, sydd yn ei dro wedi arwain at wahoddiadau i gyflawni'r un rôl eto.

Defnyddiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad Archwilio Mewnol Gwynedd ar Gyngor Tref Caerdybi fel enghraifft o arfer da, a hefyd cyfeiriodd CIPFA at arloesedd Archwilio Mewnol Gwynedd mewn dogfen arweiniol, sydd yn arwydd arall o safon uchel y gwasanaeth a ddarparwyd.

Pensiynau


Mae'r gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau. Yn ystod 2018/19, bu i berfformiad y gwasanaeth arafu ychydig, gan gymryd 4.64 diwrnod gwaith i anfon llythyr sy'n hysbysu amcangyfrif o werth buddion ymddeol, ond roedd perfformiad cyffredinol y gwasanaeth ar y cyfan yn sefydlog wrth ddygymod gyda chryn drosiant staff. Mae'r perfformiad serch hynny yn welliant sylweddol o'r 9.5 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer 2015/16. Mae gwaith gwella systemau a chyfathrebu gyda sefydliadau eraill sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn dwyn ffrwyth er mwyn awtomeiddio casglu'r wybodaeth angenrheidiol yn gynt a chadw gwybodaeth aelodau'r cynllun yn gyfredol.



Trethi

Ar 1 Ebrill 2018 daeth y 'Premiwm' o 50% i rym ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Canlyniad hyn oedd pwysau gwaith ychwanegol ar y gwasanaeth wrth ddeilio gydag ymholiadau, a gwelwyd gostyngiad bychan yn y

gyfradd casglu Treth Cyngor o fewn y flwyddyn (96.65% yn 2018/19 o'i gymharu â 97.13% yn 2017/18). Er i ni weld gostyngiad yn y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn, mae'r rhan helaeth o'r arian hwnnw sy'n ddyledus yn parhau i gael ei gasglu yn y pen draw.




Budd-daliadau

Roedd 2018/19 yn flwyddyn drawsnewidiol gyda chychwyniad Credyd Cynhwysol y 'DWP' yng Ngwynedd yn Rhagfyr 2018. Bydd mwy o effaith Credyd Cynhwysol ar waith prosesu Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor yn 2019/20. Yn 2018/19, roedd y cyfartaledd amser i brosesu cais budd-dal newydd yn 19.62 diwrnod, a 5.51 diwrnod i brosesu newid mewn amgylchiadau, o'i gymharu â 18.51 a 5.65 diwrnod yn 2017/18. Rydym yn parhau i gymharu'n ffafriol gyda ffigyrau prosesu cenedlaethol diweddaraf o 20 ac 8 diwrnod a gyhoeddwyd gan y 'DWP'.

Incwm

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon. Roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i gasglu 94.64% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn 2018/19, ac mae perfformiad y gwasanaeth wedi gwella'n raddol yn ystod 2018/19, gyda chyfradd casglu brydlon o 88.86% o ddyledion amrywiol erbyn diwedd y flwyddyn, o'i gymharu â chyfradd 86.47% ar ddechrau'r flwyddyn. Serch hynny, mae'r Gwasanaeth Incwm yn gweithredu'n sensitif i amgylchiadau dyledwyr trwy gytuno trefniant talu gyda rhai dyledwyr.

Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter - Gwerth (%)



Technoleg Gwybodaeth

Mae'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu pobl Gwynedd gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Mabwysiadwyd Strategaeth TG bresennol y Cyngor yn 2016 ac mae gweithredu'r strategaeth wedi galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ac arloesi wrth ddarparu cefnogaeth i'r Cyngor. Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ar waith a bydd yn barod erbyn hydref 2019/20.


Newid amlwg sydd wedi deillio o'r strategaeth yw datblygu gwasanaethau ar-lein, a hunanwasanaeth yn arbennig, er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Roedd ambell wasanaeth yn bodoli'n barod ar wefan y Cyngor, ond yn Nhachwedd 2017 fe ail-lansiwyd y ddarpariaeth gan gyflwyno mwy o wasanaethau a chryfhau'r ddarpariaeth i dracio statws y ceisiadau am wasanaeth. Daeth datblygiad pellach yng Ngorffennaf 2018 gydag "ap Gwynedd" yn cael ei lansio ar gyfer dyfeisiadau Apple ac Android ac yn mynd o nerth i nerth, gyda'r 'ap' bellach wedi ei lawrlwytho 902 gwaith ac wedi mwy na dyblu yn ei nifer rhwng Ionawr a Mai 2019.

Mae'r ddarpariaeth dechnegol yn dod yn agosach at y bobl ac fel rhan o waith dadansoddi ar gyfer hunanwasanaeth ar-lein fe gyflwynwyd apiau symudol ar gyfer nifer o

swyddogion sy'n cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd. Technegwyr gwastraff yn bennaf sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yma. Mae'r dechnoleg yn eu galluogi i weithredu ar geisiadau'n gynt a bod gwybodaeth gyfredol ar gael i'w rannu gyda phobl Gwynedd ar unwaith. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymledu i fwy o wasanaethau'r Cyngor i'r dyfodol.

Un o flaenoriaethau'r gwasanaeth TG yw sicrhau fod gwefan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd, a rhwydwaith y Cyngor ar gael i'w staff. Mae perfformiad y gwasanaeth yn yr agweddau yma wedi bod yn gyson, gyda'r rhwydwaith ar gael 99.97% o'r amser yn 2018/19. Bu i'r Cyngor ddioddef digwyddiad sylweddol yn haf 2018 a achosodd i systemau'r Cyngor beidio bod ar gael am gyfnod, ond fe lwyddwyd i adfer systemau â blaenoriaeth uchel yn gyflym, gyda'r gweddill yn dilyn oddi fewn y dyddiau nesaf. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau yn dilyn y digwyddiad i gryfhau gwydnwch y ddarpariaeth er mwyn osgoi digwyddiad o'r fath yn y dyfodol. Er bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, mae ambell gam pellach i fynd i gwblhau'r newidiadau a bydd hyn yn dod i ben yng ngeaf 2019/20.

Argaeledd Gwefan y Cyngor





Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Cyswllt Cwsmer

Bu 2018/19 yn flwyddyn lwyddiannus o ran cynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i drigolion Gwynedd drwy hunanwasanaeth ar-lein. Bellach, mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer gynyddol o wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac mae hefyd yn cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.



Gwnewch o ar-lein
Saff, sydyn a hawdd i'w ddefnyddio

Do it online
Safe, quick and easy to use

CYNGOR GWYNEDD www.gwynedd.llyw.cymru

Erbyn hyn, mae trigolion a busnesau Gwynedd yn gallu cysylltu ynghylch 17 o faterion priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, talu am ginio ysgol, a chreu cyfiri hunanwasanaeth ar gyfer busnesau. Hefyd, rydym wedi lansio ap i ffôn symudol sy'n rhoi mwy o ddewis i drigolion sut a phryd i ofyn am wasanaethau. Yn ystod y flwyddyn mae 9,129 o drigolion wedi agor cyfiri hunanwasanaeth o'r newydd.



Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn prydlon drwy Galw Gwynedd, sydd wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd



Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod lle i wella ymhellach gan mai 55% o'r trigolion a gysylltodd hefo Galw Gwynedd a roddodd sgôr o 10 allan o 10 am y gwasanaeth a ddarparwyd.

Mae mwy a mwy o drigolion Gwynedd bellach yn dewis cysylltu â'r Cyngor drwy ddulliau electronig. Yn ystod 2018/19, derbyniwyd 2,178,226 o ymweliadau unigol i Wefan y Cyngor. Dim ond 277 (0.01%) o'r ymwelwyr yma wnaeth gyflwyno cŵyn neu sylw negyddol am y wefan. Llwyddwyd i gyfarch mwyafrif helaeth y cwynion yn brydlon ac mewn ffyrdd a oedd yn datrys y broblem gyda 72% ohonynt yn cael eu datrys o fewn 3 diwrnod gwaith.

Cyfathrebu

Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor ac i glywed barn ein trigolion am y gwasanaethau hynny yn flaenoriaeth. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth 5,960 o bobl Gwynedd ymateb i holl ymgynghoriadau cyhoeddus corfforaethol y Cyngor a rhoddwyd sylw penodol i sicrhau fod y Cyngor yn clywed llais carfannau penodol megis pobl ifanc, y gymuned LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid ac oedolion gydag anabledau dysgu.

Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

Llwyddwyd i gynnal perfformiad o fewn y gwasanaeth gyda 93% o gofrestrïadau marwolaethau yn cael eu cofrestru mewn 5 diwrnod sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth o 90%.

Ym mis Chwefror 2018, cynhaliwyd ymchwiliad gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol oedd yn nodi fod angen rhoi sylw i 12 pwynt gweithredu. Yn dilyn archwiliad arall 12 mis yn ddiweddarach, cydnabyddwyd bod 11 o'r 12 pwynt gweithredu wedi eu cyfarch.

Cefnogi Busnes y Cyngor

Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i wella ein trefniadau i asesu effaith cydraddoldeb pan yn llunio polisiau a gweithredu arnynt, ac fe gyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn fis Mehefin 2018, sy'n amlinellu'r 6 maes blaenoriaeth y bydd aelodau'r Bwrdd yn cydweithio arnynt er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau i drigolion y ddwy sir. Mae gwaith ymchwil pellach i'w wneud cyn datblygu nifer o'r cynlluniau, ond byddwn yn parhau i gyfrannu at y cynlluniau hynny yn 2019/20.



Uned iaith



Rydym fel Cyngor wedi defnyddio'r hyn sydd wedi ei ddysgu dros y bum mlynedd a mwy diweddar er mwyn llunio 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023'.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd rydym wedi datblygu perthynas waith agosach gyda gweddill Mentrau Iaith Cymru er mwyn cryfhau gwaith ein mentrau iaith ein hunain, sef Hunaniaith a Menter Iaith Bangor. Rydym yn rhoi pwysau mawr ar arfogi eraill i gynig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na darparu yn uniongyrchol ein hunain.




Rheoli Gwybodaeth

Rydym yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth sydd ar gadw gennym am bobl ac adnoddau yn ddata sensitif a gwerthfawr.

Bu'n rhaid adrodd ar un digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd ei ddifrifoldeb ond ni fydd camau ffurfiol yn ein herbyn yn sgil y ffaith bod gweithdrefnau priodol yn eu lle.

Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir




Ein blaenoriaeth i'r dyfodol, wrth gwrs, fydd parhau i sicrhau fod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddiogelu data, gan ail-gynnig hyfforddiant yn ôl yr angen, fel na fydd achosion tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi mwy na dyblu i 59. Gan na allwn

flaenoriaethu ein cyllid er mwyn cyflogi neu arallgyfeirio staff i ymateb i'r cynnydd hwn rydym wedi byw gyda'r ffaith mai 75% o'r ceisiadau hyn gafodd eu hateb o fewn yr amserlen ddisgwyliedig sef 1 mis calendr.

Ar ben hynny cafwyd 1,155 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.



Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd nifer o brosiectau ymchwil sydd wedi cyfrannu naill ai at ddatblygu polisiau neu at wella gweithdrefnau mewnol, gan gynnwys yr ymchwil ar Ddatblygiadau Tai Newydd sef darn o waith cynhwysfawr ple holwyd preswylwyr tai newydd ar draws Gwynedd am eu rhesymau dros symud, ple roeddynt yn byw o'r blaen, iaith a siaredir ayb, ac yna dilyn y gadwyn ymlaen i'r tai wnaethon nhw symud ohonynt. Mae yna weithgor yn dadansoddi'r canlyniadau ar hyn o bryd, ond bydd yn sicr o fedru cyfrannu at waith a pholisiau ein hunedau tai a chynllunio i'r dyfodol.

Prynu

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael hefyd yn cydweithio gydag adrannau ar draws y Cyngor er mwyn gosod cytundebau a threfniadau yn eu lle sydd wedi rhoi'r cyfle iddynt arbed arian. Yn ystod

2018/19 mae cyfleoedd wedi eu hadnabod er mwyn arbed cyfanswm o £239,280.

Democratiaeth a Chyfieithu



Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cyngorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd. Ar gyfer cyfnod 2018/19 cynyddodd y canran rhaglenni pwyllgorau sy'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) i 97% yn 2018/19 o'i gymharu â 95% yn 2017/18.

Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau yn wych drwyddo draw, gyda 28 allan o'r 29 holiadur bodlonrwydd a gwblhawyd yn sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5.

Cefnogaeth Adnoddau Dynol

Ym mis Awst 2018 daeth y Cyngor i gytundeb torfol â'r undebau llafur ar becyn o newidiadau i'r amodau gwaith. Un o'r ymrwymadau a ddaeth allan o'r broses honno oedd yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng yr undebau llafur a'r Cyngor yn gyffredinol. Erbyn hyn ac ymhellach i'r cyfarfodydd misol oedd eisoes wedi'i sefydlu gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd yn cynnal trafodaethau cyson â chynrychiolwyr yr undebau ar faterion sy'n benodol i'w gwasanaethau hwy.

Rydym yn falch iawn bod y newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2018/19 wedi golygu y bydd isafswm cyflog o fewn y Cyngor o fis Ebrill 2019 ymlaen yn codi i £9.18 yr awr. Mae hyn yn cymharu ag £8.21 ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r £9.00 yr awr sy'n cael ei gydnabod fel y Gwir Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r

Cyngor hwn gyrraedd y nod o dalu isafswm cyflog sy'n uwch na'r hyn adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Er i ni weld cynnydd yn nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Yn ystod 2018/19, datblygwyd modiwl electronig er mwyn cyflwyno mynediad ar-lein drwy system Hunan Wasanaeth Rheolwyr a Staff i wirio cofnodion troseddol staff (DBS). Mae gwaith pellach i'w wneud cyn y gallwn ddweud bod y system electronig newydd wedi cael gwared o fiwrocratiaeth papur yn llwyr, ac un cam pwysig yw aros i'r Comisiynydd laith edrych ar y mater o sicrhau gweinyddiaeth ddwyieithog y system.

Wrth gysylltu ag ymgeiswyr am swydd gyda'r Cyngor i ofyn eu barn ar y broses ymgeisio, cawsom ymateb ble roedd 100% yn hollol hapus gyda'r gwasanaeth. Tu cefn i'r canlyniad hwn y mae llawer o waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn tynhau'r prosesau o fewngofnodi gwybodaeth er mwyn arbed amser staff.


Dysgu a Datblgu'r Sefydliad



Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff y Cyngor. Datblygiad newydd mwyaf cyffrous y flwyddyn oedd sefydlu ein Cynllun Prentisiaethau, gyda 3 Prentis eisoes wedi eu penodi. Bydd y Cynllun yn ymestyn eto yn 2019/20, gyda'r gobaith o gynyddu'r nifer yma i 20.

Iechyd a Diogelwch

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd gynnydd yn nifer y damweiniau y mae angen i'r Cyngor adrodd arnynt o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).



Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae'r Uned yn parhau i gynnal rhaglen o archwiliadau ac yn gwneud asesiad o unrhyw wendidau sy'n bodoli o fewn yr adrannau unigol ac yn trafod y gwendidau hynny gyda'r penaeithiaid perthnasol.

Blaenoriaeth Lleol

Roedd edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros adnoddau o fewn y gymuned er mwyn eu galluogi i ddefnyddio incwm i gynnal gwasanaethau lleol wedi ei


adnabod fel blaenoriaeth yn ardal Penllyn. Mae trafodaethau wedi eu cynnal a byddant yn parhau er mwyn ceisio datblygu model amgen ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros yr adnoddau o fewn y gymuned.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Er mwyn creu incwm rydym hefyd yn darparu'r gwasanaeth i gleientiaid allanol. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2018/19 yn dangos bod 84% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Rydym yn ymchwilio ymhellach i ddarganfod y rhesymau pam nad yw'r 16% sy'n weddill yn hollol fodlon er mwyn gweld a allwn wneud rhywbeth yn ei gylch.



Un ffactor cyffredin y gwyddom amdano yw bod adeiladu gwell dealltwriaeth gyda chleientiaid ynglŷn ag ardrawiad ffactorau megis prosesau cyfreithiol allanol ar amserlenni

disgwyliedig. Byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weinyddu holl etholiadau'r Sir. Yn ystod 2018/19 rydym wedi gweinyddu'r etholiadau ar gyfer 3 isetholiad.

Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd a chwblhawyd y canfas blynyddol. Drwy adolygu ein dull gweithredu er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau a thechnoleg, y gobaith yw gallu cynyddu cofrestru i bleidleisio ymysg ardaloedd a grwpiau sydd yn llai tueddol o fod ar y gofrestr. Byddwn yn asesu llwyddiant yr arbrawf yn y flwyddyn i ddod.

Eitem 9

Adroddiad i Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod:	25 Mehefin 2019
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt:	Arwel Wyn Owen, Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant Gareth Parri, Arweinydd Tîm Opsiynau Tai
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679468
Teitl yr Eitem:	Polisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyo Polisi Gosod Tai Gyffredin newydd o osod tai cymdeithasol yn seiliedig ar adlewyrchu anghenion ymgeiswyr trwy eu rhoi mewn band yn hytrach na dyrannu pwyntiau.

2. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 2.1. Sefydlwyd Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd yn 2012 er mwyn sefydlu cofrestr tai gyffredin a gweithredu polisi gosod tai gyffredin ar gyfer mynediad i eiddo cymdeithasol yng Ngwynedd. Y Tîm Opsiynau Tai yng Nghyngor Gwynedd sydd gyda'r cyfrifoldeb o weinyddu'r gofrestr ar ran y bartneriaeth. Cyn 2012 roedd yna 4 cofrestr tai a 5 polisi gosod gwahanol oedd yn creu dryswch ac oedd yn sefyllfa anfodddhaol.
- 2.2. Dyhead gan Bartneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd i symleiddio'r drefn o osod tai cymdeithasol trwy weithredu sustem sydd yn haws i'w deall ac i symleiddio'r drefn ymgeisio.
- 2.3. Penderfynodd y Bartneriaeth i gomisiynu arolwg annibynnol o drefniadau gosod tai a cynhaliodd Baltimore Consulting arolwg yn ystod 2018. 'Roedd yr arolwg yn cynnwys rôl y Tîm Opsiynau Tai yng Nghyngor Gwynedd yn ogystal ag adrannau gosod tai Grŵp Cynefin, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Tai Gogledd Cymru.
- 2.4. Un o brif ddeilliannau'r arolwg oedd cadarnhau argymhelliad bod angen gwella a symleiddio siwrnai'r cwsmer. Mae'r drefn gosod bresennol, sydd yn seiliedig ar gynllun pwyntiau, yn un cymhleth a gall fod ar brydiau yn anodd ei esbonio. Roedd dyhead hefyd i ymateb i rai rhwystredigaethau ac i edrych ar y pwysau a roddir ar gyswllt lleol.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 3.1. Mae'n ofyn statudol, yn unol ag adran 167 o Ddeddf Tai 1996, i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gael cynllun (ei gynllun dyrannu tai) ar gyfer pennu blaenoriaethau a'r broses i'w ddilyn wrth ddyrannu tai. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyfarwyddo bod rhaid dangos blaenoriaeth resymol i ymgeiswyr sydd yn disgyn i gategoriâu penodol.
- 3.2. Y Tîm Opsiynau Tai sydd gyda'r cyfrifoldeb o gynnal y gofrestr ar ran y Bartneriaeth a bydd eiddo gwag y partneriaid yn cael eu gosod i ymgeiswyr oddi ar y gofrestr.

- 3.3 Mae adran 167(2) o Ddeddf Tai 1996 yn datgan bod rhaid dangos ‘blaenoriaeth resymol’ i grwpiau arbennig o bobl yn y broses o asesu anghenion tai. Y grwpiau hyn ydi:
- Pobl sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014.
 - Pobl y mae gan yr awdurdod tai ddyletswydd iddynt o dan adrannau 66, 73 neu 75 o Ddeddf 2014.
 - Pobl sy'n byw mewn tai heb gyfleusterau glanweithiol neu dai gorlawn neu fel arall yn byw mewn tai gydag amodau anfodddhaol.
 - Pobl sydd angen symud ymlaen am resymau meddygol neu les.
 - Pobl sydd angen symud i ardal benodol yn y rhanbarth yr awdurdod tai, lle byddai methiant i wneud hynny yn achosi caledi iddynt hwy neu eraill.
- 3.4 Mae Rhan 6 o Ddeddf 1996 yn galluogi pob Awdurdod Tai i ddefnyddio eu disgrisiwn wrth fframio ei bolisi gosod tai mewn modd fel y bydd yn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i deuluoedd sydd angen tai ar frys, ac y gellir penderfynu ar flaenoriaethu rhwng ymgeiswyr ar sail y ffactorau canlynol:
- adnoddau ariannol
 - ymddygiad yr ymgeisydd neu unrhyw un ar ei aelwyd
 - cysylltiad ymgeisydd gyda'r ardal
- 3.5 Argymhellir bod ceisiadau am eiddo cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael eu gosod mewn un o 4 band, a chan ddefnyddio'r disgrisiwn y cyfeirir ato yn 3.4 uchod mae cysylltiad ymgeisydd gyda Gwynedd yn ganolog i'r bandiau. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer lleihau blaenoriaeth ymgeiswyr sydd wedi arddangos ymddygiad annerbyniol, boed hynny'n ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n ddyledion gydag aelod o'r Bartneriaeth. Dyma fanylion y bandiau:

Band	Graddfa'r Angen o ran Tai
1	a. Ymgeiswyr ag angen tai brys gyda chysylltiad Gwynedd
	b. Ymgeiswyr ag angen tai brys (heb gysylltiad Gwynedd)
2	Ymgeiswyr ag angen tai gyda chysylltiad Gwynedd
3	Ymgeiswyr ag angen tai heb gysylltiad Gwynedd ac Ymgeiswyr gyda blaenoriaeth wedi ei leihau
4	Ymgeiswyr heb anghenion tai ond gyda chysylltiad Gwynedd

- 3.6 Mae'r Bartneriaeth wedi bod yn arloesol yn ei ddyhead i geisio uchafu cyfleoedd bobl leol i gael mynediad i dai cymdeithasol. Bydd pob band lle mae cysylltiad Gwynedd yn berthnasol (sef bandiau 1a, 2, 3 a 4) yn cael eu hidlo, yn gyntaf, ar sail 5 mlynedd neu fwy o breswiliad yn y gymuned lle y lleolir yr eiddo i'w osod, ac yna yn ôl dyddiad derbyn y cais. Bydd ceisiadau gyda llai na 5 mlynedd o gysylltiad gyda'r gymuned yn ymddangos, eto yn nhrefn dyddiad derbyn y cais. Rhagwelir y bydd hyn yn uchafu'r cyfleoedd i bobl sydd gyda chysylltiadau gyda Gwynedd a'r gymuned i gael cynnig eiddo cymdeithasol.
- 3.7 Rhagwelir y bydd y drefn newydd yn haws i ymgeiswyr ei ddilyn, gan y bydd pob cais yn cael ei gosod mewn band penodol ac felly yn disodli'r drefn bresennol o ddyrannu pwyntiau sy'n gallu bod yn llafurus. Er mwyn gwella siwrnai'r cwsmer, bydd cyfleuster yn cael ei gynnig i gyflwyno cais am eiddo dros y we trwy safle'r Cyngor.
- 3.8 Gyda phob trefn newydd bydd rhai ymgeiswyr yn elwa ac eraill yn cael llai o flaenoriaeth. Rhagwelir y bydd y newidiadau yn golygu bydd ceisiadau sydd mewn

angen tai, a chanddynt gysylltiad â Gwynedd, yn gyffredinol gyda gwell cyfle o gael cynnig tenantiaeth. Bydd ceisiadau o'r fath, yn ddibynnol ar natur yr angen, yn ymddangos ym mandiau 1a neu 2. Bydd yr ymgeiswyr hynny sydd gyda chysylltiad o 5 mlynedd neu fwy â chymuned lle y lleolir yr eiddo yn dyrchafu'n naturiol i frig y band, eto yn cryfhau'r elfen leol.

- 3.9 Bydd ceisiadau gyda llai na 5 mlynedd o gysylltiad gyda Gwynedd yn ymddangos ym mandiau 1b a 3 (yn ddibynnol ar eu hanghenion tai). Hefyd yn ymddangos ym mand 3 fydd ceisiadau a fyddai fel arall yn ymddangos mewn band uwch, ond oherwydd ymddygiad neu ddyled yn cael eu rhoi mewn band is. Os bydd ymdrech i wella ymddygiad a/neu dalu dyled bydd y cais yn cael ei ddyrchafu'n ôl i'r band gwreiddiol. Mae'r Polisi hefyd yn cynnwys darpariaeth i Banel o swyddogion proffesiynol bennu blaenoriaeth uwch i rai ceisiadau yn seiliedig ar amgylchiadau'r cais.
- 3.10 Fel rhan o'r gwaith ymgynghori ar y Polisi Gosod arfaethedig, fe ofynnodd y Bartneriaeth am farn ar gyfreithlondeb y Polisi gan gwmni cyfreithiol Hugh James sydd yn arbenigo yn y maes tai cymdeithasol. Hefyd holwyd barn arbenigwr yn y maes gosod tai cymdeithasol a digartrefedd, sydd wedi ei leoli yng ngogledd Cymru ar ymarferoldeb y Polisi. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y polisi yn Atodiad 1.
- 3.11 Yn y broses ymgynghori y cyfeirir ati isod, roedd y Cyngor wedi bwriadu gosod ceisiadau gydag anghenion tai brys ond heb gysylltiad Gwynedd yn is na cheisiadau gydag angen tai gyda chysylltiad Gwynedd. Cododd Llywodraeth Cymru bryderon gan ddatgan bod y Cyngor yn agor ei hun i sialens. Gofynnodd y Bartneriaeth drachefn am gyngor cyfreithiol.
- 3.12 Yn dilyn derbyn y cyngor mae'r drefn bandio wedi ei ddiwygio er mwyn sefydlu polisi sydd yn cyfarch Adran 167 o Ddeddf Tai 1996 yn ddiamheuaeth. Rhoddwyd cyngor nad yw yn eglur fod y model gwreiddiol yn cyfarch y ddeddfwriaeth a gall fod yn agored i her gyfreithiol. Rhagwelir, fodd bynnag, mai bychan fyddai'r effaith gwirioneddol o weithredu'r newid gydag ond 12 cais yn cael ei effeithio.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1. Ar dderbyn penderfyniad y Cabinet, bydd gwaith yn mynd rhagddo i baratoi at weithredu'r Polisi ar ei newydd wedd. Bydd hyn yn cynnwys:
- Hysbysu ymgeiswyr cyfredol o'r newid a'r effaith tebygol arnynt. Mae hyn yn ofyn statudol yn unol â Deddf Tai 1996.
 - Rhoi sustem gyfrifiadurol ar waith er mwyn gweinyddu'r ceisiadau ar y gofrestr
 - Ail asesu ceisiadau cyfredol er mwyn pennu pa fand y bydd pob cais yn ymddangos
 - Gweithredu strategaeth gyfathrebu er mwyn cyfathrebu'r newid gydag ymgeiswyr, rhandaliad, Cyngorwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol gan gynnwys darpar ymgeiswyr
- 4.2 Bwriedir cyflwyno'r drefn newydd yn ystod tymor yr Hydref 2019.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 5.1 Mae Cod Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Tai a Digartrefedd yn argymell proses ymgynghori trwyadl pan fo awdurdod lleol yn bwriadu gwneud newidiadau

sylweddol i'w bolisi gosod tai. Mae'r Cod yn awgrymu cysylltu gyda sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sydd gyda nodweddion i'w hamddiffyn a grwpiau ymylol.

5.2 Ymgynghori Cyffredinol

5.3 I'r perwyl hwn, gwahoddwyd amryw sefydliadau statudol ac yn y trydydd sector yn lleol a chenedlaethol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Gwnaethpwyd cysylltiad uniongyrchol gyda'r sefydliadau hynny yn eu gwahodd i gwblhau holiadur ar wefan y Cyngor.

5.4 Ymgynghori gydag Ymgeiswyr

5.5 Yn ogystal, mae'r Cod a'r gyfraith yn nodi'r angen i hysbysu pobl sydd yn debygol o gael eu heffeithio gan y newid, sef yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai. Penderfynodd y Bartneriaeth i fynd gam ymhellach a chysylltu'n uniongyrchol gyda phob ymgeisydd yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

5.6 Hysbyswyd pob ymgeisydd o sesiynau 'galw i mewn' a gynhaliwyd yn ystod Ionawr / Chwefror 2019 ac yn gyfle i ymgeiswyr gael mwy o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig i'r Polisi Gosod. Cynhaliwyd digwyddiadau yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon. Anogwyd ymgeiswyr i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ac roedd holiaduron hefyd ar gael ym mhob Siop Gwynedd a Llyfrgelloedd y sir. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg i hysbysu am yr ymgynghoriad a hefyd roedd negeseuon cyson ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor trwy'r cyfnod ymgynghori.

5.7 Ymgynghori gyda Chynghorwyr Gwynedd

5.8 Cynhaliwyd cyflwyniadau i Gynghorwyr Gwynedd mewn pedwar sesiwn yn ystod cylch Rhagfyr 2018 o'r Fforymau / Pwyllgorau Ardal. Mae sylwadau'r Cynghorwyr yn ystod y sesiynau hynny, sylwadau a gyflwynwyd yn ychwanegol yn bersonol ac fel rhan o'r ymgynghoriad cyffredinol wedi eu hystyried cyn cyflwyno'r drafft terfynol yma.

5.9 Cyflwynwyd sylwadau niferus fel rhan o'r ymgynghoriad ac mae'r Bartneriaeth wedi ystyried yr holl sylwadau. Mae'r Bartneriaeth wedi argymhell bod nifer o'r sylwadau hynny yn cael eu hymgorffori yn y Polisi Gosod Tai. Mae'r tabl isod yn crynhoi:

Sylw gan	Manylion y sylw sydd wedi ei ymgorffori yn y Polisi
Cynghorydd	Symud cysylltiad cymuned drosodd mewn achosion lle mae yna angen am eiddo arbenigol sydd ddim ar gael yn y gymuned bresennol, ond sydd ar gael yn y gymuned gyfagos.
Rhandaliad	Cynnwys rhai grwpiau ymgeiswyr sydd arnynt ddyletswydd yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac sydd mewn eiddo dros dro nad yw'n gwbl addas ar eu cyfer fel bod mewn angen tai brys yn hytrach nac angen tai.
Rhandaliad	Cynnwys ymgeiswyr sy'n ddigartref oherwydd eu bod yn ffoi trais fel bod mewn angen tai brys, ond eu cynnwys ym mand 1a hyd yn oed os nad oes ganddynt gysylltiad Gwynedd.

5.10 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Rwy'n ymwybodol fod y Polisi arfaethedig yn drefniant cydweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol yn yr ardal ac ei fod wedi bod yn destyn cyngor cyfreithiol arbennigol ar y cyd . Mae'r argymhelliad a'r polisi yn adelwyrchu y cyngor a roddwyd o safbwynt priodoldeb.

ii. Y Swyddog Cyllid Statudol:

Deallaf ni fydd unrhyw ymrwymiadau ariannol, uwchlaw i adnoddau presennol y Tîm Opsiynau Tai, wrth gymeradwyo'r polisi newydd yma ar gyfer gosod tai cymdeithasol.

5.11 Barn yr Aelod Lleol:

5.11.1 Ddim yn fater lleol.

5.12 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

5.12.1 Mae canlyniadau'r broses ymgynghori wedi eu hystyried fel rhan o'r broses o ddrafftio'r fersiwn derfynol yma o'r Polisi. Mae canlyniadau holiadur yr ymgynghoriad (trwy wefan y Cyngor a thrwy holiaduron papur) i'w weld yn Atodiad 3.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Polisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd

Atodiad 2 – Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Atodiad 3 – Dadansoddiad holiadur yr ymgynghoriad

Dogfennau Cefndirol:

Dim.

POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN

Drafft Cabinet Cyngor Gwynedd

Drafft ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddwyd Rhagfyr 2018

**Opsiynau Tai Gwynedd
Cyngor Gwynedd Council
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN
01286685100**

**opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru
www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol**

Cynnwys

Rhan 1 Cyflwyniad

Cyflwyniad	1
Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin - Nodau ac amcanion	1
Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd	2
Y fframwaith cyfreithiol	2
Cydraddoldeb ac amrywiaeth	4
laith	5

Rhan 2 Gwneud Cais am Dai

Gweithredu'r Gofrestr Tai	6
Opsiynau Tai	6
Y Gofrestr Dai - Y Broses Ymgeisio	7
Pwy all ymgeisio?	8
Pobl sy'n anghymwys i ymuno â'r Gofrestr Tai	8
Dim angen o ran tai	8
Ceisiadau Trosglwyddo	8
Ymgeiswyr 16 ac 17 mlwydd oed	8
Cyfamod y Lluoedd Arfog	9
Ymgeiswyr heb gyfeiriad sefydlog	9
Ymgeiswyr Sipsiwn a Theithwyr	9
Dogfennaeth angenrheidiol	9
Hysbysiad o benderfyniad	10
Adolygiad o benderfyniad mewn perthynas â chais am dŷ cymdeithasol	10
Cwynion am y gwasanaeth	10
Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol	11
Darparu gwybodaeth i ymgeiswyr	11
Dewis ardaloedd a mathau o eiddo	11
Diweddarau cais yn rheolaidd	12
Diweddarau'r gofrestr - adolygu cais bob 12 mis	13
Canslo ceisiadau a'u tynnu oddi ar y gofrestr	13

Rhan 3 Blaenoriaethu Ymgeiswyr ar gyfer Tai

Cyflwyniad	14
Y Cynllun Bandio	14
Bandiau Blaenoriaeth	14
Cysylltiad Gwynedd	15
Anghenion tai brys	16
Anghenion tai	18
Dim angen o ran tai	21
Gostwng Blaenoriaeth	22
Ceisiadau sydd wedi'u hatal nad ydynt yn cael eu hystyried am ddyraniad	23

Rhan 4 Gosod Llety

Dewis ymgeiswyr ar gyfer cynnig tenantiaeth	25
Anghenion Tai Cyffredinol	25
Tai Gwarchod	25
Eiddo a ddynodwyd ar gyfer pobl hŷn a/neu bobl gydag anabledd	25
Cartrefi Hygyrch	26
Addasrwydd ymgeisydd am ddyraniad llety	26
Fforddiadwyedd	26
Cynnig Llety	26
Gwrthod cynnig llety	27
Eiddo ar gael i'w Gosod	28
Trosglwyddiadau Rheolaeth	28
Polisiâu Gosod Lleol	28
Cynlluniau Gosod Cytundeb Adran 106	29
Gosodiadau Sensitif	29
Rhan 5 Adolygu Penderfyniad a'r Weithdrefn Adolygu	
Yr hawl i gael adolygu penderfyniad	30
Adolygiad Panel y Grŵp Gweithredol	30
Rhan 6 Trefniadau Llywodraethu	
Grŵp Strategol Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd	32
Grŵp Gweithredol Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd	32
Atodiadau	
Atodiad 1 - Gosodiadau nad ydynt yn perthyn i gwmpas y cynllun hwn	33
Atodiad 2 - Ymgeiswyr Anghymwys - Personau o Dramor	35
Atodiad 3 - Ymgeiswyr Anghymwys - Ymddygiad Annerbyniol	37
Atodiad 4 - Math o Aelwyd a Gofynion Ystafell Wely	39
Atodiad 5 – Rhestr termau	41

RHAN 1 - CYFLWYNIAD

Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru wedi sefydlu partneriaeth o'r enw Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd (y "Bartneriaeth").

1.2 Pwrpas y Bartneriaeth yw cael cofrestr tai gyffredin gyda pholisi dyrannu cyffredin cysylltiol, yn cael ei gefnogi drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor effeithiol ac amserol i ymgeiswyr.

1.3 Mae'r dull hwn yn golygu:

- Un man i gael mynediad at dai cymdeithasol yng Ngwynedd
- Un cynllun dyrannu hawdd i'w ddeall ar gyfer pob gosodiad yng Ngwynedd
- Ymgeiswyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau tai sydd ar gael iddynt i ddiwallu eu hanghenion
- Dyrannu ein stoc tai cymdeithasol mewn modd teg, tryloyw, cyson a hygyrch.

Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin - Nodau ac amcanion

1.4 Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau ar gyfer cael mynediad at eiddo cymdeithasol ar rent, y cytunwyd arnynt gydag aelodau'r Bartneriaeth. Gelwir y cynllun dyrannu yn Bolisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd (y Polisi).

1.5 Y partneriaid yw:

- Cyngor Gwynedd
 - Cartrefi Cymunedol Gwynedd
 - Grŵp Cynefin
 - Tai Gogledd Cymru
- (y cyfeirir atynt fel "Partneriaid" neu'n unigol fel "Partner")

1.6 Bydd y Polisi a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn gymwys i bob gosodiad cymdeithasol yng Ngwynedd a wneir gan y Partneriaid (gosodiadau cymdeithasol yw gosodiadau tai cymdeithasol gan y Partneriaid ac eithrio gosodiadau a ddangosir yn Atodiad 1). Prif amcanion y polisi yw:

- Helpu i ddiwallu anghenion tai a materion tai lleol yng Ngwynedd
- Rhoi blaenoriaeth i'r rhai â'r angen mwyaf am dai a gyda'r cysylltiad cryfaf gyda'r ardal y maent yn gwneud cais amdano
- Yn hawdd i ymgeiswyr a staff ei ddeall
- Blaenoriaethu ymgeiswyr mewn amgylchiadau tebyg yn gyson
- Yn sicrhau bod pob ymgeisydd i gael ei ystyried gan yr holl ddarparwyr tai cymdeithasol trwy gyflwyno un cais yn unig
- Yn ystyried hoffterau personol ymgeiswyr cyn belled ag y bo modd
- Yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai
- Ystyried amgylchiadau lleol
- Darparu cyngor i ymgeiswyr am eu holl opsiynau tai

- Darparu cefnogaeth i ymgeiswyr i wneud cais yn unol â'r gofyn

1.7 Mae pob un o'r partneriaid Cymdeithasau Tai yn Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, ac mae gan bob un nodau elusennol. Mae amcanion elusennol pob un o'r Cymdeithasau Tai yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt roi llety i bobl sydd angen cymorth gyda thai a llety oherwydd caledi ariannol (oherwydd bod eu modd ariannol mor gyfyngedig na allant gael llety addas i'w anghenion ar y farchnad agored) neu oherwydd anghenion sy'n ymwneud â'u hoedran neu wendid.

Polisi Dyrannu Tai Cyffredin Gwynedd

1.8 Mae'r Polisi hwn yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn Rhan 6 Deddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002 a Deddf Tai (Cymru) 2014), gan roi blaenoriaeth resymol i'r ymgeiswyr hynny sydd fwyaf anghenus. Yn benodol, dylid ystyried y polisi hwn fel cynllun dyrannu Cyngor Gwynedd yn unol ag adran 167(1) Deddf Tai 1996. Mae hefyd yn ymgorffori'r prif nodau ac amcanion a amlinellir yn Strategaeth Tai Lleol Gwynedd.

1.9 Mae'r Polisi yn adlewyrchu angen tai drwy osod ymgeiswyr mewn un o bedwar band blaenoriaeth. Gellir gweld manylion ynghylch y ffordd mae'r bandiau hyn yn cael eu blaenoriaethu yn Rhan 3 isod.

1.10 Mae'r Polisi hefyd yn cynnwys (fel sy'n cael ei nodi yn Rhan 4 y polisi):

- Cynllun Gosod Lleol
- Cynllun Gosod Adran 106
- Gosodiadau Sensitif

1.11 Mae'r Polisi hefyd yn cynnwys manylion y trefniadau llywodraethu (fel y nodir yn Rhan 6 y polisi) i sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â rheolau'r polisi a bod y polisi yn cael ei wella mewn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd wrth ei roi ar waith a bod gwybodaeth am ganlyniadau gosod ar gael ac yn cael eu cyhoeddi.

Y fframwaith cyfreithiol

1.12 Mae Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002 a Deddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dyrannu llety gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

1.13 Bydd y Bartneriaeth yn sicrhau fod y Polisi'n cydymffurfio'n llawn gyda deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol. Bydd Cyngor Gwynedd yn cadw'r Gofrestr Dai ar ran y Bartneriaeth.

1.14 Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am nodi anghenion tai a darpariaeth o fewn y sir. Mae Polisi Cynllunio Cymru 2002 a Datganiad Polisi Cynllunio (MPPS) 01/2006 yn datgan "mae'n hanfodol fod awdurdodau lleol yn deall eu marchnad tai gyfan ac yn gallu datblygu dulliau cadarn er mwyn paratoi Cynlluniau Datblygu a strategaethau tai lleol". Mae cadw cofrestr tai gyffredin yn cyfrannu'n fawr at adnabod y galw a'r angen am dai cymdeithasol o fewn y sir.

1.15 Mae'n ofynnol i'r Polisi ystyried, ac mae eisoes wedi ystyried, darpariaethau "Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd" Llywodraeth Cymru (Rhifyn Mawrth 2016).

1.16 O dan adran 50 Deddf 2014 a pharagraff 3.8 y Cod, mae Cyngor Gwynedd ("Y Cyngor") yn datgan bod y Polisi yn gyson gyda'i strategaeth ddigartrefedd yn ei chyfanrwydd.

1.17 Mae'r Polisi hefyd wedi ystyried y Canlyniadau Cyflawni ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- Rydym yn cysylltu ag eraill i wella a chael y canlyniadau gorau posibl ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned
- Rydym yn gosod ein cartrefi mewn modd teg, tryloyw ac effeithiol

1.18 Mae'r Polisi hwn yn cydnabod yr angen i gael cydbwysedd wrth ddyrannu tai rhwng anghenion a dewisiadau'r ymgeiswyr, lles tenantiaid presennol a'r gymuned gyfan, a'r angen i wneud y defnydd gorau o adnodd sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus.

1.19 Mae'r Polisi hwn yn penderfynu ar flaenoriaethau a gweithdrefnau'r Bartneriaeth sydd i'w dilyn wrth ddewis teuluoedd i gael eu lletya gan y cymdeithasau tai sy'n aelodau o'r Bartneriaeth. Mae'r "weithdrefn" yn cynnwys pob agwedd o'r broses ddyrannu, gan gynnwys y bobl, neu ddisgrifiadau o bobl, sy'n gwneud penderfyniadau (yn unol ag adran 167 o Ddeddf 1996).

1.20 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol bod crynodeb o'r polisi dyrannu wedi'i gyhoeddi, ar gael am ddim os gwneir cais amdano. Mae'r Polisi ar gael i'w archwilio gan unrhyw un o'r partneriaid ac mae ar wefan pob un ohonynt.

1.21 Bydd y Polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn honno, neu i ymateb i unrhyw ddeddf achos sy'n effeithio ar weithredu'r Polisi.

1.22 Wrth fframio'r Polisi, bydd y Bartneriaeth hefyd yn sicrhau fod y polisiau a'r gweithdrefnau a fabwysiadir yn cydymffurfio â'r goblygiadau a osodir arnynt gan ddeddfwriaeth arall sy'n bodoli, yn ogystal â Rhan 6 o Ddeddf 1996, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diwygio Lles 2012
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996

- Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR yr Undeb Ewropeaidd (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
- Deddf Plant 2004 (yn benodol adran 11)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

1.23 Mae pob aelod o'r Bartneriaeth yn credu fod cymunedau cryfion yn ffynnu ac yn llwyddo pan fydd unigolion a grwpiau'n cael eu trin yn deg, gyda pharch, ac yn cael mynediad at hawliau a gwasanaethau. Nod y Bartneriaeth yw creu amgylchedd lle mae hyn yn bosibl a sicrhau fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i bopeth a wnânt.

1.24 Bydd y Bartneriaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy:

- Feithrin gwerthoedd o barch rhwng y naill ochr a'r llall, lle mae gan unigolion ymdeimlad o berthyn a lle y cânt eu hannog i gyfranogi a chael mynediad llawn at wasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.
- Cydnabod fod rhai unigolion ac ambell gymuned o dan gryn anfantais ac y byddant angen mwy o gydnabyddiaeth a chymorth i ymdrin â'u hanfanteision.

1.25 Nodau'r Bartneriaeth yw:

- Gwella cydlyniad cymdeithasol drwy hyrwyddo perthynas gadarnhaol ac ymdeimlad o gymuned a pherthyn - drwy leihau ofnau a thensiynau - yn enwedig o ran hil, anabledd, ffydd, cenhedlaeth, rhyw a materion rhywedd - drwy hyrwyddo gweledigaeth sy'n rhoi gwir werth i unigolion, grwpiau a chymunedau.
- Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldeb dinasyddiaeth. Bydd y Bartneriaeth a'i haelodau unigol yn gwneud hyn drwy sicrhau eu bod yn gwneud popeth posibl i ddarparu gwir arweinyddiaeth a chydymffurfio gyda dyletswyddau a thrwy weithredu i amddiffyn hawliau unigolion a grwpiau drwy sicrhau bod camddefnyddio, cam-drin neu wahaniaethau'n cael ei gydnabod a'i drin mewn modd priodol.

1.26 Mae'r Polisi yn cydymffurfio â Chynlluniau Cydraddoldeb y partneriaid i gyd. Mae hefyd wedi'i ddatblygu yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

1.27 Gofynnir cyfres o gwestiynau i bob ymgeisydd, fel rhan o'r broses ymgeisio er mwyn galluogi'r bartneriaeth i fonitro effaith y Cynllun ar yr agweddau canlynol ar gydraddoldeb:

- Oed
- Anabledd
- Newid rhyw
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

1.28 Os gwneir cais amdano bydd y cynllun ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau, er mwyn bodloni anghenion cyfathrebu holl aelodau'r gymuned.

laith

1.29 Bydd y Tîm yn cyfathrebu yn effeithiol yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu trefnu ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gallu cyfathrebu yn effeithiol naill ai yn y Gymraeg neu Saesneg. Lle mae'r ymgeisydd angen cymorth ychwanegol i gyfathrebu, gall y Tîm drefnu hwn ar eu rhan.

1.30 Mae'n ofynnol i'r Cyngor fodloni Safonau'r laith Gymraeg 2015, ac er nad oes rhaid i'r Partneriaid Cymdeithasau Tai wneud hynny, maen nhw'n bodloni'r Safonau yn wirfoddol.

Drafft Cabinet Cyngor Gwynedd

RHAN 2 YMGEISIO AM LETY

Gweithredu'r Gofrestr Tai

2.1 Bydd y Tîm Opsiynau Tai (y Tîm) o fewn Cyngor Gwynedd yn cadw'r Gofrestr Tai ar ran y Bartneriaeth ac yn delio gyda cheisiadau yn unol â'r polisi hwn.

2.2 Rhestr yw'r gofrestr tai o'r holl deuluoedd sydd ag angen o ran tai.

2.3 Mae'r gofrestr yn cael ei threfnu yn unol â'r polisi hwn. Mae teuluoedd sydd ar y gofrestr yn cael eu blaenoriaethu mewn bandiau yn unol ag angen a chysylltiad lleol, ac o fewn y bandiau trwy eu cyfnod yn preswyllo yn y gymuned a'r cyfnod aros am lety.

2.4 Bydd darparwyr tai gydag eiddo i'w osod yn mynd at y gofrestr i weld pa ymgeisydd sydd â'r angen mwyaf ac sydd wedi bod yn aros am y cyfnod hiraf.

2.5 Bydd y gofrestr yn cael ei chadw'n gyfredol. Bydd teuluoedd ar y gofrestr yn cael eu hadolygu bob 12 mis, neu ar newid mewn amgylchiadau. Bydd ymgeiswyr newydd yn ymuno â'r gofrestr ar ôl iddynt gwblhau eu cais.

2.6 Gall ymgeiswyr symud rhwng bandiau blaenoriaeth os oes newid mewn amgylchiadau.

2.7 Ni roddir unrhyw flaenoriaeth i ymgeiswyr sydd wedi'u hasesu ac nad ydynt ag angen o ran tai a heb gysylltiad â Gwynedd yn unol â'r meini prawf band. Ni fyddant yn cael eu gosod mewn band dyrannu nac yn cael eu derbyn ar y gofrestr tai.

2.8 Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi'u derbyn ar y gofrestr oherwydd ar ôl eu hasesu dyfarnwyd nad ydynt ag angen o ran tai ond mae ganddynt gysylltiad â Gwynedd, ymgeisio am leoedd gwag lle nad oes galw am dai gan ymgeiswyr ar y gofrestr. Bydd darparwyr tai yn hysbysebu lleoedd gwag o'r fath a byddant ar gael ar wefan y Cyngor fel eiddo Ar Gael i'w Gosod. Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi'u derbyn ar y gofrestr ail-ymgeisio ar unrhyw adeg os yw eu hamgylchiadau'n newid.

2.9 Darperir gwybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu â'r Tîm trwy Wynedd i gyd, yn swyddfeydd y Cyngor, yn swyddfeydd aelodau'r Bartneriaeth ac mewn amrediad o leoliadau eraill. Bydd manylion ar gael hefyd ar wefan y Cyngor a darperir dolenni i dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor ac ar wefannau aelodau'r Bartneriaeth.

Opsiynau Tai

2.10 Bydd y Tîm yn darparu cyngor opsiynau tai wrth ymdrin ag ymholiadau. Gall hyn gynnwys cyngor a gwybodaeth ar yr opsiynau canlynol sydd ar gael i deuluoedd ag angen llety:

- Prynu cartref, gan gynnwys perchnogaeth cartref cost isel
- Cynlluniau tai fforddiadwy
- Cynlluniau Rhent Canolradd
- Llety preifat ar Rent

- Tai Cymdeithasol (gan gynnwys tai gwarchod, tai gofal ychwanegol a thai â chymorth)
- Rhannu tŷ a chynlluniau ystafelloedd sbâr
- Safleoedd Sipsi a Theithwyr gyda lleiniau parhaol
- Addasiadau i eiddo i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi presennol (lle bo hynny'n bosibl)
- Cyngor i ddarganfod llety arall addas e.e. lle mae'r cartref presennol yn orlawn neu yn cael ei dan-feddiannu neu le nad yw'r cartref bellach yn addas ar gyfer pobl gydag anabledd
- Cyfnewid y naill i'r llall ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol presennol
- Cynlluniau gwella cartrefi a gwasanaethau addasiadau sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi presennol
- Cyngor ar chwilio am gymorth i'r rhai sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.

2.11 Mae Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd wedi cynhyrchu llyfryn o'r enw 'Eich Opsiynau Tai' sy'n rhoi manylion am y cyfleoedd o ran tai eraill sydd ar gael yng Ngwynedd. Mae copi ar gael drwy wneud cais amdano neu ar wefan y Cyngor a gwefannau partneriaid.

2.12 Bydd ymgeiswyr yn derbyn gwybodaeth am y broses ddyrannu a sut y caiff cartrefi eu dyrannu. Bydd y rheini sy'n dymuno gwneud cais am eiddo cymdeithasol yn derbyn cyngor ynghylch y canlynol:

- A ydynt yn debygol o gael blaenoriaeth am eiddo
- A fydd yr eiddo sy'n addas i'w anghenion yn debygol o ddod ar gael yn yr ardaloedd o'u dewis

2.13 Os ydi'r Tîm yn credu y gall fod yr ymgeisydd yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref, yna bydd y Cyngor yn gwneud yr ymholiadau angenrheidiol i sefydlu a oes arno ddyletswydd tuag at yr ymgeisydd o dan Ran 2 Deddf 2014 (deddfwriaeth ddigartrefedd).

2.14 Bydd unrhyw unigolyn sy'n ceisio cymorth gan Gyngor Gwynedd o dan Ran 2 Deddf 2014 (y darpariaethau digartrefedd) yn cael eu cyfeirio at y Tîm i gwblhau cais. Ym mhob achos o'r fath bydd eu cais sydd wedi'i gwblhau yn cael ei asesu i ganfod a ydynt yn gymwys i gael eu cynnwys ar y Gofrestr.

Y Gofrestr Dai - Proses Ymgeisio

2.15 Ymdrinnir â cheisiadau'r holl ymgeiswyr yn gyfrinachol.

2.16 I wneud cais i ymuno â'r Gofrestr Tai rhaid i bob ymgeisydd gwblhau cais neu ymgeisio ar-lein drwy ymweld â gwefan y Cyngor.

2.17 Bydd yr holl geisiadau wedi'u cwblhau yn cael eu hasesu gan y Tîm.

Pwy all Ymgeisio?

2.18 Gall unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn wneud cais i'r Tîm er mwyn cael ymuno â'r Gofrestr Tai, naill ai fel yr unig denant neu gyd-denant. Os yw'r ymgeisydd o dan 18 mlwydd oed, rhaid rhoi enw a chyfeiriad ymddiriedolwr (gweler paragraffau 2.23 – 2.25 isod).

Pobl sy'n anghymwys i ymuno â'r Gofrestr Tai

2.19 O dan Ddeddf 1996 rhaid i awdurdodau lleol ystyried a yw ymgeiswyr yn gymwys am gymorth o ran tai. Caiff pob ymgeisydd a'u haelodau teulu eu dilysu i sicrhau eu bod yn gymwys i gael eiddo cymdeithasol. Dangosir y categorïau hynny o ymgeiswyr sy'n cael eu dosbarthu fel anghymwys ac nad ydynt yn gallu ymuno â'r Gofrestr Tai yn fanwl yn Atodiadau 2 a 3.

2.20 Ni fydd ceisiadau gan ymgeiswyr anghymwys yn cael eu cofrestru. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u hunaniaeth a'u hymddygiad blaenorol a bydd angen rhoi caniatâd i'r Tîm allu gwneud yr ymholiadau angenrheidiol i benderfynu ar gymhwysedd. Yn gyffredinol, mae ymgeiswyr anghymwys yn rhannu'n ddau gategori:

- Pobl yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo ac eraill o dramor heb ganiatâd parhaol i aros yn y DU (gweler Atodiad 2)
- Y bobl hynny sydd wedi gweithredu yn y gorffennol mewn modd annerbyniol (gweler Atodiad 3)

Dim anghenion tai

2.21 Ni fydd ymgeiswyr heb angen am dai (fel y pennwyd yn unol â pharagraff 3.40 isod) a heb gysylltiad â Gwynedd (fel y pennwyd yn unol â pharagraffau 3.11 - 3.13 isod) yn cael eu gosod yn unrhyw rai o'r bandiau blaenoriaeth. Ni fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu cofrestru.

Ceisiadau Trosglwyddo

2.22 Mae'r polisi hwn yn gymwys i denantiaid cymdeithasol presennol sy'n ceisio trosglwyddo i lety arall. Bydd gofyn i denantiaid cymdeithasol presennol sy'n dymuno symud, ymgeisio ar gyfer dyraniad newydd drwy'r gofrestr. Mae'r un rheolau am angen o ran tai yn gymwys i bennu eu blaenoriaeth.

Ymgeiswyr 16 ac 17 mlwydd oed

2.23 Ni all ymgeiswyr 16 neu 17 mlwydd oed ddal tenantiaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Lle mae ymgeisydd unigol o dan 18 mlwydd oed, neu os yw cyd-ymgeiswyr yn ddau sydd o dan 18 mlwydd oed, bydd angen iddo / iddi / iddynt ddarparu manylion oedolyn (rhywun dros 18 mlwydd oed) sy'n barod i fod yn Ymddiriedolwr.

2.24 Mae ymddiriedolwr yn dal tenantiaeth ar ymddiriedaeth ar gyfer y person ifanc nes y byddant yn troi'n 18, ac maen nhw o dan rwymedigaeth i ofalu am y denantiaeth. Ar ben-blwydd y person ifanc yn 18, byddant yn llwyr gyfrifol am y

denantiaeth. Bydd angen i'r darparwr tai wirio bod darpar Ymddiriedolwr (person neu sefydliad) yn gallu fforddio i dderbyn y rôl honno a bydd yn sicrhau eu bod wedi cael cyngor i geisio cyngor annibynnol am y cyfrifoldeb maen nhw'n ei dderbyn.

2.25 Os nad oes modd i'r ymgeisydd ddarparu Ymddiriedolwyr, efallai bydd y darparwr tai yn gwrthod cynnig tenantiaeth. Caiff ymgeiswyr ifanc eu cynghori am hyn pan gynhelir eu hasesiad opsiynau tai.

Cyfamod y Lluoedd Arfog

2.26 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog, ac mae copi ar gael yn www.gwynedd.llyw.cymru. Yng nghyd-destun y polisi hwn, mae hyn yn golygu y bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd yn cael eu trin â thegwch a pharch.

Ymgeiswyr heb gyfeiriad sefydlog

2.27 Gall ymgeiswyr nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog ofyn i ohebiaeth am eu cais gael ei yrru i gyfeiriad arall 'dan ofal'. Os nad oes cyfeiriad arall ar gael bydd y Tîm yn dal ar yr ohebiaeth ac yn gwneud ymdrech rhesymol i gysylltu â'r ymgeisydd i'w hysbysu fod gohebiaeth angen ei yrru iddo/iddi ac i gytuno ar drefn i rannu'r ohebiaeth.

Ymgeiswyr Sipsiwn a Theithwyr

2.28 Gall teuluoedd sy'n Sipsiwn, Teithiwr Gwyddelig neu Deithwyr eraill, yn ychwanegol at y Gofrestr Tai, ymgeisio i gael eu cynnwys ar gyfer lleiniau parhaol ar safle dynodedig y Cyngor ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yng Ngwynedd yn cael ei darparu yn ystod y cyfweiliad Opsiynau Tai.

Dogfennaeth angenrheidiol

2.29 Mae angen dogfennaeth gan yr ymgeiswyr i sicrhau cywirdeb, ac ar gyfer asesu'r cais. Os nad yw'r wybodaeth gywir yn cael ei darparu, gall hyn olygu oedi gyda'r cais yn cael ei gofrestru.

2.30 Lle nad oes modd cofrestru ceisiadau oherwydd diffyg gwybodaeth, caiff cais am wybodaeth ychwanegol ei anfon i'r ymgeisydd. Os ydi'r ymgeisydd yn methu dychwelyd yr wybodaeth y gofynnwyd amdano o fewn 14 diwrnod, ni fydd y cais gwreiddiol yn cael ei gofrestru a hysbysir yr ymgeisydd yn ysgrifenedig. Mae enghreifftiau o ddogfennau y gallai fod eu hangen er mwyn gwirio hunaniaeth ac amgylchiadau ar gael gan y tîm ac yn cael eu darparu yn y broses ymgeisio.

2.31 Pan fo'n rhesymol ofynnol i'r Tîm ofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu gorff arall er mwyn ystyried a phrosesu'r cais, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw gydsyniad angenrheidiol i ddatgelu'r wybodaeth. Os bydd yr ymgeisydd yn gwrthod rhoi caniatâd neu'n methu â'i ddarparu o fewn 14 diwrnod ar ôl cael y cais

amdano, ni fydd y cais yn cael ei gofrestru a rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am hyn yn ysgrifenedig.

2.32 Bydd Ymgeiswyr yn cael eu hysbysu y gallai'r Tîm fod mewn cyswllt â sefydliadau eraill yn ystod yr holl broses.

Hysbysiad o benderfyniad

2.33 Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am:

- P'un a ydynt wedi eu derbyn ar y gofrestr ai peidio, ac
- Os ydynt wedi'u derbyn, pa fand blaenoriaeth maen nhw ynddo fel arfer o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol. Bydd y llythyr hefyd yn rhoi manylion am y canlynol:
 - Rhif cyfeirnod cais
 - Dyddiad y cais, dewis o ardaloedd a mathau o eiddo

2.34 Bydd ymgeiswyr nad ydynt wedi'u derbyn ar y gofrestr yn cael eu hysbysu o hyn yn ysgrifenedig, gan gynnwys y rhesymau pam bod eu cais yn aflwyddiannus. Bydd ymgeiswyr sy'n cael llai o flaenoriaeth neu ddim blaenoriaeth oherwydd ymddygiad annerbyniol yn cael gwybod pam.

2.35 Rhaid i'r Tîm ystyried p'un a oes rhesymau dros gredu y gallai'r ymgeisydd ei chael hi'n anodd deall goblygiadau'r penderfyniad ac os felly, dylid ystyried p'un a ddylai'r penderfyniad a'r rhesymau drosto hefyd gael eu cyfleu yn bersonol i'r ymgeisydd.

Adolygiad o benderfyniad mewn perthynas â chais am dai

2.36 Mae gan ymgeisydd hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad a wnaed os yw'r Tîm yn penderfynu:

- Fod yr ymgeisydd yn anghymwys am ei fod yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo
- Bod yr ymgeisydd yn berson anghymwys o dramor
- Bod yr ymgeisydd yn cael ei drin fel anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol
- Y rhoddir llai o flaenoriaeth i ymgeisydd a'i osod ym Mand 3
- Canslo'r cais am wrthod cynnig rhesymol am lety am yr ail waith

2.37 Bydd gan ymgeiswyr 28 diwrnod i ofyn am adolygiad o benderfyniad ac i gyflwyno gwybodaeth newydd yn ogystal ag unrhyw gynrychioliadau i gefnogi'r adolygiad hwnnw. Yn ystod yr amser hwn byddant yn cael eu hatal dros dro o'r gofrestr. Mae manylion am hawl ymgeisydd i adolygiad a'r weithdrefn i'w dilyn wedi'u cynnwys yn Rhan 5 y Polisi.

Cwynion am y gwasanaeth

2.38 Dylai unrhyw ymgeisydd sy'n anhapus am y modd y mae'r Tîm wedi trin eu cais, neu ymddygiad staff, gyflwyno cwyn yn unol â Threfn Gwyno'r Cyngor.

2.39 Bydd unrhyw gŵyn arall am wasanaeth, megis penderfyniad gosod, ymddygiad staff cymdeithas tai yn cael sylw drwy drefn gwyno'r gymdeithas dai perthnasol.

Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol

2.40 O dan Ddeddf 1996 mae'n drosedd i unrhyw un roi gwybodaeth ffug yn fwriadol neu i gelu gwybodaeth berthnasol, ar unrhyw fater yn ymwneud â gosod llety. Mae gan ymgeiswyr ddyletswydd i hysbysu ynghylch unrhyw newid mewn amgylchiadau, felly gallent fod yn euog o ddarparu gwybodaeth anwir trwy fethu â diweddarau'r Tîm pan fo eu hamgylchiadau wedi newid. Gallai ymgeiswyr a ystyrir eu bod yn darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, neu'n dal gwybodaeth yn ôl gael gostyngiad yn eu blaenoriaeth yn unol â pharagraff 3.43 neu gellir eu hystyried yn anghymwys am dai ar y sail bod ymddygiad o'r fath yn ymddygiad annerbyniol yn unol ag Atodiad 3.

2.41 Pe byddai ymgeisydd yn llwyddo i gael tenantiaeth gan un o aelodau'r Bartneriaeth drwy wneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid neu drwy ddal gwybodaeth yn ôl yna byddai hawl gan y Gymdeithas Tai i adennill meddiant o'r eiddo yn unol â sail 17 o Atodlen 2, Deddf Tai 1998. Mewn rhai achosion, gall hyn hefyd arwain at erlyniad troseddol ac os yn euog, dirwyon sylweddol.

Darparu gwybodaeth i ymgeiswyr

2.42 Bydd y Tîm yn darparu'r wybodaeth ganlynol i bob ymgeisydd am eiddo cymdeithasol:

- Nifer, math a maint y cartrefi sy'n eiddo i aelodau'r Bartneriaeth ym mhob cymuned yng Ngwynedd, ble maent wedi datgan yr hoffent fyw
- Amllder y daw pob math a maint o eiddo ar gael i'w osod ym mhob cymuned ble maent wedi datgan yr hoffent fyw
- Nifer o eiddo sydd wedi dod ar gael o'r blaen ar gyfer gosod ym mhob ardal yn ystod y flwyddyn flaenorol
- Pa fand blaenoriaeth a oedd gan yr ymgeisydd llwyddiannus, a
- Pha mor hir yr oedd yn rhaid iddynt aros yn y band hwnnw cyn y gosodwyd eiddo iddynt, ac iddynt dderbyn y cynnig.

2.43 Bydd yr wybodaeth ar gael yn www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol ac yn cael ei ddiweddarau o dro i dro.

Dewis o ardaloedd a mathau o eiddo

2.44 Gall ymgeiswyr ddewis ardaloedd o fewn Gwynedd yr hoffent gael eu cartrefu ynddynt, gallant hefyd ddewis y math o eiddo sydd ei angen arnynt a nifer yr ystafelloedd gwely yr hoffent gael eu hystyried ar eu cyfer. Gallant hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf a diwygio eu dewisiadau drwy gysylltu â'r Tîm.

2.45 Fodd bynnag, ceir canllaw i anghenion yr ystafelloedd gwely ar gyfer gwahanol fathau o deuluoedd yn Atodiad 4 a dylid nodi na all ymgeiswyr ddewis eiddo i unrhyw faint, dim ond y rhai sy'n cyfateb i faint eu teulu, fel sy'n cael ei nodi yn yr Atodiad a/neu sy'n fforddiadwy.

2.46 Dylid nodi hefyd y gall y Partneriaid fod â'u meini prawf gosod eu hunain. O dan y meini prawf hyn, gallant benderfynu (ymhlith pethau eraill) y cyfansoddiad teuluol ar gyfer eiddo gwag unigol fel rhan o'r broses ailosod i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o bob eiddo o ran maint yr eiddo a maint teulu'r darpar denant; er enghraifft, i sicrhau na fyddai eiddo yn rhy wag neu'n orlawn, neu sicrhau fod plant o oedran addas yn byw mewn fflat (nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr). Gall hyn olygu na fyddai rhai ymgeiswyr yn derbyn cynnig y math o eiddo y maent yn ddelfrydol wedi ei ddewis.

2.47 Dylai ymgeiswyr ddewis ardaloedd maen nhw eisiau byw ynddynt o ddifrif yn unig. Os gwrthodir un cynnig rhesymol, rhoddir llai o flaenoriaeth i'r cais. Os bydd dau gynnig tai rhesymol yn cael eu gwrthod bydd y cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai ac ni fydd yn gymwys i ail-ymgeisio i fynd ar y Gofrestr am chwe mis. Mae modd i ymgeisydd ddi-ystyrru lleoliad oddi fewn ardal o'i dewis cyn belled a'i bod yn rhoi rheswm dilys dros wneud hynny.

2.48 Bydd disgrisiwn gan y Tîm i ychwanegu ardal, math o eiddo, dyluniad eiddo a nifer ystafelloedd gwely lle mae'n rhesymol i wneud hynny. Bydd y Tîm yn ymdrechu i wneud hyn wedi trafodaeth a chaniatâd yr ymgeisydd cyn belled a bod hynny'n ymarferol bosibl. Gall hyn ddigwydd er enghraifft mewn achosion fel:

- Lle mae dyletswydd ddigartrefedd i'r ymgeisydd ac i alluogi'r Cyngor ddod â'i ddyletswydd i ben
- Lle mae angen am dŷ hygyrch neu dŷ wedi'i addasu
- Lle mae gwendid penodol neu aciwt yn yr aelwyd
- Lle mae angen penodol am wasanaethau arbenigol

2.49 Mewn achosion lle mae dyletswydd yn ddyledus gan y Cyngor i ymgeisydd o dan adrannau 66, 73 neu 75 Deddf 2014, bydd y Tîm yn cysylltu gyda'r Adran Digartrefedd i gadarnhau pa gyfuniad o ardal, math o eiddo a nifer o ystafelloedd gwely a ystyrir yn addas ar gyfer y cartref ac sy'n rhesymol i ddwyn dyletswydd y Cyngor i ben.

2.50 Os caiff ymgeiswyr eu cynnwys ar y Gofrestr Tai efallai y byddant yn cael cynnig tenantiaeth ag unrhyw un o'r landlordiaid partner.

Diweddarau cais yn rheolaidd

2.51 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw diweddarau eu gwybodaeth. Rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r Tîm, er enghraifft:

- Os ydyn nhw'n newid eu manylion cyswllt: rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost
- Os ydynt yn symud tŷ
- Os oes unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau tai, cyflwr meddygol neu unrhyw amgylchiadau personol eraill
- Os oes rhywun yn gadael neu yn ymuno â'u teulu
- Os oes newid yn eu hamgylchiadau ariannol
- Os oes newid yn eu statws mewnffudo

2.52 Ar ôl derbyn y wybodaeth, bydd y cais yn cael ei ail-asesu. Mewn rhai amgylchiadau bydd angen gwybodaeth bellach i gefnogi neu ddilysu eu newid mewn

amgylchiadau ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei ddarparu. Pan fo cofrestriad ymgeisydd yn cael ei addasu o ganlyniad, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad yn unol â pharagraffau 2.33. Os bydd paragraff 2.34 yn gymwys, bydd gan yr ymgeisydd hawl i gael adolygiad.

Diweddarau'r gofrestr - adolygu cais bob 12 mis

2.53 Bydd pob cais ar y gofrestr yn destun adolygiad bob 12 mis. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal oddeutu 12 mis ar ôl y dyddiad pan gafodd y cais ei gofrestru a phob deuddeg mis ar ôl hynny.

2.54 Lle mae ceisiadau yn cael eu hadolygu gan y Tîm, cysylltir â'r ymgeiswyr i gadarnhau eu bod yn parhau mewn angen o ran tai a bod eu gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Bydd manylion y rheini sydd ag angen o ran tai yn cael eu gwirio a bydd eu band blaenoriaeth yn cael ei adolygu.

2.55 Gall ymgeiswyr sy'n methu ymateb o fewn 14 diwrnod i'r adolygiad 12 mis gael eu tynnu o'r gofrestr.

Canslo ceisiadau oddi ar y gofrestr

2.56 Gall ymgeiswyr gael eu tynnu oddi ar y gofrestr:

- Os nad ydynt mewn sefyllfa i gymryd cynnig o lety yn y dyfodol agos, e.e. oherwydd eu bod yn yr ysbyty, dalfa neu sefydliad ac yn debygol o fod yno am fwy na chyfnod byr
- Os ydynt wedi gwrthod 2 gynnig rhesymol o lety
- Os nad ydynt yn ateb i lythyr adolygu cais o fewn 14 diwrnod
- Os ydynt wedi gofyn am ddiddymu eu cais
- Os ydynt wedi'u hail-gartrefu - wedi derbyn cynnig am lety o'r gofrestr tai
- Os ydynt yn symud tŷ heb hysbysu'r Tîm o'u cyfeiriad newydd
- Mmewn achos cais a wneir gan unigolyn sengl, pan fydd yn marw
- Mewn achosion o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu gelu'r wybodaeth ofynnol
- Pe gellir dod i'r casgliad yn rhesymol o dan yr amgylchiadau bod yr ymgeisydd yn dymuno tynnu eu cais am lety yn ôl

Caiff achosion o'r fath eu hystyried ar sail unigol ac ar sail yr wybodaeth a ddarperir.

2.57 Hysbysir ymgeiswyr yn ysgrifenedig o'r penderfyniad i'w diddymu o'r gofrestr. Mae ganddynt hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad o fewn 28 diwrnod, a bydd manylion ar sut i wneud hynny yn cael ei nodi yn y llythyr penderfyniad ac o set fewn Rhan 5 i'r Polisi.

RHAN 3 BLAENORIAETHU YMGEISWYR AM LETY

Cyflwyniad

3.1 Yn unol ag adran 167 Deddf 1996, rhoddir "blaenoriaeth resymol" i rai grwpiau o ymgeiswyr. Rhain yw:

- Pobl sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf 2014.
- Pobl y mae gan yr awdurdod tai ddyletswydd iddynt o dan adrannau 66, 73 a 75 o Ddeddf 2014
- Pobl sy'n byw mewn tai heb gyfleusterau glanweithiol neu dai gorlawn neu fel arall yn byw mewn tai gydag amodau anfoddfaol
- Pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les
- Pobl sydd angen symud i ardal benodol yn y rhanbarth yr awdurdod tai, lle byddai methiant i wneud hynny yn achosi caledi iddynt hwy neu eraill

3.2 Mae Rhan 6 o Ddeddf 1996 yn galluogi pob Awdurdod Tai i ddefnyddio eu disgrisiwn wrth fframio ei bolisi mewn modd fel y bydd yn:

- Rhoi blaenoriaeth ychwanegol i deuluoedd sydd angen tai ar frys
- Penderfynu ar flaenoriaethau rhwng ymgeiswyr ar sail y ffactorau canlynol:
 - Adnoddau ariannol
 - Ymddygiad yr ymgeisydd neu unrhyw un ar ei aelwyd
 - Cysylltiad ymgeisydd gyda'r ardal

3.3 Mae'r polisi hwn wedi'i seilio ar yr egwyddor y bydd eiddo gwag yn cael ei ddyrannu i ymgeiswyr cymwys sydd ag angen o ran tai, gyda'r teuluoedd cymwys sydd â chysylltiad â Gwynedd a'r rhieni sydd wedi aros hiraf i gael blaenoriaeth.

3.4 Nid yw'r polisi hwn yn ystyried angen cronrus. Bydd ymgeiswyr yn cael eu gosod ar y band sy'n cyfateb orau i'w hasesiad o anghenion tai.

Y Cynllun Bandio

3.5 Mae'r polisi yn defnyddio system bandio i flaenoriaethu ymgeiswyr yn unol â'u hamgylchiadau.

3.6 Mae'r cynllun bandio yn cynnwys pedwar band, o un i bedwar mewn trefn ddisgynnol o ran blaenoriaeth.

Bandiau Blaenoriaeth

Band	Graddfa o Angen Tai
1	a. Ymgeiswyr mewn Angen Tai Brys â chysylltiad Gwynedd
	b. Ymgeiswyr mewn Angen Tai Brys (heb gysylltiad Gwynedd)

2	Ymgeiswyr mewn Angen Tai â chysylltiad Gwynedd
3	Ymgeiswyr mewn Angen Tai heb gysylltiad Gwynedd ac Ymgeiswyr gyda blaenoriaeth is
4	Ymgeiswyr heb angen tai gyda cysylltiad Gwynedd.

3.7 Ni chaiff ceisiadau heb angen tai a heb gysylltiad â Gwynedd eu cynnwys yn unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth. Ni fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu cofrestru.

3.8 Bydd y band y mae ymgeisydd yn cael ei osod ynddo, yn dibynnu ar eu hangen tai ac a oes ganddynt gysylltiad â Gwynedd neu beidio.

3.9 Caiff eiddo eu gosod yn y lle cyntaf i ymgeiswyr ym Mand 1. Os nad oes ymgeiswyr cymwys ym Mand 1, bydd yr eiddo yn cael ei osod i ymgeisydd ym Mand 2 ac felly ymlaen. Bydd y broses hon yn cael ei hailadrodd drwy bob band hyd i'r eiddo gwag gael ei osod.

3.10 Gall blaenoriaeth newid wrth i amgylchiadau newid, fel bod modd symud ymgeiswyr rhwng bandiau. Pan fo cais yn symud i fyny i fand blaenoriaeth uwch, dyddiad y symudiad hwnnw fydd y dyddiad perthnasol sy'n penderfynu ar eu safle yn y band yn unol â pharagraff 3.13 isod. Mae hyn i gydnabod y bydd ymgeiswyr eisoes yn disgwyl am gael eu hail-gartrefu yn y band blaenoriaeth uwch. Os yw ymgeisydd yn cael ei symud i fand gyda blaenoriaeth is, dyddiad eu cais gwreiddiol fydd y dyddiad perthnasol.

Cysylltiad Gwynedd

3.11 Mae cysylltiad Gwynedd (fel sy'n cael ei ddiffinio isod) yn berthnasol i geisiadau sy'n ymddangos ym Mand 1a, Band 2, Band 3 a Band 4.

3.12 Crëir cysylltiad Gwynedd pan fo'r ymgeisydd neu aelod o'r cartref (rhywun sydd fel arfer yn byw gyda'r ymgeisydd fel rhan o'u haelwyd):

- Wedi bod yn byw yng Ngwynedd am 5 mlynedd (ar unrhyw adeg)
- Pan fo ganddynt gysylltiadau teuluol yng Ngwynedd. Bydd cysylltiad teuluol fel arfer yn codi lle mae'r ymgeisydd neu aelod o'r teulu gyda rhiant, oedolyn sy'n blentyn, brawd neu chwaer sy'n byw yn ardal yr Awdurdod Lleol, ac wedi gwneud hyn am o leiaf 10 mlynedd, ar ddyddiad y gwnaed y cais. Rhaid i'r ymgeisydd a'r perthynas sy'n preswyllo'n lleol nodi a ydynt yn dymuno byw wrth ymyl ei gilydd
- Yn darparu cymorth neu yn derbyn cymorth gan berson neu ddarpariaeth arbenigol yn ardal yr awdurdod lleol
- Mae wedi bod mewn cyflogaeth yng Ngwynedd ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf
- Wedi cael cynnig swydd yn ardal Gwynedd ond gydag anabledd ac nid oes modd iddynt dderbyn y cynnig oherwydd anhawster canfod llety hygyrch digonol yn yr ardal

- Angen symud i Wynedd fel y gall aelod o'i aelwyd sydd ag anabledd fynychu ysgol neu gael cymorth arbenigol ond nid ydynt yn gallu gwneud hynny oherwydd yr anhawster i ddod o hyd i dai hygyrch digonol yn yr ardal. Rhaid i'r angen fod o ganlyniad i'r anabledd, a rhaid dangos yr angen i symud i Wynedd
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yng Ngwynedd
- Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, nad yw mewn cyflogaeth neu'n byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd a wasanaethodd yng Ngwynedd tra'r oedd yn y Lluoedd

3.13 O fewn pob band lle mae cysylltiad â Gwynedd yn berthnasol bydd ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu fel a ganlyn:

- Ymgeiswyr, neu aelodau'r teulu, wedi preswyllo 5 mlynedd neu fwy yn ardal Cyngor Cymuned ymhle y mae'r eiddo sydd i'w osod wedi'i leoli. Bydd pob cais wedyn yn ymddangos yn ôl trefn dyddiad, gyda'r cais â'r dyddiad cofrestru (neu ddyddiad perthnasol) cynharaf yn cael ei ystyried gyntaf, ac felly ymlaen.
- Os nad oes unrhyw un o'r ceisiadau yn cyflawni'r meini prawf uchod, bydd ceisiadau lle mae'r ymgeisydd wedi preswyllo llai na 5 mlynedd (neu heb breswyllo o gwbl) yn ardal y Cyngor Cymuned lle mae'r eiddo sydd i'w osod wedi'i leoli yn cael eu hystyried. Bydd pob cais wedyn yn ymddangos yn ôl trefn dyddiad, gyda'r cais â'r dyddiad cofrestru (neu ddyddiad perthnasol) cynharaf yn cael ei ystyried gyntaf, ac felly ymlaen.
- Mewn rhai amgylchiadau gall ymgeiswyr sydd ddim wedi byw mewn cymuned gyfagos gario eu preswyliaeth i gymuned arall. Gall hyn ddigwydd dim ond pan fo angen llety arbenigol nad yw ar gael yn eu cymuned bresennol ac mae ar gael mewn cymuned gyfagos. Byddai llety arbenigol yn cynnwys tai gwarchod, tai hygyrch neu dai sy'n darparu gwasanaeth penodol ac arbenigol.

Anghenion tai brys

3.14 Bydd ymgeiswyr ag angen tai brys yn cael eu rhoi naill ai ym Mand 1a (gyda chysylltiad â Gwynedd) neu Fand 1b (heb unrhyw gysylltiad â Gwynedd). Bydd angen tystiolaeth yn yr achosion hyn i ddangos dilysrwydd y cais.

3.15 **Anghenion Tai Brys** Ystyrir y bydd gan ymgeisydd angen brys am dai os yw ef/hi neu aelod o'r aelwyd yn syrthio dan un o'r categorïau canlynol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

3.16 **Yn ddigartref oherwydd camdriniaeth neu gamdriniaeth debygol ag angen ail-gartrefu ar frys.** Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl sy'n ddigartref ac sydd â dyletswydd yn ddyledus iddynt o dan adran 75 y Ddeddf a lle:

- Maen nhw'n ddigartref o ganlyniad i gamdriniaeth yn ôl adran 58 (1), Deddf 2014. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi profi camdriniaeth yn y cartref, neu y tu allan i'r cartref, a'r rhai fydd mai'n debyg yn profi camdriniaeth, pe byddent yn aros yn eu llety
- Pobl sydd wedi bod yn dargedau troseddau casineb (hynny yw, trosedd ddifrifol neu dreisgar a ysgogwyd gan elyniaeth neu ragfarn ar anabledd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd gwirioneddol neu ganfyddedig y dioddefwr)

- Tystion trosedd neu ddiodefwyr troseddau sydd mewn perygl o fygythiadau sy'n arwain at drais neu fygythiadau o drais os ydynt yn aros yn eu cartref
- Noder na fydd y cymal yma yn destun prawf cysylltiad lleol gyda Gwynedd ac y bydd ceisiadau sydd yn bodloni'r cymal yma yn ymddangos ym Mand 1a (yn ddarostyngedig i unrhyw faterion a fyddai yn rhoi'r cais ym Mand 3)

3.17 Angen meddygol, lles neu anabledd brys. Ymgeiswyr lle mae'u teulu yn cynnwys rhywun sydd:

- Â chyflwr meddygol sy'n peryglu bywyd neu gyflwr sy'n debygol o beryglu bywyd, ac sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflwr eu llety ac sy'n debygol o wella ag ail-gartrefu
- Wedi'i asesu gan yr ymarferydd perthnasol fel gydag angen i symud ar frys i eiddo hygrych
- Gyda salwch corfforol neu feddyliol difrifol, anabledd, gyflwr neu anhwylder ymddygiad sy'n peri trafferthion i'w hunain neu'r uned deulu fel nad oes modd iddynt ymdopi o gwbl yn eu llety presennol a byddai ail-gartrefu yn lleddfu'r broblem. Er enghraifft, salwch terfynol neu gynyddol
- Yn yr ysbyty ac yn methu dychwelyd i'w cartref oherwydd ei fod yn gwbl anaddas ar gyfer eu hanghenion yn y tymor-hir oherwydd y modd y dyluniwyd, lleoliad a/neu'n addas ar gyfer addasiadau anabledd
- Yn anabl neu'n methu cael mynediad at gyfleusterau hanfodol o fewn yr eiddo e.e. ymolchi neu doiled neu fynediad i'r eiddo ei hun sy'n gwbl anaddas. Nid yw'n rhesymol ac ymarferol i addasu'r eiddo i ddiwallu eu hanghenion
- Angen symud i ddarparu cymorth i berthynas neu berson â salwch, anabledd neu gyflwr meddygol difrifol a gall y person hwnnw ymdopi yn eu llety presennol dim ond gyda chymorth yr ymgeisydd
- Yn byw mewn llety gorlawn sy'n golygu bod person yn agored i haint difrifol

3.18 Gadael y Lluoedd Arfog:

- Aelod o'r Lluoedd Arfog a fydd yn ddi-gartref ar ôl cael ei ryddhau
- Aelod o deulu'r ymgeisydd angen symud i lety addas sydd wedi'i addasu oherwydd niwed difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd a gafodd o ganlyniad i wasanaeth yn y Lluoedd Arfog

3.19 Ymgeiswyr sydd wedi mewn llety â chymorth gan ddarparwr achrededig lle mae modd i'r ymgeisydd gynnal tenantiaeth yn annibynnol (tybir ei fod yn barod i 'symud ymlaen')

3.20 Person ifanc yn gadael gofal yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn ystod y 2 flynedd flaenorol ond lle mae dyletswyddau gofal yr awdurdod lleol tuag atynt yn parhau.

3.21 Achosion brys lle mae'r teulu angen mynediad i lety cymdeithasol i atal plentyn rhag cael ei gymryd i ofal/parhau mewn gofal. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Rhieni maeth sydd angen llety ar frys i gymryd plentyn
- Lle mae cynllun gofal y plentyn yn canfod yr angen am lety i atal plentyn rhag mynd i ofal yr Awdurdod (er enghraifft, plant mewn angen/ plant sy'n derbyn gofal/amddiffyn plant)

3.22 Tenantiaid cymdeithasol presennol yng Ngwynedd sydd naill ai yn tanfeddiannu o naill ai un neu fwy o ystafelloedd gwely ac yn dymuno symud i eiddo llai, neu sy'n meddiannu eiddo sydd wedi'i addasu nad ydynt ei angen - cyn belled bod un o'r canlynol yn gymwys:

- Maen nhw'n dioddef caledi ariannol difrifol o ganlyniad i ddiwygio lles ac mae perygl y collir y denantiaeth bresennol, neu y bydd y tenant yn syrthio i ddyled ddifrifol, a bydd y newid arfaethedig yn galluogi tenantiaid i symud i eiddo fforddiadwy / cynaliadwy. I'r pwrpas hwn bydd 'dyled ddifrifol' yn gyfystyr a bod yn ddigonol i'r landlord gychwyn camau meddiant
- Y byddai eu symud yn rhyddhau eiddo i rywun sydd ag angen ar frys a fyddai fel arall yn gorfod disgwyl amser afresymol i gael eu hail-gartrefu
- Rhaid i ymgeiswyr fod â thenantiaeth yng Ngwynedd a bydd angen tystiolaeth gan y landlord o'r amgylchiadau ac ymdrechion y tenant i gynnal y denantiaeth

3.23 Colli cartref oherwydd trychineb. Ymgeisydd sydd â gobaith rhesymol o ddyraniad mewn cyfnod byr o amser sydd yn colli eu cartref presennol yn gyflym ac yn barhaol o ganlyniad i drychineb.

3.24 Rhai ymgeiswyr sydd arnynt ddyletswydd digartref. Bydd ymgeiswyr y mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd tuag atynt yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben") ac sydd hefyd yn aros mewn llety dros dro sydd ddim yn hollol addas ar gyfer eu hanghenion, yn cael eu cynnwys yn y categori "Angen brys am dai". Byddai enghreifftiau yn cynnwys:

- Teuluoedd â phlant mewn llety gwely a brecwast dros dro
- Teuluoedd â phlant mewn hostel digartref y Cyngor, neu mewn llety arall, lle mae rhaid rhannu cyfleusterau sylfaenol megis cegin ac ystafell ymolchi. Bydd hyn yn cynnwys teuluoedd â phlant sydd wedi eu gorfodi i symud yn ôl i fyw gyda theulu, ond ddim i gynnwys ymgeiswyr sydd eisiau gadael y cartref teuluol am y tro cyntaf
- Person bregus mewn eiddo dros dro sydd angen cefnogaeth i gynnal tenantiaeth

3.25 Achos eithriadol o angen brys lle nad yw'r amgylchiadau neu frys yr amgylchiadau yn cael ei ddelio ag ef mewn man arall yn y cynllun hwn. Efallai y bydd achosion ar gyfer ailgartrefu brys yn codi nad ydynt wedi'u cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau uchod. Mewn achosion o'r fath efallai y bydd y cais yn cael ei ystyried fel un sydd mewn angen dybryd am dai, ac felly yn gymwys i'w gynnwys ym Mand 1a neu Fand 1b gan ddibynnu ar eu cysylltiad Gwynedd. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried ar sail unigol ac ar yr wybodaeth a ddarparwyd a gall gynnwys achosion gyda materion diogelu neu gydag anghenion brys eraill ar gyfer ailgartrefu.

Anghenion tai

3.26 Bydd ymgeiswyr ag angen o ran tai ond nad oes angen brys yn cael eu gosod ym Mand 2 (â chysylltiad â Gwynedd) neu Fand 3 (dim cysylltiad â Gwynedd).

3.27 Ystyrir y bydd gan ymgeisydd angen am dai os yw ef/hi neu aelod o'r aelwyd yn syrthio dan un o'r categorïau canlynol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

3.28 Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014. Gellir canfod y diffiniad o ddigartrefedd yn adrannau 55 i 57 o Ddeddf 2014. Mae'n cynnwys y canlynol ond heb eu cyfyngu i:

- Person sydd heb lety ar gael i'w feddiannu, y mae ganddo hawl i feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu'n rhinwedd gorchymyn llys; â thrwydded i feddiannu; neu yn ei feddiannu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol
- Person sydd â llety ond nad yw'n gallu cael mynediad iddo neu mae'n strwythur symudol, ac nad oes unrhyw fan lle mae'r personau â'r hawl neu'r caniatâd i'w leoli a hefyd i fyw ynddo
- Byddai person yn cael ei ystyried fel digartref os oes ganddynt lety, ond nid yw'n rhesymol iddynt ei feddiannu, yn ddarostyngedig i amodau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf

Mae person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw ef neu hi yn debygol o fod yn ddigartref o fewn y 56 diwrnod nesaf.

3.29 Ymgeiswyr y mae gan awdurdod tai lleol ddyletswydd iddynt o dan adrannau 66, 73 , 75 o Ddeddf 2014: Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr y mae dyletswydd yn ddyledus iddynt o dan:

- Adran 66 o'r Ddeddf: dyletswydd i gynorthwyo i atal yr ymgeisydd rhag dod yn ddigartref. Gall fod yn ddyletswydd ar unrhyw awdurdod tai lleol
- Adran 73 o'r Ddeddf: dyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ymgeisydd digartref. Gall fod yn ddyletswydd ar unrhyw awdurdod tai lleol
- Adran 75 o'r Ddeddf: dyletswydd i sicrhau eiddo i ymgeiswyr mewn angen ac iddo flaenoriaeth (pan mae'r ddyletswydd yn adran 73 wedi dod i ben). Noder y gall rhai achosion fod mewn angen brys am dai yn unol â chymal 3.24 uchod

3.30 Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai heb gyfleusterau glanweithiol neu dai gorlawn neu fel arall yn byw mewn tai gydag amodau anfoddhaol. Ymgeiswyr lle nad yw eu heiddo presennol yn cwrdd â safonau diogelwch modern ag angen o ran tai. Bydd pob cais yn cael ei asesu gan y Swyddog Lechyd yr Amgylchedd i gadarnhau nad yw'r eiddo yn lanweithiol, bod yr eiddo yn orlawn neu'n anfoddhaol fel arall.

3.31 Bydd asesiad Swyddog Lechyd yr Amgylchedd ar sail System Sgorio Lechyd a Diogelwch Tai sy'n asesiad o beryglon yn gysylltiedig ag eiddo preswyl. Gallai peryglon gynnwys:

- Diffyg ystafell ymolchi gyda chyfleusterau neu mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli mewn lleoliad nad yw'n lanweithiol e.e. o fewn cegin
- Diffyg cegin a/neu gyfleusterau priodol; neu ddiffyg toiled oddi mewn i'r eiddo
- Dim cyflenwad dŵr poeth neu oeri i'r eiddo oherwydd diffyg ar yr eiddo
- Dim cyflenwad trydanol oherwydd diffyg â'r eiddo
- Dim cyflenwad nwy oherwydd diffyg â'r eiddo lle mae angen i gyflenwad weithredu gwasanaethau presennol neu angenrheidiol, fel gwresogi
- Ymgeiswyr sy'n rhannu cyfleusterau ag unigolion eraill nad ydynt yn rhan o'u teulu ar sail barhaol. Mae hyn yn gymwys i rannu cegin, ystafell ymolchi/cawod neu doiled

- Ymgeiswyr sy'n byw mewn eiddo sy'n orlawn. Tybir bod llety yn gorlenwi os oes diffyg un ystafell wely o leiaf. Rhaid bod hyn ar sail barhaol. Diffinnir gorlenwi yn y cyd-destun hwn yn unol â chanllawiau ystafell wely cyfredol ar gyfer cyfrifo budd-dal tai

3.32 Bydd pob ymgeisydd sy'n preswyllo mewn llety nad yw'n lanweithiol neu beryglus yng Ngwynedd yn cael eu cyfeirio at wasanaeth Amgylchedd y Cyngor er mwyn datrys y broblem a galluogi'r ymgeisydd i aros yn eu cartref cyn yr ystyrir yr ymgeisydd mewn angen o ran tai dan y polisi hwn. Mewn achos o'r fath, bydd cais yn cael ei atal tra ymchwilir i hynny.

3.33 Ymgeiswyr sydd angen symud ar sail Feddygol neu les (gan gynnwys ar seiliau sy'n berthnasol i anabledd). Byddai hyn yn cynnwys:

- Ymgeiswyr y mae eu teulu yn cynnwys rhywun â chyflwr meddygol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â llety anaddas lle mae angen ail-gartrefu i wella eu hiechyd yn sylweddol
- Lle mae'r llety presennol yn cyflwyno problemau mynediad i aelod o'r teulu sy'n cael effaith andwyol ar eu lles, na ellir ei ddatrys yn yr eiddo presennol ac a fyddai'n cael ei leddfu'n sylweddol pe baent yn cael eu hail-gartrefu mewn eiddo addas. Byddai achosion o'r fath yn cael eu hasesu gan yr ymarferydd perthnasol fel angen symud i eiddo hygyrch
- Ymgeiswyr y mae eu llety yn cynnwys rhywun sydd angen gofal cymdeithasol nad yw'r anghenion hynny yn cael eu diwallu ac mae ailgartrefu yn angenrheidiol i wella eu gofal yn sylweddol

3.34 Bydd achosion o'r fath yn cael eu hasesu gan y Tîm yn dilyn cyngor gan Therapydd Galwedigaethol, Meddyg neu berson cymwys meddygol tebyg ar p'un a yw'r person angen symud i eiddo hygyrch o fewn y diffiniad uchod. Lle bo modd dylai hynny fod gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth am gyflwr meddygol y person dan sylw a'i berthnasedd i'w hanghenion tai.

3.35 Fforddiadwyedd Tai Sector Preifat. Achosion lle gall yr ymgeisydd ddangos nad yw eu llety presennol yn y sector rhentu preifat yn fforddiadwy ac nad oes unrhyw lety amgen fforddiadwy yn y sector rhentu preifat, ond y byddai llety amgen yn y sector cymdeithasol yn fforddiadwy.

3.36 Tenantiaid tai cymdeithasol presennol yng Ngwynedd sy'n tan-feddiannu o un neu ddwy ystafell wely ac sy'n dymuno trosglwyddo i eiddo llai. Rhaid i ymgeiswyr fod yn denantiaeth tai cymdeithasol yng Ngwynedd gyda landlord bartner. Efallai y bydd Tenantiaid tai cymdeithasol sy'n tan-feddiannu sydd hefyd yn profi caledi ariannol yn gymwys i flaenoriaeth uwch 'Angen Brys'.

3.37 Pobl sydd angen symud i ardal benodol yn y rhanbarth, lle byddai methiant i wneud hynny yn achosi caledi (iddynt hwy neu eraill). Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Bydd methiant i symud i ardal benodol yn peri caledi ariannol eithriadol
- Mae'r ymgeisydd neu aelod o'u teulu mewn perygl o gael eu derbyn i ofal preswyl neu ysbyty os nad ydynt yn cael eu hail-gartrefu mewn ardal benodol
- Mae angen i'r ymgeisydd symud i ardal benodol oherwydd bod perthynas wedi chwalu, ac mae angen diogelu a hybu lles plentyn sy'n gysylltiedig

- Mae'r ymgeisydd yn 'blentyn perthnasol' o dan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, yn gadael gofal, yn fregus ac mae angen uchel am eiddo a fyddai'n cael ei ddiwallu orau drwy ddarparu llety sefydlog yn y tymor hir mewn ardal benodol
- Mae gan yr ymgeisydd neu aelod o'u teulu gyflogaeth barhaol na ellir parhau ag ef, neu gynnig cyflogaeth na allant ei dderbyn, oni bai eu bod yn preswyllo mewn ardal benodol
- Mae'r ymgeisydd yn rhoi neu yn derbyn cymorth hanfodol, y gellir ond ei gyflenwi os ydynt yn byw mewn ardal benodol
- Ymgeiswyr y mae eu cartref yn cynnwys plant o dan 10 mlwydd oed sydd naill ai'n byw mewn fflat neu maisonette neu yn byw mewn eiddo lle nad oes unrhyw le y tu allan
- Ymgeiswyr o uned deulu sydd wedi'u gorfodi i fyw ar wahân oherwydd diffyg llety addas

3.38 Gweithwyr Amaethyddol wedi'u Dadleoli

- Mae'r ymgeisydd yn weithiwr amaethyddol sydd wedi'i ddadleoli (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Rhent (Amaethyddiaeth) 1976) ac mae eu meddiannaeth amaethyddol wedi dod i ben a lle na all y ffermwr ddarparu llety amgen addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi'i ddadleoli. Rhaid i'r Tîm ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac unrhyw gyngor gan y Pwyllgor Cynghori ar Annhedd-dai Amaethyddol
- Mae'r annedd lle mae'r gweithiwr amaethyddol sydd wedi'i ddadleoli ohono ei angen i letya gweithiwr amaethyddol arall ac mae angen ail-gartrefu'r gweithiwr sydd wedi'i ddadleoli er budd amaethyddiaeth effeithiol

3.39 Achos eithriadol o angen llety lle nad yw'r amgylchiadau yn cael eu delio â hwy mewn man arall o fewn y cynllun hwn. Efallai y bydd achosion yn codi sy'n cynnwys angen i ailgartrefu nad ydynt wedi'u cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau uchod. Mewn achosion o'r fath gall y cais gael ei ystyried fel un sydd mewn angen am dai, ac felly yn gymwys i'w gynnwys ym Mand 2 neu Fand 3 gan ddibynnu ar eu cysylltiad Gwynedd. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried ar sail unigol ac ar yr wybodaeth a ddarperir a gall gynnwys achosion lle mae angen ailgartrefu wedi ei amlygu.

Dim anghenion tai

3.40 Nid oes gan unrhyw ymgeisydd nad yw'n dod o dan unrhyw rai o'r meini prawf "Anghenion Tai Brys" neu "Anghenion Tai" a nodwyd ym mharagraffau 3.16 i 3.39 unrhyw angen tai. Gall ceisiadau heb unrhyw angen tai ond gyda Chysylltiad Gwynedd gael eu cofrestru a'u gosod ym Mand 4. Ni fydd ceisiadau heb unrhyw angen tai ond heb Gysylltiad Gwynedd yn cael eu cofrestru neu byddant yn cael eu canslo os ydynt yn gais presennol.

3.41 Gall ceisiadau ym Mand 4 gael eu hystyried ar gyfer eiddo 'barod i'w gosod' lle nad oes ymgeiswyr cymwys ym Mandiau 1 i 3.

Gostwng blaenoriaeth

3.42 Yn unol â chymal 3.2 o'r polisi hwn bydd blaenoriaeth rhai ceisiadau yn cael ei ostwng oherwydd eu hamgylchiadau neu ymddygiad. Rhoddir ymgeiswyr gyda blaenoriaeth wedi ei ostwng ym Mand 3 a byddant yn cael eu blaenoriaethu yn unol â chymal 3.13. Bydd ymgeiswyr gyda blaenoriaeth wedi ei ostwng yn cynnwys y canlynol:

3.43 **Os ydi ymddygiad ymgeisydd yn eu haelwyd yn effeithio ar eu haddasrwydd i fod yn denantiaid.** Bydd gostwng blaenoriaeth yn gymwys lle mae ymgeisydd neu aelod o'r teulu ag hanes o ymddygiad annerbyniol, sydd, er nad yw'n gwneud yr ymgeisydd yn gwbl anaddas i ddod yn denant, y mae fodd bynnag yn effeithio ar ba mor addas yw ef/hi i ddod yn denant. Caiff hyn ei adolygu 6 mis ar ôl i'r flaenoriaeth gael ei ostwng yn wreiddiol i weld p'un a yw'r amgylchiadau neu'r sefyllfa wedi newid. Mae enghreifftiau o ymddygiad o'r fath yn cynnwys:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ddigon difrifol i'r landlord geisio cywiro, er enghraifft, cyflwyno rhybudd terfynol, sicrhau cytundeb ymddygiad derbyniol neu weithrediad trwy'r llys fel gwaharddeb neu orchymyn meddiant wedi ei atal
- Tenantiaid presennol sydd wedi bod yn ddarostyngedig i gamau yn eu herbyn am dorri telerau eu cytundeb tenantiaeth a lle nad yw'r ymgeisydd wedi cywiro'r dor amod
- Pan fydd tenantiaid presennol yn dymuno trosglwyddo, ond mae eu heiddo presennol yn y fath gyflwr gwael oherwydd difrod bwriadol neu esgeulustod gan y tenant, aelod o'i aelwyd neu rywun wedi ei wahodd i'r eiddo fel na ellir ei ailosod o fewn amserlen resymol
- Ymgeiswyr sydd â dyled yn deillio o denantiaeth bresennol neu flaenorol unrhyw un o aelodau'r Bartneriaeth ac sydd heb gynnal trefniant boddhaol i ad-dalu'r ddyled
 - Ni fydd dyled sydd wedi cronni oherwydd effaith diwygio lles yn cael eu hystyried lle mae tystiolaeth bod y tenant wedi cydweithredu â'r landlord i ddatrys y sefyllfa a bod mesurau wedi'u cymryd i gynnal y denantiaeth yn y lle cyntaf
 - Dyled yn cynnwys ôl ddyledion rhent, costau llys, costau trwsio i'w ad-dalu, taliadau gwasanaeth neu unrhyw gostau eraill ynghlwm i'r denantiaeth
 - Bydd y sefydliad y mae angen ad-dalu'r ddyled iddo yn pennu beth yw 'cytundeb boddhaol i dalu'
- Ymgeiswyr sydd wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu wedi methu datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cais. Er enghraifft:
 - Drwy symud yn fwriadol i eiddo y maent yn gwybod y bydd yn golygu gorlenwi
 - Drwy ddifrodi'n fwriadol eu llety fel nad oes modd byw ynddo neu'n arwain at droi allan o'u cartref
 - Drwy fethu i dalu rhent, gan arwain at droi allan
 - Gwneud rhywbeth yn fwriadol (neu beidio gwneud rhywbeth) y maent yn gwybod a all arwain at gollu eu llety

Gellir tynnu rhai achosion mwy difrifol o'r Gofrestr Tai yn unol â chymal 2.56 uchod.

3.44 **Adnoddau ariannol.** Caiff eiddo cymdeithasol fel arfer eu darparu mewn amgylchiadau lle mae'r ymgeiswyr yn cael trafferth cael tŷ addas i ddiwallu eu

hanghenion tai oherwydd eu sefyllfa ariannol. Nid yw Statws Elusennol ar gyfer cymdeithasu tai yn caniatáu iddynt gynnig tŷ i ymgeisydd sydd ag adnoddau ariannol sylweddol i dalu am gostau tai oni bai bod materion yn ymwneud ag anableddau neu oedran sydd angen eu hystyried a bod angen o ran tai. Bydd ymgeiswyr sydd â digon o adnoddau ariannol i ddiwallu eu hanghenion tai eu hunain yn cael eu hasesu ar sail achos wrth achos (gallai hyn fod yn berthnasol pan fo gan y person fuddiannau cyfreithiol neu ariannol mewn eiddo neu ddigon o incwm neu arbedion) a gellir rhoi llai o flaenoriaeth.

3.45 Ymgeiswyr sydd wedi gwrthod cynnig rhesymol am lety. Bydd blaenoriaeth ymgeiswyr sy'n gwrthod cynnig rhesymol am lety am y tro cyntaf yn cael ei ostwng. Diffinnir cynnig rhesymol am lety ym mharagraff 4.18 isod. Pan fydd ymgeiswyr yn gwrthod cynnig rhesymol am lety am y tro cyntaf bydd y cais yn cael ei symud i Fand 3 am gyfnod o 6 mis. Wedi hynny, bydd gwrthod eilwaith yn arwain at ganslo'r cais.

3.46 Os ydym wedi newid lefel blaenoriaeth ymgeisydd drwy ei osod ym Mand 3 ond wedyn bod y flaenoriaeth is yn cael ei dynnu bydd y cais yn dychwelyd i'r band gwreiddiol ond y dyddiad perthnasol fydd dyddiad dychwelyd i'r band ac nid dyddiad y cais gwreiddiol.

Ceisiadau sydd wedi'u hatal nad ydynt yn cael eu hystyried am ddyraniad

3.47 Gellir atal ceisiadau am gyfnod dros dro. Tra maent wedi'u hatal, ni fydd cais yn cael ei ystyried yn gymwys ar gyfer dyraniad llety. Mae enghreifftiau o achosion lle mae cais wedi'i atal dros dro yn cynnwys:

- Lle mae sail resymol i awgrymu fod sefyllfa'r ymgeisydd wedi newid
- Lle nad yw'r ymgeisydd mewn sefyllfa i gymryd cynnig o lety yn y tymor byr, e.e. oherwydd eu bod yn yr ysbyty, dalfa neu sefydliad
- Mae'r cais yn cael ei asesu ar hyn o bryd ar sail gwybodaeth newydd a dderbyniwyd sy'n ymwneud â'r cais. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth a all arwain at symud y cais i fand arall, neu gael ei osod ym Mand 3 oherwydd gostwng blaenoriaeth, neu newid sylweddol mewn amgylchiadau
- Lle mae'r ymgeisydd wedi gwrthod dau gynnig rhesymol o lety yn flaenorol a bod y cais wedi'i ganslo yn unol â pharagraffau 2.56 a 4.20 a'u bod yn ail-ymgeisio o fewn 6 mis o ganslo'r cais, yna bydd y cais yn cael ei atal am gyfnod sy'n dod i ben 6 mis o'r dyddiad canslo ac eithrio lle mae'r Grŵp Gweithredol yn penderfynu bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol

3.48 Atal ceisiadau am drosglwyddo dros dro. Yn ogystal â'r uchod, gallai ceisiadau i drosglwyddo a wneir gan denant cyfredol aelodau'r Bartneriaeth gael ei atal dros dro mewn achosion lle mae gan y gymdeithas dai bryderon am sut mae'r tenant wedi bod yn cynnal y denantiaeth a lle y gellir gweld bod amodau'r denantiaeth wedi'u torri. Pwrpas atal y cais fydd rhoi cyfle i'r tenant a'r gymdeithas dai reoli'r sefyllfa a gwella sut y mae'r denantiaeth yn cael ei chynnal.

3.49 Mewn achosion o'r fath bydd y gymdeithas dai yn gwneud cais i'r tîm i atal y cais dros dro. Bydd angen i'r gymdeithas dai weithredu'n rhesymol, a disgwylir mai mewn achosion difrifol lle mae camau cyfreithiol wedi eu cychwyn neu achosion o

ddiffyg cydymffurfiaeth y gwneir ceisiadau o'r fath. Bydd pob cais yn cael eu hystyried ar ei haeddiant ei hun a'r ffeithiau ar y pryd. Unwaith y bydd cais wedi ei atal dros dro, bydd y sefyllfa yn cael ei fonitro yn rheolaidd gan y gymdeithas dai a'r Tîm.

3.50 Bydd y tîm yn ysgrifennu i hysbysu'r ymgeisydd os atelir y cais gyda rhesymau dros y penderfyniad. Os bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth neu wneud rhywbeth cyn y gellir ystyried y cais eto yna bydd yr ymgeisydd yn cael ei gynghori a rhoddir terfynau amser realistig ar gyfer darparu'r wybodaeth neu'r camau gweithredu angenrheidiol.

3.51 Os, ar ôl atal cais dros dro y bydd penderfyniad yn cael ei wneud bod y cais yn cael ei ail-gyflwyno ond bod band blaenoriaeth yr ymgeisydd yn cael ei leihau yna bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig a bydd ganddo hawl i wneud cais am adolygiad yn unol â pharagraff 2.36. Bydd dyddiad cofrestru'r cais (at ddiben penderfynu safle yn y band hwnnw) yn cael ei newid i'r dyddiad y byddwch chi'n dod yn gymwys eto i gael cynnig tai yn dilyn gwaharddiad. Bydd hyn yn golygu bod eich cais yn mynd i waelod y band perthnasol pan gaiff eich cais ei ddad-ohirio.

3.52 Os mai'r penderfyniad yn dilyn cyfnod o wahardd yw nad yw'r ymgeisydd yn gymwys bellach ar gyfer tai bydd ef neu hi yn cael eu hysbysu yn unol â pharagraff 2.34 y polisi hwn a bydd gan yr ymgeisydd hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad yn unol â pharagraff 2.36.

RHAN 4 GOSOD LLETY

Dewis ymgeiswyr ar gyfer cynnig tenantiaeth

4.1 Yma, disgrifir y broses y bydd swyddogion ym mhob Cymdeithas Dai sy'n aelodau o'r Bartneriaeth yn ei dilyn wrth osod y mathau canlynol o lety sy'n eiddo i'r gymdeithas dai.

- Anghenion Tai Cyffredinol
- Tai Gwarchod
- Eiddo addas ar gyfer pobl hŷn
- Tai Hygyrch

Nodir y mathau o dai a'r mathau o denantiaeth sydd wedi eu heithrio o'r broses hon yn Atodiad 1.

Anghenion Tai Cyffredinol

4.2 Bydd eiddo gwag yn cael ei gynnig yn gyntaf i ymgeiswyr ym Mand 1 yn unol â meini prawf y band. Os nad yw'r eiddo yn addas i unrhyw ymgeisydd ym Mand 1, bydd yr eiddo yn cael ei gynnig i ymgeisydd addas ym Mand 2 ac felly ymlaen.

4.3 Bydd eiddo yn cael ei osod i gyfateb â hoffterau o ran lleoliad, math o eiddo a chyfansoddiad y teulu yn amodol ar feini prawf deiliadaeth. Efallai y bydd cymdeithasau tai yn nodi meini prawf deiliadaeth ar gyfer eiddo i'w gosod o dan y cynllun hwn i wneud y defnydd gorau o'u stoc dai. Gall hyn olygu na fydd ymgeiswyr sydd wedi dewis maint penodol o eiddo yn cael eu hystyried ar gyfer eiddo o'r maint hwnnw, er enghraifft, teulu bach sydd wedi dewis cael eu hystyried am gartref teulu mwy.

Tai Gwarchod

4.4 Tai yw'r rhain a allai gynnwys naill ai gwasanaeth warden preswyl neu warden ymweld a allai fod tâl ychwanegol amdanynt. Fel arfer, cyfyngir ar y math hwn o dai i bobl 55 mlwydd oed neu drosodd ac sydd angen y gwasanaeth warden ac sy'n addas ar gyfer tai gwarchod. Efallai y bydd gan y Partneriaid feini prawf eraill. Mewn achosion lle nad oes unrhyw ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf, yna gellir ystyried ymgeiswyr sydd yn llai na 55 mlwydd oed neu ymgeiswyr nad ydynt angen y gwasanaeth warden yn ôl disgrisiwn y Partner perthnasol.

Eiddo a ddynodwyd ar gyfer pobl hŷn a/neu bobl gydag anabledau

4.5 Mae'r rhain yn dai a ddynodwyd ar gyfer pobl 55 mlwydd oed neu drosodd a/neu gallai fod yn arbennig o addas ar gyfer pobl ag anabled. Bydd tai o'r fath yn cael eu dyrannu i'r rhai hynny sy'n bodloni'r meini prawf ac sydd angen yr addasiadau neu'r nodweddion penodol sydd yn yr eiddo dan sylw, ond mewn achosion lle nad oes ymgeiswyr addas yna gellir ystyried ceisiadau gan bobl iau neu'r rhai hynny heb anabled yn ôl disgrisiwn y Partner perthnasol.

Cartrefi Hygyrch

4.6 Cartrefi hygyrch yw cartrefi sydd wedi'u haddasu'n sylweddol i bobl ag anabledd. Bydd dyraniad tai hygyrch yn cael ei wneud o ystyried yr addasiadau sydd yn yr eiddo a'u cyfateb ag anghenion a gofynion ymgeiswyr, gyda'r dyraniad yn ael ei wneud i gyfateb anghenion ymgeiswyr orau a manylebau eiddo beth bynnag fo'r rhestr aros. Bydd cyngor yn cael ei geisio gan ymarferwyr fel Therapyddion Galwedigaethol i sicrhau fod y tai cyfatebol gorau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar anghenion tai ymgeiswyr.

4.7 Mewn achosion lle mae mwy nag un ymgeisydd lle mae'u gofynion yn cyfateb â manylebau'r eiddo, dilynir y blaenoriaethau band fel yr amlinellir yn Rhan 3 o'r cynllun.

Addasrwydd ymgeisydd am ddyraniad llety

4.8 Pan fo gwybodaeth yn dod i sylw partneriaid, neu'n cael ei gadw gan bartneriaid am ymddygiad presennol neu flaenorol ymgeisydd neu unrhyw aelod o'i aelwyd yn cynnwys hanes troseddol, a allai effeithio addasrwydd lleoliad eiddo penodol ar gyfer yr ymgeisydd a'i aelwyd i gael eu cartrefu ynddo yna bydd asesiad addasrwydd yn cael ei gynnal.

4.9 Diben yr asesiad fydd asesu p'un a yw'r lleoliad arfaethedig yn briodol i'r ymgeisydd / aelod o'r teulu, o ystyried yr ymddygiad.

4.10 Gall yr asesiad addasrwydd gynnwys gwybodaeth gan asiantaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaethau Cymdeithasol neu sefydliad perthnasol arall. Pe byddai asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r lleoliad yn addas am ba bynnag reswm dilys, ni fydd yr ymgeisydd yn cael ei ystyried am ddyraniad Gwynedd ac ni chaiff gynnig tenantiaeth. Bydd yr ymgeisydd yn aros ar y rhestr aros ac ni fydd ei safle arno yn cael ei newid.

Fforddiadwyedd

4.11 Yn unol â'i weithdrefnau ei hun, gall Partner asesu fforddiadwyedd tenantiaeth cyn gwneud cynnig. Er mwyn gwneud hyn gallai'r Partner ofyn am wybodaeth gan yr Ymgeisydd am ei incwm a'i wariant. Os ydi Partner yn penderfynu nad oes modd i'r ymgeisydd fforddio'r denantiaeth, nid oes rhaid iddynt gynnig yr eiddo iddynt hwy.

Cynnig Llety

4.12 Un cynnig llety a gaiff ymgeiswyr gan y Bartneriaeth, ar unrhyw un adeg. Efallai y bydd ymgeiswyr yn cael cynnig tenantiaeth gydag unrhyw un o'r partner.

4.13 Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig llety yn derbyn y cynnig yn ysgrifenedig, ond nid yw hyn yn golygu na fyddant hefyd yn derbyn galwad ffôn neu e-bost i drafod y cynnig a threfnu i weld yr eiddo. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd ymateb i'r cynnig o fewn 5 diwrnod.

4.14 Bydd ymgeiswyr sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan adrannau 66, 73 neu 75 o Ddeddf 2014 bob amser yn derbyn cynnig ysgrifenedig. Bydd y llythyr cynnig yn datgan os dyma ydi'r cynnig olaf at ddibenion cyflawni dyletswydd y Cyngor o dan Ran 2 o Ddeddf 2014.

4.15 Os nad yw'r ymgeisydd wedi cysylltu â'r gymdeithas dai erbyn diwedd y 5 diwrnod, tybir bod yr ymgeisydd wedi gwrthod y cynnig a bydd y Partner yn cynnig y denantiaeth i'r ymgeisydd nesaf ar y gofrestr dai sy'n gofyn am y math hwnnw o eiddo. Bydd y Partner yn hysbysu'r Tîm, er mwyn adolygu'r cais

4.16 Bydd pob ymgeisydd sydd wedi derbyn cynnig llety yn cael cyfle i ymweld â'r eiddo gwag, o fewn cyfnod rhesymol, cyn penderfynu derbyn neu wrthod y cynnig.

4.17 Mae gan y Partner ddisgresiwn i ehangu'r cyfnod 5 diwrnod mewn amgylchiadau priodol ac wrth ystyried p'un a ddylid gwneud hynny ai peidio, byddant yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol gan gynnwys:

- Anhawster i ymgeisydd sy'n gweithio neu sydd â phlant neu ymrwymïadau gofal eraill i wneud trefniadau i weld yr eiddo ac/neu
- Pa mor bell yw'r eiddo o lety presennol yr ymgeisydd ac /neu
- Lle byddai derbyn y cynnig yn golygu y byddai plentyn yn newid ysgol neu'n ei gwneud yn anodd i aelodau o'r teulu ddal i fynd i'w waith neu hyfforddiant neu fod angen edrych ar drefniadau gwahanol.

4.18 Cynnig rhesymol o lety yw un sydd:

- Yn yr ardal y mae'r ymgeisydd wedi'i ddewis (ac nid eiddo unigol penodol),
- Y math o eiddo y mae'r ymgeisydd wedi gofyn amdano (ac y mae'n gymwys ar ei gyfer),
- Fydd yn bodloni safon osodadwy bresennol y partner cymdeithas dai,
- Ddim yn afresymol am unrhyw reswm arall,
- A fyddai'n cyflawni dyletswydd cyngor o dan adrannau 66, 73 a 75 Deddf 2014 lle mae dyletswyddau o'r fath yn ddyledus

4.19 Mewn achosion lle mae dyletswydd yn ddyledus i'r ymgeisydd naill ai o dan adrannau 66, 73 neu 75 Deddf 2014, bydd gan y Tîm ddisgresiwn i ychwanegu ardaloedd, mathau o eiddo ac eiddo o feintiau gwahanol nad ydynt wedi'u dewis gan yr ymgeisydd. Bydd y tîm, ar y cyd ag adran ddirigartref y Cyngor, yn ystyried pa ychwanegiadau sy'n rhesymol er mwyn cyflawni dyletswydd ddirigartref y Cyngor.

Gwrthod cynnig llety

4.20 Os gwrthodir un cynnig rhesymol (fel y diffinnir yn 4.18), bydd blaenoriaeth yr ymgeisydd, yn unol â 3.43 uchod, yn cael ei leihau drwy symud i Fand 3. Os gwrthodir dau gynnig rhesymol am lety yna bydd y cais, yn unol â 2.56 uchod, yn cael ei ganslo a'i dynnu oddi ar y Gofrestr Tai. Bydd ceisiadau sy'n cael eu canslo am y rheswm hwn yn gorfod aros am 6 mis cyn ymuno â'r gofrestr eto. Os daw'r cais i law o fewn 6 mis i'r dyddiad canslo, yna rhaid ei atal nes mae'r 6 mis wedi mynd heibio.

4.21 Lle mae dyletswydd ddigartref i'r ymgeisydd dan adrannau 66, 73 neu 75 o'r Ddeddf gall ofyn am adolygu addasrwydd y llety sy'n cael ei gynnig, yn unol ag adran 85(3), os yw'r ymgeisydd yn derbyn y cynnig neu beidio. Ar y cam cynnig, hysbysir ymgeiswyr o ganlyniadau posib gwrthod cynnig ac o'u hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety ac mai dyma fydd y cynnig terfynol a fydd yn cyflawni dyletswydd y Cyngor o dan Ran 2 o Ddeddf 2014.

4.22 Os ydi'r ymgeisydd yn gofyn am adolygiad ac nad yw'r adolygiad yn llwyddiannus, bydd dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf 2014 yn dod i ben a bydd yr ymgeisydd yn colli unrhyw flaenoriaeth a ddyfarnwyd yn sgil y ddyletswydd a oedd yn ddyledus. Fodd bynnag, os yw'r adolygiad yn llwyddiannus bydd dyletswydd y Cyngor yn parhau ac nid effeithir ar y flaenoriaeth a ddyfarnwyd.

Eiddo ar gael i'w Gosod

4.23 Efallai bod nifer fach o eiddo sydd ar gael i'w gosod ar unrhyw un adeg. Bydd hyn yn digwydd fel arfer pan nad oes unrhyw un ar y Gofrestr Tai sy'n gymwys i gael cynnig eiddo penodol, neu lle mae'r gofrestr wedi'i dihysbyddu.

4.24 Rydym yn hysbysebu manylion am unrhyw eiddo sy'n barod i'w gosod ar unwaith ar wefan y Cyngor a gwefannau partneriaid.

4.25 Bydd ymgeiswyr heb unrhyw flaenoriaeth yn gallu gwneud cais am y tenantiaethau hyn ond bydd angen iddynt fodloni'r meini prawf cymhwysedd. Dylai ymgeiswyr sydd am gael eu hystyried am eiddo sy'n cael ei hysbysebu gysylltu gyda'r Tîm i wneud cais.

4.26 Bydd unrhyw ddyraniad yn seiliedig ar amgylchiadau'r ymgeisydd gan gynnwys materion fel:

- Eu cysylltiad lleol â Gwynedd
- Eu sefyllfa ariannol
- Hanes eu tenantiaeth flaenorol, a/neu
- Unrhyw faterion eraill perthnasol gyda'r nod o osod eiddo i unigolyn sydd ag angen o ran tai

Trosglwyddiadau Rheolaeth

4.27 O bryd i'w gilydd daw achosion pan fydd un o'r Partneriaid angen hwyluso trosglwyddiad oddi fewn i'w stoc dai ac mai ar symbyliad y landlord y daw'r cais. Gelwir trosglwyddiadau o'r fath yn 'drosglwyddiadau rheolaeth'. Nid yw'r trosglwyddiadau rheolaeth yn disgyn o fewn cwrpas y Polisi hwn. Ceir rhagor o fanylion yn **Atodiad 1**.

Polisiau gosod lleol

4.28 Mae Adran 167(2E) o Ddeddf 1996 yn galluogi awdurdodau tai i ddyrannu llety penodol i bobl o ddisgrifiad penodol, pe baent yn disgyn o fewn i gategoriâu blaenoriaeth resymol ai pheidio. Mae polisi o'r fath yn cael ei adnabod fel 'polisi gosodiadau lleol'.

4.29 Mae Polisiâu Gosod Lleol yn gweithio drwy gynnwys meini prawf ychwanegol at y rhai hynny yn y prif bolisi gosod fydd yn cael eu hystyried wrth osod eiddo mewn stad neu gymuned arbennig. Defnyddir Polisiâu Gosod Lleol i gyflawni amrywiaeth eang o amcanion rheoli tai ac amcanion polisiâu tai eraill, ac maent yn cael eu datblygu fel arfer lle bo dymuniad i newid cydbwysedd cymuned neu i sicrhau cymuned gytbwys yn y cyfnod pan fo datblygiad newydd yn cael ei osod.

4.30 Bydd pob un o'r partneriaid cymdeithasau tai yn gallu cyflwyno Polisiâu Gosod Lleol mewn ardaloedd o'u stoc ac fe gymeradwyir y polisiâu hynny gan Fwrdd y Gymdeithas Dai perthnasol.

4.31 Bydd pob Polisi Gosod Lleol a gyflwynir yn cael ei gyhoeddi. Bydd yn cael ei fonitro ar gyfer effeithiolrwydd ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel y gall gael ei ddiwygio neu ei ddiddymu pan nad yn berthnasol neu nad oes ei angen.

Cynllun Gosod Cytundeb Adran 106

4.32 Bydd eiddo wedi eu datblygu ar safleoedd sy'n cynnwys cytundeb Adran 106 sy'n pennu dyraniad tai ar y safle hwn yn cael eu gosod yn unol â thelerau'r cytundeb. Mae'r dyraniadau hyn yn ddarostyngedig i Rwymedigaeth Gynllunio o dan adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio a

4.33 Mae cytundebau o'r fath wedi'u datblygu i sicrhau bod mecanweithiau diogel ar waith i gyfyngu deiliadaeth yr annedd i'r rheini sydd ag angen cymunedau lleol am gartref fforddiadwy o'r ddeiliadaeth gyntaf a phob deiliadaeth wedi hynny. Bydd pob un o'r cymdeithasau tai partner yn datblygu polisiâu ar gyfer gosod cartrefi ar safleoedd Adran 106.

Gosodiadau Sensitif

4.34 Mae achlysuron lle gellir cyfiawnhau gosodiadau sensitif er mwyn diogelu buddiannau tenantiaid presennol neu ddarpar denantiaid. Mae amgylchiadau felly'n brin a byddent yn ymwneud ag enghreifftiau lle byddai ardal wedi goddef ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol dros gyfnod hir o amser a bod tenantiaeth y cyflawnwyr wedi dod i ben. Mewn achosion felly bydd y landlord yn ystyried ei bod yn bwysig sicrhau nad yw preswylwyr eraill yn yr ardal yn dioddef problemau gan y tenant newydd. Felly byddai'r gosodiad nesaf yn yr ardal i ymgeisydd mae'r landlord yn hyderus na fyddai'n achosi problemau pellach.

4.35 Ym mhob achos lle bod Cymdeithas Dai sy'n aelod o'r bartneriaeth yn ceisio gosod yn sensitif, byddant yn hysbysu'r tîm, gan roi gwybodaeth am:

- Y rhesymau dros gyfiawnhau gosod yn sensitif
- Safle'r person y gosodir eiddo ar y rhestr aros
- Y rhesymau dros gynnig 'allan o drefn'.

RHAN 5 ADOLYGU PENDERFYNIAD A'R WEITHDREFN ADOLYGU

Yr hawl i gael adolygu penderfyniad

5.1 Gall ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad

- Os yw'r ymgeisydd yn anghymwys am ei fod yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo
- Mae'r ymgeisydd yn berson anghymwys o dramor
- Mae'r ymgeisydd yn cael ei drin fel anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol
- Rhoddir llai o flaenoriaeth i ymgeisydd a'i osod ym Mand 3
- Os yw'r cais yn cael ei ganslo am wrthod cynnig rhesymol am lety am yr ail waith

5.2 Os bydd ymgeisydd yn anghytuno ag unrhyw benderfyniad, bydd yn cael ei annog i siarad yn y lle cyntaf â'r Tîm. Fel arall, caiff ymgeiswyr ofyn am adolygiad o benderfyniad fel yr amlinellir isod.

5.3 Os ar ôl siarad â'r Tîm bod yr ymgeisydd yn dal i fod yn anhapus gyda'r penderfyniad, gall yr ymgeisydd ofyn i'w cais gael ei adolygu gan swyddog nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol (ac sydd yn uwch na'r swyddog a wnaeth y penderfyniad) drwy ddilyn y broses a nodir isod:

- Bydd yr ymgeisydd yn ysgrifennu at y Tîm o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn llythyr penderfyniad yn gofyn am Adolygiad o'r penderfyniad, gan amlinellu'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad.
- Bydd swyddog o'r Tîm nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol yn cynnal Adolygiad o fewn 28 diwrnod i gais yr ymgeisydd. Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol na fydd ar gael o fewn y 28 diwrnod, bydd y Swyddog yn ysgrifennu at yr ymgeisydd yn rhoi gwybod iddynt am yr oedi a dyddiad tebygol cwblhau'r Adolygiad
- Bydd y Swyddog sy'n cynnal yr Adolygiad yn ysgrifennu at yr ymgeisydd yn rhoi gwybod iddo/iddi beth yw canlyniad yr Adolygiad.
- Rhaid i'r llythyr gynnwys gwybodaeth am hawl yr ymgeisydd i ofyn am adolygiad pellach gan y panel fel y nodir ym mharagraffau 5.4 – 5.6 isod, a sut y gall yr ymgeisydd wneud hynny gan gynnwys y dyddiad cau ar gyfer derbyn cais ar gyfer adolygiad.

Adolygiad Panel y Grŵp Gweithredol

5.4 Os yw ymgeisydd yn dal yn anhapus â phenderfyniad ar ôl Adolygiad gallant ofyn i'r penderfyniad gael ei ystyried gan banel sy'n cynnwys o leiaf tri o Uwch Swyddogion o aelodau'r Bartneriaeth sydd ar y Grŵp Gweithredol (gweler paragraff 6.4), a elwir yn 'Adolygiad Panel' ("y Panel").

5.5 Mae'r broses i benderfyniad gael ei ystyried gan y Grŵp Gweithredol fel a ganlyn:

- Bydd yr ymgeisydd yn ysgrifennu at y Tîm ac yn gofyn i'r Grŵp Gweithredol ystyried penderfyniad o fewn 28 ar ôl derbyn penderfyniad mewn cysylltiad ag

adolygiad o'u cais. Mewn sefyllfaoedd eithriadol gellir cytuno ar gyfnod hirach (yn ôl disgrisiwn y Panel)

- Gall yr ymgeisydd ofyn am wrandawriad llafar gan y Grŵp Gweithredol
- Os bydd yr Ymgeisydd yn gofyn am wrandawriad llafar, rhaid iddo neu iddi gael o leiaf tri diwrnod o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad. Rhaid i'r llythyr hysbysu'r Ymgeisydd bod ganddynt yr hawl i gael eu clywed, cael rhywun yn mynychu gyda nhw, neu gael eu cynrychioli. Hefyd rhaid rhoi gwybod iddynt y gallant alw eu tystion eu hunain, a gwneud sylwadau yn ysgrifenedig.
- Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn i'r Panel ystyried yr adolygiad ar y papurau, rhaid rhoi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gael eu hystyried gan y Panel.
- Yn y gwrandawriad, bydd y Panel yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys y penderfyniad gwreiddiol a'r penderfyniad ar yr adolygiad, ac unrhyw newid mewn amgylchiadau neu wybodaeth ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg ers y penderfyniadau hynny a bydd yn dod i benderfyniad ar p'un ai a wnaed y penderfyniad gwreiddiol yn unol â'r cynllun hwn a p'un a yw'n parhau i sefyll fel penderfyniad cywir yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol.
- Bydd y Panel yn dod i benderfyniad ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad o fewn 28 diwrnod i'r cyfarfod.

5.6 Mae penderfyniad y Panel yn derfynol ac nid yw'n bosibl herio ymhellach unrhyw benderfyniad a wnaed ar gais sydd yn amodol ar y cynllun hwn o dan y polisi hwn. Nid yw hyn yn atal ymgeisydd rhag mynd ar drywydd unrhyw her gyfreithiol arall sy'n agored iddynt.

RHAN 6 TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Grŵp Strategol Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd

6.1 Bydd y Grŵp Strategol yn darparu cyfeiriad strategol i'r bartneriaeth ac yn adolygu gweithrediad y Cynllun.

6.2 Bydd gan bob un o'r Partneriaid un cynrychiolydd ar y Grŵp.

6.3 Bydd y grŵp yn cyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn, neu fel y bo angen, ac yn ystyried y canlynol:

- Effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer prosesu ymgeiswyr, gan gynnwys gwybodaeth monitro allweddol (fydd yn cynnwys cwynion a dderbyniwyd)
- Yr angen am newid mewn polisi a threfniadau, yng ngoleuni newid deddfwriaethol a rheoleiddiol, cyfraith achosion a chanlyniadau adolygiadau ac apeliadau y bydd ymgeiswyr yn gofyn amdanynt
- Cytuno ar gyflwyno Polisiau Gosod Lleol ac adolygu eu heffaith
- Monitro'r defnydd o osodiadau sensitif gan aelodau'r Bartneriaeth
- Monitro nifer yr ymgeiswyr na chafodd gynnig tenantiaeth oherwydd byddai cynnig felly'n gwrthdaro ag amcanion elusennol y Cymdeithasau.
- Cyfeiriad strategol y Bartneriaeth yn y dyfodol
- Cytuno a Monitro a set Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Grŵp Gweithredol Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd

6.4 Bydd y Grŵp Gweithredol yn rhoi cyfeiriad gweithredol i staff y bartneriaeth ar weithrediad y Polisi hwn, ei weithdrefnau a gweinyddiaeth y Gofrestr Tai Gyffredin.

6.5 Bydd gan bob un o'r partneriaid gynrychiolwyr ar y Grŵp.

6.6 Bydd y Grŵp Gweithredol yn cyfarfod o leiaf 10 gwaith y flwyddyn, neu fel y bo'r angen ac yn ystyried y canlynol:

- Gweithrediad effeithiol y polisi gan staff rheng flaen.
- Gweinyddiad effeithiol y Gofrestr Tai Gyffredin gan y Tîm
- Materion gweithredol uniongyrchol a datblygiad polisi posib gan y Grŵp Strategol
- Adolygu gweithdrefnau gweithredol ac unrhyw ddogfennau cysylltiol
- Adolygu ffurflenni cais / cyfleuster gwneud cais ar-lein
- Adolygu a datblygu gweithdrefnau rhannu gwybodaeth
- Adolygu a datblygu cyfleusterau TG
- Trafod unrhyw achosion unigol lle mae angen cydweithio amlasiantaethol

6.7 Bydd pob sefydliad yn cael bwrw un bleidlais pan wneir penderfyniadau, ni waeth faint o gynrychiolwyr sydd gaen bob sefydliad yn mynychu cyfarfod y Grŵp.

Atodiad 1

Gosodiadau nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y cynllun

1. Nid yw'r cynllun hwn yn berthnasol i unrhyw osodiad gan unrhyw un o'r cymdeithasau tai partner na fydd yn gosod ar denantiaeth sicr neu denantiaeth prawf.

Enghreifftiau o osodiadau nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y cynllun hwn yw:

- Gosod eiddo ar drwydded neu denantiaeth fyrddaliol sicr i berson digartref y mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd ddigartrefedd iddynt o dan Ddeddf 2014
- Gosodiadau mewn prosiectau tai â chymorth
- Gosod eiddo sy'n cael ei breswyllo mewn cysylltiad â chyflogaeth
- Gosod llety ar gyfer ceiswyr lloches
- Gosod llety dros dro i bersonau sy'n ymgymryd â chyflogaeth
- Gosod llety dros dro (adleoli) tra bod gwaith ar fynd
- Gosod deiliadaethau amaethyddol
- Gosod eiddo trwyddedig
- Gosod modurdai
- Gosod llety myfyrwyr
- Gosod eiddo busnes
- Gosod Eiddo Gofal Ychwanegol
- Gweithgareddau gosod gan y Partneriaid sydd yn rhan o gynllun gosod preifat penodol, cynllun gosod canolradd neu gynllun rhentu gyntaf

2. **Trosglwyddiadau Rheolaeth.** Nid yw darpariaethau'r Polisi Dyrannu Tai Cyffredin yn berthnasol i rywun sydd eisoes yn denant sicr neu'n denant byrddaliol sicr i un o'r Partneriaid oni bai fod y dyraniad yn cynnwys trosglwyddo llety tai ar gyfer y person hwnnw ac sy'n cael ei wneud ar ei gais efo neu hi ei hun.

Felly, mae trosglwyddiadau a ysgogir gan y Partner y tu allan i'r cynllun hwn. Mae'n bwysig nodi bod y gosodiadau hyn yn cael eu hannog a'u gweinyddu gan swyddogion y Partner. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan yr ymgeisydd gais eisoes wedi'i gofrestru gyda'r Tîm Opsiynau Tai ond byddai'r Partner yn annog trosglwyddo i eiddo penodol ac felly yn dwyn y gosodiad y tu allan i'r cynllun hwn. Byddai enghreifftiau yn cynnwys:

- Trosglwyddo a ysgogwyd gan y Partner am fod tenant aswiriedig neu aswiriedig byrddaliol cyfredol yn cael ei erlid neu am ei fod yn dyst i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod angen ei symud er ei les neu ei ddiogelwch ei hun.
- Ailosod eiddo i denant aswiriedig neu aswiriedig byrddaliol sydd yno eisoes
- Rhoi cyd-denantiaeth lle bo unig denant eiddo cyfredol wedi priodi, neu wedi llofnodi cytundeb partneriaeth sifil a bod y ddau gymar neu'r ddau bartner sifil yn ceisio tenantiaeth o'r newydd yn enw'r ddau/ddwy ar y cyd.
- I hwyluso symud tenant aswiriedig i lety cysgodol neu wedi ei gynllunio ar gyfer yr henoed gan ryddhau'r eiddo i wneud defnydd gwell o'r stoc tai.
- I hwyluso symud tenant aswiriedig i eiddo sy'n gweddu'n well iddynt lle mae cais am addasiadau mawr wedi ei wneud i'r eiddo presennol felly'n addasu

eiddo arall sy'n fwy addas i berson anabl gan ryddhau'r eiddo i wneud defnydd gwell o'r stoc tai

- Lle bo tenant aswriedig neu aswriedig byrddaliol yn marw a bod y person yn gymwys i olynu'r tenant o dan adran 17 Deddf Tai 1988 neu delerau'r denantiaeth sicr.
- Lle bod tenant aswriedig neu aswriedig byrddaliol yn marw , a bod y denantiaeth yn un am gyfnod penodol
- Lle bo tenantiaeth aswriedig yn cael ei roi drwy gyfnewid
- Lle bo tenantiaeth aswriedig yn cael ei rhoi i rywun a fyddai'n gymwys i olynu'r denantiaeth pe bai'r tenant sicr yn marw'n syth cyn i'r denantiaeth gael ei rhoi
- Lle bo tenantiaeth aswriedig neu aswriedig byrddaliol yn rhoi meddiant y caiff ei dirwyn i ben mewn modd arall wrth fynd ar drywydd gorchymyn llys a wneir o dan:
 - Adran 24 Deddf Achosion Priodasol 1973 (gorchymyn addasu eiddo yng nghyswllt achosion llys priodas), neu
 - Adran 17(1) Deddf Achosion Priodasol a Theuluol 1985 (gorchymyn addasu eiddo ar ôl ysgariad dramor); neu
 - Paragraff 1 o Atodlen 1 Deddf Plant 1989 (gorchymynion am gymorth ariannol yn erbyn rhieni) neu
 - Rhan 2 o Atodlen 5, neu baragraff 9(2) neu 9(3) o Atodlen 7 Deddf Partneriaethau Sifil 2004 (gorchymynion addasu eiddo yng nghyswllt achosion partneriaethau sifil yn y llys neu ar ôl diddymu partneriaeth sifil dramor, ac yn y blaen).
- Lle bo tenantiaeth aswriedig byrddaliol yn dod yn denantiaeth aswriedig ar ôl peidio â bod yn denantiaeth aswriedig byrddaliol.
- I ganiatáu tenant sy'n tan feddiannu'r eiddo symud i eiddo sy'n fwy addas lle mae risg i'r denantiaeth bresennol fethu (er enghraifft o ganlyniad i newidiadau yn y drefn budd-daliadau lles)

Atodiad 2

Ymgeiswyr anghymwys – Pobl o wledydd tramor

1. Nid yw rhai pobl o dramor yn gymwys i gael ddyraniad llety. Mae pobl o wledydd tramor nad ydynt yn gymwys yn perthyn i ddau gategori:

- Pobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo. Hynny yw mewn termau cyffredinol, pobl sydd angen caniatâd i fynd i mewn a/neu aros (p'un a yw'r caniatâd wedi'i roi ai peidio). A siarad yn gyffredinol mae'r term yn rhoi sylw i wladolion o wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir, a gwladolion gwledydd yn yr ardal honno nad oes ganddynt hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon. Personau o'r fath
 - Yn gymwys ar gyfer dyfarniad llety
 - *Oni bai* eu bod yn perthyn i ddsbarth a ragnodir yn gymwys gan Weinidogion Cymru
- Pobl nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, ond sydd er hynny'n cael rhagnodi yn "bersonau o dramor" gan Weinidogion Cymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys:
 - Nid ydynt yn gymwys os nad ydynt yn preswyllo fel arfer yn yr Ardal Deithio Gyffredin oni bai eu bod yn cael eu heithrio o'r prawf preswyllo fel arfer; neu
 - Eu bod yn anghymwys os ydynt yn cael eu rhagnodi'n anghymwys oherwydd eu hawliau penodol i breswyllo o dan Gyfraith y DU.

2. Am wybodaeth bellach am y ddau gategori cymhwysedd dylid cyfeirio at God Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Llety.

3. Pan wneir cais gan ddau neu ragor o bersonau ar y cyd, ni fyddant yn gymwys os yw naill un ohonynt yn berson a grybwyllir ym mharagraff 1 uchod.

4. Bydd y Tîm yn penderfynu a fydd ymgeisydd yn cael ei ystyried fel anghymwys. Bydd y Tîm yn ystyried unrhyw wybodaeth gan y Swyddfa Gartref, Asiantaeth Ffiniau'r DU, unrhyw heddlu lleol ac unrhyw wybodaeth sy'n cael ei gadw gan awdurdod tai lleol neu landlord cofrestredig cymdeithasol arall yn y Deyrnas Unedig a bydd lle y bo'n briodol yn cysylltu gyda Chanolfan Fisa a Mewnfudo y DU ar ôl rhoi gwybod i'r ymgeisydd y byddant yn gwneud hynny (yn unol â'r Cod)

5. Mae Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn cynnig canllawiau o ran y broses o benderfynu p'un a yw person yn gymwys am ddyraniad neu beidio am eu bod o dramor. Bydd Tîm yn ystyried y canllawiau hynny a byddant yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a rheoliadau cysylltiedig wrth benderfynu p'un a yw person yn gymwys am ddyraniad ai peidio.

6. Os bydd cais yn cael ei wneud gan denant sicr awdurdod lleol, neu denant sicr landlord cofrestredig cymdeithasol, yna bydd yn cael ei drin fel cais cymwys hyd yn oed os yw'r cais yn cael ei wneud gan 'berson o dramor' oni bai fod y cais yn cael ei wneud gan y tenant sicr neu ddiogel ei hun (neu yn achos tenantiaeth ar y cyd, cais gan un ohonynt).

7. Mae gan bob ymgeisydd sydd wedi'u nodi yn anghymwys ar sail statws mewnfudo'r hawl i dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw a'r sail dros y penderfyniad. Mae ganddynt yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw, ac i gyflwyno gwybodaeth newydd yn ogystal ag unrhyw sylwadau i gefnogi'r adolygiad hwnnw.

Drafft Cabinet Cyngor Gwynedd

Atodiad 3

Ymgeiswyr anghymwys – Ymddygiad annerbyniol

1. Gellir trin ymgeiswyr â hanes blaenorol o ymddygiad annerbyniol fel anghymwys ar gyfer dyraniad llety. Bydd y Tîm Opsiynau Tai yn ymarfer y disgresiwn a roddwyd i'r Cyngor a'r Cymdeithasau Tai partner yn ôl adran 160A(1)(b) a (7) o Ddeddf 1996 a gallai benderfynu bod unigolyn arbennig yn anghymwys os yw'r unigolyn arbennig hwnnw yn perthyn o fewn diffiniad sydd wedi ei lunio'n dynn.
2. Bydd pob ymgeisydd, neu aelod o'i deulu/theulu yn cael eu trin yn unigol neu fesul un ac un.
3. Bydd y tîm yn ystyried ymgeiswyr mewn Tri cham:
 - A oes tystiolaeth o ymddygiad annerbyniol difrifol (gweler 5 isod)
 - A oedd yr ymddygiad yn ddigon difrifol i olygu bod yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu yn anaddas i fod yn denant? (gweler 6 isod) ac
 - A ydi'r ymddygiad yn annerbyniol ar adeg y gwnaed y cais (gweler 7)?
4. Dim ond os ydi'r meini prawf uchod yn cael eu cyflawni y gellir pennu bod y cais yn anghymwys ar gyfer dyraniad llety
5. Diffinnir "Ymddygiad annerbyniol" fel ymddygiad yn unig, gan yr ymgeisydd, neu aelod o'i aelwyd, a fyddai, os yw'r ymgeisydd wedi bod yn denant diogel i Awdurdod Lleol, wedi rhoi hawl i'r Awdurdod gyhoeddi gorchymyn meddiant ar unrhyw sail yn Neddf Tai 1985, Rhan 1, Atodlen 2 (ac eithrio Sail 8) neu ar y sail absoliwt ar gyfer meddiannu yn adran 84A Deddf Tai 1985.
6. Mae "Anaddas i fod yn denant" yn ymddygiad a fyddai nid yn unig yn rhoi hawl i awdurdod lleol gyhoeddi gorchymyn meddiant fel y nodwyd uchod, ond na fyddai'r gorchymyn meddiant yn cael ei atal neu ei ohirio ar unrhyw amodau, h.y. bod yr ymddygiad yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gwneud gorchymyn meddiant llwyr.
7. "Ymddygiad Annerbyniol ar yr adeg y gwnaed y cais". Bydd y Tîm yn talu sylw i'r amgylchiadau ar yr adeg y mae'r cais yn cael ei ystyried a rhaid bodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn parhau yn anaddas ar yr adeg y mae'r cais yn cael ei ystyried. Bydd y Tîm yn ystyried pob cais ar ei sail ei hun ac yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol a allai gynnwys tystiolaeth y gall yr ymgeisydd ddangos fod yr ymddygiad wedi gwella. Oni bai bod amser sylweddol yn mynd heibio, cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd i ddangos gwelliant yn eu hymddygiad.
8. Rhaid i'r Tîm fod yn fodlon ar bob un o'r tair agwedd, ac yna mae'n rhaid iddynt ystyried sut y dylai arfer ei ddisgresiwn. Bydd pob cais yn cael eu hystyried ar ei haeddiant ei hun a'r ffeithiau ar y pryd. Rhaid ystyried amgylchiadau personol yr ymgeisydd (ac amgylchiadau personol aelwyd yr ymgeisydd), gan gynnwys ei anghenion iechyd ac anghenion meddygol, dibynyddion ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r cais.

9. Tra bydd asesiad ar gymhwysedd yr unigolyn i fod ar y gofrestr oherwydd eu hymddygiad yn cael ei gynnal, ni fydd unrhyw gais sy'n cynnwys yr unigolyn hwnnw yn cael ei ystyried ar gyfer tai cymdeithasol o dan y Polisi hwn.

10. Gall y Tîm wneud ymholiadau gydag unrhyw sefydliad neu unigolyn a allai gynorthwyo yn ei ymchwiliadau a allai gynnwys heddluoedd, awdurdodau lleol, landlordiaid cofrestredig cymdeithasol, landlordiaid eraill. Dylid disgwyl i'r ymgeisydd gydweithredu os oes angen eu caniatâd i'r wybodaeth gael ei darparu i'r Tîm er mwyn cynnal yr ymholiadau hyn ar yr amod ei bod yn rhesymol i ofyn am y wybodaeth.

11. Mae gan bob ymgeisydd sydd wedi'u nodi yn anghymwys ar sail ymddygiad annerbyniol yn y gorffennol yr hawl i dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw a'r sail dros y penderfyniad. Bydd ganddynt hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw, ac i gyflwyno gwybodaeth newydd yn ogystal ag unrhyw gynrychioliadau i gefnogi'r adolygiad hwnnw.

12. Mae'r Cod Canllawiau yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch cymhwysedd ar sail ymddygiad annerbyniol ac i'r weithdrefn adolygu a bydd y Tîm yn ei ystyried wrth wneud penderfyniadau

Atodiad 4

Math o deulu a gofynion ystafell wely

1. Defnyddir y polisi cyfatebol i asesu gofynion ystafell wely'r ymgeisydd. Mae'r tabl yn dangos y math o eiddo y gall yr ymgeisydd gael ei ystyried ar ei gyfer ar sail cyfansoddiad y teulu. Fel canllaw yn unig y dylai hwn gael ei ddefnyddio. Bydd y gymdeithas tai perthnasol yn pennu cyfansoddiad y teulu a chyfradd meddiannaeth pob eiddo unigol sy'n dod ar gael ar gyfer ei ail-osod drwy'r polisi hwn yn unol â pharagraff 4.3.

Aelwyd yr ymgeisydd	Maint yr eiddo				
	1 Ystafell Wely	2 Ystafell	3 ystafell wely	4 ystafell wely	5+ ystafell wely
Person sengl	✓	✓			
Cwpl	✓	✓			
Teulu gydag 1 plentyn		✓	✓		
Teulu gyda 2 blentyn		✓	✓		
Teulu gyda 3 plentyn			✓	✓	
Teulu gyda 4 o blant			✓	✓	✓
Teulu gyda 5 neu fwy o blant			✓	✓	✓

- Fel arfer mae byngalos yn cael eu dynodi ar gyfer pobl hŷn a/neu bobl gydag anabledd ac mewn rhai achosion maen nhw'n rhan o dai gwarchod yn unol â chymal 4.4 uchod.
- Gallai teuluoedd sydd â phlentyn fydd yn troi'n 10 o fewn 12 mis, lle mae bachgen a merch yn rhannu ar hyn o bryd, gael eu hystyried am ystafell wely ychwanegol, neu lle mae beichiogrwydd, neu oedran aelodau'r aelwyd yn golygu y byddai'r aelwyd yn gymwys am eiddo mwy mewn cyfnod rhesymol o amser. Mewn achosion o'r fath, efallai y caniateir i ymgeiswyr gofrestru am eiddo y byddant yn ei dan feddiannu ar hyn o bryd.
- Oherwydd prinder eiddo 4 ystafell wely, efallai y gellid ystyried teuluoedd sydd angen 4 ystafell wely am yr eiddo mwy sydd â 3 ystafell wely gydag ail ystafell dderbyn.
- Mae gan aelodau o'r teulu sydd yr un rhyw a dros 16 mlwydd oed (ac eithrio cyplau) hawl i'w hystafell eu hunain.
- Bydd ymgeiswyr sydd angen ystafell wely ychwanegol am ofalwr amhreswyl fel arfer yn cael eu cofrestru am eiddo ag ystafell wely ychwanegol.
- Lle mae cyflenwad cyfyngedig o eiddo gyda llai o ystafelloedd gwely mewn perthynas â galw, a chyflenwad rhesymol o eiddo gyda mwy o ystafelloedd gwely mewn perthynas â galw, efallai y bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer, ac yn cael cynnig, eiddo gyda mwy o ystafelloedd gwely nag sydd ei angen arnynt.

- Lle mae ymgeisydd ag angen brys, ond bod y cyflenwad o dai addas yn gyfyngedig, efallai y byddant yn cael eu hystyried ar gyfer, ac yn cael cynnig, eiddo ag mwy o ystafelloedd gwely nag sydd ei angen arnynt;
- Lle mae ymgeisydd yn ddigartref, ond mae cyflenwad o eiddo addas yn gyfyngedig, efallai na fyddant yn cael eu hystyried ar gyfer ac yn cael cynnig eiddo gyda mwy o ystafelloedd gwely nag sydd ei angen arnynt.

2. Os bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer eiddo sydd â mwy o ystafelloedd gwely nag sydd ei angen arnynt, byddai gallu'r ymgeisydd i fforddio'r rhent yn cael ei ystyried wrth benderfynu a ddylid cynnig yr eiddo.

Drafft Cabinet Cyngor Gwynedd

Atodiad 5

Rhestr termau

Y Bartneriaeth	Partneriaeth Gofrestr Tai Cyffredin Gwynedd
'Y Polisi'	Polisi Dyrannu Tai Cyffredin Gwynedd (y ddogfen hon)
'Tîm' neu 'y Tîm'	Y Tîm Opsiynau Tai yng Nghyngor Gwynedd
'Deddf 1996'	Deddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd)
'Deddf 2014'	Deddf Tai (Cymru) 2014
Partner	Aelod partner o Bartneriaeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd.
'Partner Cymdeithas Tai'	Cymdeithas tai sydd yn aelod partner o'r Bartneriaeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd.
'Cod' neu 'God Canllawiau'	Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Tai a Digartrefedd (Mawrth 2016)
'Y Cyngor'	Cyngor Gwynedd
'Y Sir' neu 'Sir Gwynedd'	Sir Gwynedd fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
'Panel'	Panel a sefydlir i ystyried adolygiad o benderfyniad a ystyriwyd yn gynharach o dan adolygiad

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

1 Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Polisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd.

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Adolygu Polisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd, yn benodol symud i ffwrdd o sistem blaenoriaethu anghenion ar sail cynllun pwyntiau i sistem 'bandio'.

Polisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd (Fersiwn Rhagfyr 2018). Mae'r fersiwn yma o'r Polisi yn ei hanfod yn bolisi newydd, gan ei fod yn wahanol iawn i'r fersiwn blaenorol.

Amcanion allweddol y Polisi yw ei fod yn

- helpu i ddiwallu anghenion tai a materion tai lleol yng Ngwynedd
- rhoi blaenoriaeth i'r rhai mewn angen mwyaf am dai a gyda'r cysylltiad cryfaf i'r ardal y maent yn gwneud cais amdano
- yn hawdd i ymgeiswyr a staff ddeall
- yn gyson yn blaenoriaethu ymgeiswyr mewn amgylchiadau tebyg
- yn galluogi holl ymgeiswyr i'w hystyried gan yr holl ddarparwyr tai cymdeithasol gyda dim ond un cais yn lletya
- cynnwys dewisiadau'r ymgeiswyr hyd y bo modd gwneud hynny
- gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai
- yn cymryd i ystyried amgylchiadau lleol
- yn darparu holl ymgeiswyr â chynngor am eu hopsiynau tai
- yn rhoi cymorth i ymgeiswyr i wneud cais fel sy'n ofynnol

Swyddogaethau ddydd i ddydd yn cynnwys:

- derbyn ceisiadau ar gyfer tai cymdeithasol
- asesu cymhwysedd i'w cynnwys ar y gofrestr tai cyffredin
- asesu ceisiadau i benderfynu pa fand blaenoriaeth y bydd y cais yn ymddangos

- cynnig tenantiaethau tai cymdeithasol
- darparu cyngor opsiynau tai i'r rhai mewn angen tai

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gwasanaeth Tai, Cyngor Gwynedd.

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Asesiad cychwynnol wedi ei lunio ym mis Tachwedd 2018. Hwn ydi'r ail fersiwn yn dilyn proses ymgynghori.

2 Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd yn cynnwys:

- Cyngor Gwynedd
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Grŵp Cynefin
- Tai Gogledd Cymru

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

Rhwng 3 Rhagfyr 2018 a 1 Mawrth 2019 cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Gosod Tai Gyffredin a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n gysylltiedig. Hysbyswyd yr ymgynghoriad yn gyhoeddus ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor a gwahoddwyd pawb ar y Gofrestr Tai Gyffredin i gymryd rhan. Roedd asiantaethau a sefydliadau sydd yn, neu allai, gynrychioli pobl gyda nodweddion gwarchodedig wedi eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Anabledd Cymru
- Body Positive
- Cais
- Canllaw
- Cymorth Cymru
- Cymorth i Ferched Cymru
- Cyngor Iechyd Cymunedol Betsi Cadwaladr
- Cynllun Adfocatiaeth Iechyd Meddwl
- Gofal
- Gorwel

- GISDA
- Gwasanaeth Iechyd Gyhoeddus
- Gwynedd Ni
- Hafan Cymru
- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
- Mantell Gwynedd
- National Federation of Gypsy Liaison Groups
- Tai Pawb
- Tîm Integredig Plant Anabl Derwen

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd nifer o sylwadau penodol a chyffredinol am y Polisi Gosod Tai Gyffredin arfaethedig, gyda rhai sylwadau yn berthnasol o safbwynt cydraddoldeb a grwpiau gwarchoddedig. Rhoddwyd sylw llawn i'r sylwadau gyda amryw newidiadau yn cael eu gwneud i'r Polisi o'r herwydd.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cynnwys polisiau gosod tai yng Nghymru yn cael eu dylanwadu gan ddeddf gwlad ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Deddf Tai 1996 (yn benodol Rhan 6 o'r Ddeddf) (fel y'i diwygwyd)
- Cod Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Osod Tai a Digartrefedd (2016)

Mae'r Ddeddf yn datgan ei fod yn anghenrhaidd i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gael cynllun ("eu cynllun dyrannu") ar gyfer pennu ar flaenoriaethau, ac ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth ddyrannu llety tai. Hwn ydi'r Polisi Gosod Tai Gyffredin.

Mae'r Cod yn arweiniad a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r Cod wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â digartrefedd a dyrannu tai. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Canllawiau Gweinidogol a gyhoeddwyd o dan ddarpariaethau'r Ddeddf a geir yn y Cod.

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nac oes.

3 Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau

arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Negyddol	<p>Nid pawb sydd yn gymwys i fod ar y Gofrestr Tai Gyffredin. Mae rheoliadau statudol yn pennu na all dinasyddion rhai cenedlaethau fod yn gymwys ar gyfer dyraniad eiddo cymdeithasol, ac mae'r Polisi yn cadarnhau hynny.</p> <p>Yn ddarostyngedig i'r rheoliadau hyn, nid yw'r Polisi yn gwahaniaethu ar sail hil na chenedligrwydd.</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Trwy ddefnyddio cysylltiad lleol fel dull o bennu pwy a gaiff eu rhoi ym mha fand, credir y bydd y polisi yn bositif o ran gwarchod cymunedau Cymreig, gyda 65.4% o drigolion Gwynedd (3 oed a throsodd) yn gallu'r Gymraeg.</p>
Anabledd	Positif / negyddol	<p>Mae'n ofyn statudol i sicrhau bod blaenoriaeth resymol yn cael ei ddangos i ymgeisydd (neu aelod o'r teulu) sydd angen symud am resymau meddygol neu lles gan gynnwys seiliau'n gysylltiedig ag anabledd (adran 167(2) o'r Ddeddf). Gall hyn felly gael ei weld yn bositif.</p> <p>Fodd bynnag gall bod heriadau ar ddarparu eiddo ar gyfer pobl gyda anabledau corfforol oherwydd natur y stoc dai cymdeithasol, hynny yw diffyg cyflenwad cymharol o eiddo hygyrch neu eiddo gyda addasiadau ynddynt o gymharu a'r galw am eiddo o'r fath. Noder bod eiddo cymdeithasol newydd a ddatblygir yn cyrraedd safonau eiddo hygyrch.</p> <p>Dylid nodi nad ydi'r Polisi yn ei hanfod yn negyddol, ond gall gweithrediad y Polisi fod dan anfantais.</p>
Rhyw	Dim	<p>Defnyddir gwybodaeth am ryw ymgeiswyr ac aelodau'r teulu ar gyfer asesu anghenion o ran maint eiddo ac anghenion ystafell wely, ac i bennu os oes gorlenwi neu dan-feddiannu yn bresennol a all effeithio'r flaenoriaeth a roddir i gais.</p>
Oedran	Dim	<p>Gall unrhyw un dros 16 oed wneud cais ar gyfer tai cymdeithasol (gyda gwarantwr os ydynt yn 16 neu 17). Mae'r polisi hefyd yn gwneud cyfeiriad penodol at</p>

		wahanol grwpiau oedran (ifanc a hŷn) o ganlyniad i ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar bobl ar wahanol adegau yn eu bywydau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol, atal plant rhag mynd i ofal, pobl hŷn sy'n dymuno symud i gynlluniau dynodedig ar gyfer personau hŷn (Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â llety addas yn seiliedig ar Anabledd oherwydd yn aml mae Oedran ac Anabledd yn faterion cysylltiedig sy'n effeithio unigolyn ar yr un pryd).
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Nid yw cyfeiriadedd rywiol ymgeisydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses o asesu cais am eiddo cymdeithasol. Gofynnir y cwestiwn at bwrpas monitro cydraddoldeb a gall ymgeisydd ddewis peidio ag ateb y cwestiwn.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Nid yw crefydd, cred neu ddiffyg cred ymgeisydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses o asesu cais am eiddo cymdeithasol. Gofynnir y cwestiwn at bwrpas monitro cydraddoldeb a gall ymgeisydd ddewis peidio ag ateb y cwestiwn.
Ailbennu rhywedd	Positif	Er nad yw'r Polisi'n gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr sydd o'r un rhyw fel y neilltuwyd iddynt adeg geni, a'r rheini sydd wedi trawsnewid, cydnabyddir y gallai pobl trawsryweddol ddioddef camdriniaeth mewn cymdeithas. Mae'r Polisi yn caniatáu ar gyfer ystyriaeth ar gyfer angen brys am dai pe byddai ymgeisydd trawsryweddol yn yn ddigartref oherwydd camdriniaeth neu droseddau casineb.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Mae'r Polisi yn cyfeirio at feichiogrwydd a mamolaeth o ran gofynion ystafell wely'r aelwyd. Gall effeithio ar gais gan bod angen edrych ar amgylchiadau'r teulu ar amser gwneud y cais ac ar gyfer y dyfodol agos o ran addasrwydd eiddo.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Mae'r Polisi yn cyfeirio at statws priodasol a phartneriaeth o ran gofynion ystafell wely'r aelwyd, ond does dim gwahaniaethu yma rhwng priodas, partneriaeth sifil neu bartneriaeth cyd-fyw.

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a

pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Mae'r Polisi yn seiliedig ar Ddeddfwriaeth ac mae rhoi sylw i faterion cydraddoldeb yn ddyletswydd ar y Cyngor yn unol a Cod Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Osod Tai a Digartrefedd. Mae'r Polisi yn rhoi pobl sydd yn dioddef o aflonyddu neu erledigaeth yn y categori 'angen tai', ac os ydi'r aflonyddu neu erledigaeth o natur treisiol yna bydd yn y categori 'angen brys am dai'.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Mae'r Polisi yn hyrwyddo cyfleon cyfartal, fodd bynnag rhaid hefyd ystyried bod rhaid i'r Polisi roi blaenoriaeth resymol i 5 categori statudol o ymgeisydd.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru i weithredu'r Polisi yma. Bydd ymgeiswyr yn cael eu cefnogi gan amryw asiantaethau cyhoeddus a thrydydd sector yn eu hymgais i gael eiddo cymdeithasol.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ni ragwelir effaith sylweddol bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb na'r Ddyletswydd Gyffredinol. Noder bod y Polisi yn cynnwys darpariaeth i Banel o swyddogion proffesiynol bennu blaenoriaeth uwch i geisiadau yn seiliedig ar amgylchiadau'r cais.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ni ragwelir effaith sylweddol negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb na'r Ddyletswydd Gyffredinol. Noder bod y Polisi yn cynnwys darpariaeth i Banel o swyddogion proffesiynol bennu blaenoriaeth uwch i geisiadau yn seiliedig ar amgylchiadau'r cais.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Hil – Bydd rhaid cydymffurfio gyda deddfwriaeth ar fynediad i'r gofrestr ar gyfer pobl sy'n destun rheolau mewnfudo a phobl o dramor.

Anabledd – bydd datblygiadau eiddo cymdeithasol newydd yn cyrraedd safonau hygyrchedd modern fydd yn golygu mwy o eiddo yn y stoc gymdeithasol i ddiwallu anghenion ymgeiswyr gydag anableddau.

Noder bod y Polisi yn cynnwys darpariaeth i Banel o swyddogion proffesiynol bennu blaenoriaeth uwch i geisiadau yn seiliedig ar amgylchiadau'r cais.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.



5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?


Bydd y Polisi Gosod Tai Gyffredin yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu pan y bydd yna newid mewn deddfwriaeth neu arweiniad statudol neu ar gais y Bartneriaeth.

Atodiad 3 – Dadansoddiad Holiadur yr Ymgynghoriad – Trosolwg a Chrynodeb


Yma ceir crynodeb o'r ymatebion i holiadur yr ymgynghoriad. Derbyniwyd 123 o ymatebion, gyda 113 yn cael eu cyflwyno ar-lein a 10 trwy holiadur papur. Mae'r graff cyntaf yn dangos i ba grŵp yr oedd yr ymatebwyr yn perthyn, gyda'r graffiau dilynol yn dangos yr ymatebion i'r 7 cwestiwn a ofynwyd yn yr holiadur.




2. A ydych yn cytuno y dylai pobl â chyswllt cymunedol gael mwy o flaenoriaeth?




3. A ydych yn cytuno y dylai pobl sydd wedi bod ar y gofrestr hirach gael mwy o flaenoriaeth?




4. A ydych yn cytuno mai dim ond pobl gydag anghenion tai cymdeithasol ddylai fynd ar y gofrestr?




5. A ydych yn cytuno y dylai person gyda mwy na 5 mlynedd o gysylltiad lleol gyda Gwynedd gael blaenoriaeth uwch ar gyfer tai cymdeithasol?



6. A ydych yn cytuno y dylid lleihau blaenoriaeth person sydd wedi gwrthod cynnig eiddo heb roi rheswm dilys dros y gwrthodiad?



7. A ydych yn cytuno y dylid lleihau blaenoriaeth person oherwydd ei ymddygiad (e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol, dyledion tenantiaeth)?



CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod: 25ain o Fehefin 2019
Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt: Arwel Wyn Owen

Teitl yr Eitem: Strategaeth Tai – Dyraniad Ariannol ar gyfer 2019/20

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Yn wyneb yr angen i osgoi colli grantiau a'r angen i barhau gyda chynlluniau presennol, cymeradwyo rhyddhau £1.25m o'r Gronfa Premiwm Treth Gyngor ar gyfer y 3 cynllun a nodir yn Atodiad 1 ar gyfer 2019-20.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Rydym ar fin gorffen ymgynghori ar y Strategaeth Dai arfaethedig a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor yn y misoedd nesaf. Bydd yn amlinellu blaenoriaethau a chynllun gwariant ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Er mwyn osgoi oedi a hwyluso cyflawni mewn rhai meysydd penodol yn ystod 2019-20 mae'n angenrheidiol cadarnhau dyraniad arian ar gyfer rhai gweithgareddau penodol rwan os am fedru eu cyflawni yn ystod 2019/20.

3. CYFLWYNIAD

Mae'r tabl atodol yn amlinellu'r cynlluniau unigol fydd i'w gwireddu yn ystod 2019-2020 gan ganolbwyntio ar weithgaredd sydd angen dyraniad er mwyn gwneud gwahaniaeth o fewn meysydd sy'n creu her neu'n lle mae dibyniaeth ar raglenni grant.

Mae cynlluniau yn creu cyfleon i ddenu arian ychwanegol o ffynonellau allanol er mwyn uchafu cyrhaeddiad. Wrth ymrwymo buddsoddiad byddwn yn gallu parhau a chynlluniau presennol, denu nawdd allanol a meithrin partneriaethau. Rydym yn awyddus bod y dyraniad 2019/20 yn cael ei gadarnhau yn fuan er mwyn uchafu'r ffynonellau ariannol a manteisio ar gyfleon i wneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd.

Mae'r rhestr atodol yn cynnwys cynlluniau, fydd yn ein galluogi i adeiladu ar lwyddiant blaenorol ac ymestyn cynlluniau llwyddiannus gan gynyddu allbynnau. Bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y themâu, er mwyn gallu manteisio ar gyfleon sy'n ymddangos ac uchafu'r raglenni grant allanol.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw sicrhau bod adnodd priodol mewn lle fydd yn gosod cyfeiriad cadarn ar gyfer 2019/20 ac yn osgoi oedi.

Mae Cyngor Gwynedd wedi codi treth ychwanegol drwy'r premiwm ar ail gartrefi a chartrefi hir dymor gwag ac wedi ymrwymo y byddai cyfran o'r arian a gasglwyd yn cael ei briodoli i fentrau er mwyn gwneud gwahaniaeth yn y maes tai.

Mae Atodiad 1 yn cynnig 3 cynllun blaenoriaeth cynnar ar gyfer gwario cyfran o'r arian yn 2019-20.

Bydd defnydd y gweddill o'r adnoddau yn ddibynnol ar flaenoriaethau'r Strategaeth Dai arfaethedig, fydd yn cael ei chyflwyno am gymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor yn y misoedd nesaf.

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Ar ôl derbyn cadarnhad bydd modd gweithredu ar y rhaglen waith.

6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

Prif Swyddog Cyllid :

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad Arian Strategaeth Tai a'r atodiad, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol. Credaf byddai'n rhesymol i'r Cabinet gymeradwyo i ryddhau £1.25m o'r Gronfa Premiwm Treth Gyngor ar gyfer dechrau cyflawni'r 3 cynllun blaenoriaeth gynnar a gynhigir yn yr Atodiad yn ystod 2019-20.

Swyddog Monitro :

Nodir yn yr adroddiad fod y Strategaeth Dai arfaethedig yn cael ei pharatoi ar gyfer penderfyniad yn y misoedd nesaf. Fodd bynnag cydnabyddir hefyd fod yr amserlen a'r addasidadau mewn grantiau yn golygu fod achos ar gyfer ariannu prosiectau er cynnal cynnydd. Mae'r argymhelliad yn gwarchod sefyllfa'r Cyngor heb ragfarnu y Strategaeth Dai arfaethedig.

Aelod/au Lleol :

Dim yn berthnasol.

Ymgynghori

Cyflwynwyd copi o'r Strategaeth Drafft ger bron y Pwyllgor Craffu – Gofal ar y 28ain o Fawrth 2019 yn dilyn trafodaeth anffurfiol gyda'r Pwyllgor Craffu ar y 31ain o Ionawr 2019. Mae'r cynnwys wedi addasu i gyfarch sylwadau ddaeth i law a chafodd y cynnwys gefnogaeth y Pwyllgor.

Mae copi o'r Strategaeth wedi ei trafod gyda phartneriaid allweddol er mwyn gallu cyd-drefnu a sicrhau bod modd cyflawni o fewn yr amserlenni a gosodwyd copi drafft ar safle We y Cyngor.

ATODIAD 1

CYNLLUNIAU I'W ARIANNU YN YSTOD 2019-20

CYNLLUNIAU FESUL MAES BLAENORIAETH - THEMA		2019-2020
A- SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF	Cynllun (1)	£300k
B- HELPU POBL i GANFOD CARTREF ADDAS	Cynllun (2)	£700k
C- CARTREFI SY'N GYFEILLGAR I'R AMGYLCHEDD	Cynllun (3)	£250k
CYFANSWM		£1.25m

FYNHONELL ARIANNU CYNLLUNIAU 2019-2020

Buddsoddiadau Tai Presennol	2019-2020 (£)
Premiwm Treth Cyngor a Tai Gwag	2,700k

RHESTR O'R CYNLLUNIAU I'W GWIREDDU YN YSTOD 2019-20 FESUL MAES BLAENORIAETH

A - SICRHAU BOD NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD			
	Teitl	Disgrifiad o'r Cynllun Syniad	Cost y Cynllun 2019/20 Buddsoddiad
1	Llety Pwrpasol [PODS Unedau llai]	Cynllun arloesol i ddarparu unedau llety (modular) ar gyfer pobl sengl sydd heb fan addas i fyw. Bydd y cynllun y atal digartrefedd a lleihau y defnydd o lety dros dro gan sicrhau llety o safon uchel am rent rhesymol sy'n rhad i'w gwresogi a'i cynnal.	£300k - Gwedd 1 Caernarfon 4 uned. (Llywodraeth Cymru wedi cynnig nawdd cyfatebol)
B - HELPU POBL I GANFOD CARTREF ADDAS			
	Teitl	Disgrifiad o'r Cynllun	Cost y Cynllun 2019 Buddsoddiad
2.	Cynllun Tai Gwag (Prynwr Tro Cyntaf a Landlordiaid)	Mae dwy elfen i'r cynllun sef elfen landlordiaid ac elfen prynwyr tro cyntaf. Mae'r elfen prynwyr tro cyntaf ac yn esblygiad ac estyniad i'r cynllun Tai Gwag lle cynhigir cymorth grant neu fenthyciad i brynwyr tro cyntaf uchafu safon eiddo gwag a dychwelyd yr eiddo yn ôl i ddefnydd. Ma'n cyfarch dwy flaenoriaeth, sef helpu brynwyr tro cyntaf i gael troedle yn y farchnad a dychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Cyfle i help mwy o bobl ifanc i fanteisio ar gynllun sy'n gweithio. Mae cynllun peilot wedi ennyn ymateb cadarnhaol gyda'r galw uwchlaw yr adnodd oedd wedi ddyrannu. Gellir hefyd cymell landlordiaid i wella ac uchafu safon eiddo. Bydd landlordiaid sy'n derbyn cymorth yn gorfod ymrwymo i gynnig eiddo o safon uchel am rent fforddiadwy (ar neu islaw Lwfans Tai Lleol) am isafswm o 5 mlynedd ac i dderbyn enwebiadau gan y Cyngor.	£700k 45 uned (Peth arian cyfatebol drwy gynllun VVP)
C. SICRHAU BOD CARTREFI GWYNEDD YN GYFEILLGAR I'R AMGYLCHEDD			
	Teitl	Disgrifiad o'r Cynllun Syniad Budd i bobl Gwynedd	Cost y Cynllun 2019 Buddsoddiad
3.	Cronfa Trwsio Tai	Cynllun i berchnogion bregus adfer a gwella cyflwr ei tai. Y nod fydd helpu pobl fregus i gadw a chynnal ei hannibyniaeth drwy arolygu gwelliannu hanfodol a gwaith brys i'w heiddo. Potensial i adfer peth buddsoddiad yn y dyfodol pan fydd eiddo yn cael ei werthu.	£250k

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	25 Mehefin 2018
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679708
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2018-19

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r cabinet nodi a derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes cydraddoldeb, fel canlyniad i Gynllun Cydraddoldeb 2016-20 ac yn fwy eang. Mae'r adroddiad yn gofnod cywir o'r hyn sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

Mae hefyd yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud Adroddiad Blynyddol ac i nodi gwybodaeth cyflogaeth bob blwyddyn (Deddf Cydraddoldeb 2010).

3 CYFLWYNIAD

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nododd y Cyngor y pedwar amcan y mae am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion wedi

eu dewis ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth fewnol, llais a chyfranogiad aelodau o'r cyhoedd a data ar nodweddion cydraddoldeb. Ychwanegwyd pumed amcan y flwyddyn diwethaf (sef yr olaf yn y rhestr isod), eto ar sail tystiolaeth.

Yr amcanion ydi:

- Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
- Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig
- Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau.
- Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sydd angen gwybodaeth mewn fformatau gwahanol

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys atodiad sy'n rhoi manylion cyflogaeth ar sail nodwedd gwarchodedig cydraddoldeb.

4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Cynllun Cydraddoleb Strategol 2020-24

5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae asesiad effaith cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi ei ddiweddarau.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

i) Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ii) Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad blynyddol yn adlewyrchu cynnydd a rhoi trosolwg yn y maes pwysig yma. Mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi gwreiddio ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor ac mae hyn i'w groesawu o safbwynt priodoldeb.



Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb

2018/19

www.gwynedd.llyw.cymru



Pwrpas yr Adroddiad

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil (cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nododd y Cyngor y pedwar amcan y mae am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Ychwanegwyd un pellach yn Adroddiad Blynyddol blwyddyn diwethaf, oherwydd fod tystiolaeth lleol yn dangos fod o'n rywbeth oedd angen gweithio arno ymhellach. Mae'r amcan newydd yn bumed yn y rhestr o bump amcan, sef:

- Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
- Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig
- Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau.
- Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sydd angen dogfennau mewn fformat gwahanol.

Bwriad y ddogfen yma yw nodi rhai o'r pethau pwysicaf mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn Ebrill 2018 i Fawrth 2019 ym maes cydraddoldeb. Mae'n bwysig sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael sylw dyledus ac yn treiddio'n naturiol i holl waith y Cyngor.

Cynllun Gweithredu

Amcan 1



Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion Cydraddoldeb

Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?

Beth yw'r amserlen?

1.1 Cryfhau cyswllt y Cyngor gyda grwpiau penodol a sefydlu grŵp craidd cydraddoldeb. Rhannu'r wybodaeth a ddaw o'r grŵp drwy'r Cyngor.

2016-17

1.2 Rhannu gwybodaeth o ymarferiadau casglu barn ar fewnrwyd y Cyngor fel ei fod ar gael i bawb. (Ystyriaeth bellach i'w roi i ganfod y cyfrwng gorau)

Parhaus

1.3 Cryfhau'r elfen cydraddoldeb yn y Llawlyfr Ymgysylltu ar sail ymarfer dda er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu hatgoffa o'r budd sy'n dod o dderbyn barn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb, yn ogystal â'r ddyletswydd i wneud hynny.

2016-17

Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2018-19?

1.1 Mae'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn parhau i gyfarfod yn chwarterol gyda tua 25 o bobl ar y rhestr bostio. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda nifer o grwpiau allanol hefyd e.e. ffoaduriaid, pobl ag anabledd dysgu, Cyngor Pobl Hŷn, pobl ifanc newydd adael gofal, Grŵp LHBT+ GISDA a.y.b. Mae eu barn wedi helpu yn arbennig i lywio'r gwaith arbedion drwy nodi pwysigrwydd gofal ac addysg - dau faes a dderbyniodd warchodaeth. Defnyddwyd manylion y rhestr mudiadau er mwyn hyrwyddo'r holiadur hefo grwpiau nodwedd oedd ddim yn aelodau o'r grŵp craidd hefyd.

1.2 Yn digwydd

1.3 Wedi ei wneud 2017-18

Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb



Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?

Beth yw'r amserlen?

2.1 Rhoi cymorth a hyfforddiant i swyddogion i sicrhau fod ganddynt wybodaeth am eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod asesiadau effaith yn rhan o ddatblygiad unrhyw bolisi, prosiect neu weithdrefn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Parhaus

2.2 Sicrhau fod y negeseuon sy'n dod o geisio mewnbwn grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhannu drwy'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys mewn asesiadau effaith.

Parhaus

Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2018-19?

2.1 Mae'r e-fodiwl cydraddoldeb wedi ei roi ar wefan y Cyngor ac mae wedi ei hyrwyddo i ryw raddau ond bychan yw'r ymateb. Mae angenrheidiol ei hysbysebu'n bellach yn ystod 2019-20. Mae'n bwysig fod mwy o bobl yn gwybod beth yw eu dyletswydd. Mae'r Swyddog Polisi a Chydraddoldeb yn parhau i addysgu swyddogion ynglŷn â'r dyletswyddau mewn ffyrdd eraill, drwy siarad hefo unigolion, mynychu grwpiau tîm a thimau rheoli. Y bwriad yw i hyn sicrhau fod pob aelod staff yn ymwybodol o'i ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn iddynt allu gweithredu'n addas ar gyfer pobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Mae'r wybodaeth ar y fewnrwyd wedi ei hyrwyddo yn ystod y flwyddyn ond mae angen gwneud mwy o hyn hefyd.

2.2 Pan mae'r Swyddog Cydraddoldeb rhoi cymorth i swyddogion greu asesiadau effaith mae'n sicrhau fod yr wybodaeth a ddaeth o gyfarfod hefo grwpiau gwahanol ar gael iddynt. Mae'r wybodaeth wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd. Mae hyn yn cryfhau asesiadau effaith cydraddoldeb.

Amcan 3

Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.



Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?

Beth yw'r amserlen?

3.1 Cynnal arolwg lleol i adnabod yr elfennau sy'n rhwystr i unigolion rhag sefyll etholiad i fod yn gynghorydd lleol

2016/17 –
2017-18

3.2 Gweithredu (lle'n bosib) ar ganlyniadau'r uchod i symud rhwystrau

2016/17 –
2017-18

3.3 Amrywiol ddulliau i godi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd o ddemocratiaeth a'r cyfleoedd i gynrychioli fel cynghorydd lleol

2016/17 –
2017-18

Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2017-18?

Y rhelyw o'r gwaith yma wedi digwydd yn barod wrth baratoi at etholiadau Llywodraeth Leol 2017. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi dechrau meddwl am hybu amrywiaeth ar gyfer y cylch etholiadol nesaf ac i'r dyfodol yn y tymor hwy.

Yn ystod 2018-19 cynigwyd cwrs Rhagfarn Ddiymwybod i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn codi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiymwybod ac ystyried sut i ymateb iddo. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal hyfforddiant mewnol ar ragfarn ddiymwybod i'r Aelodau i gyd yn fuan ym mis Ebrill ac mae'r ymateb agoriadol wedi bod yn bositif.

Amcan 4

Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau



Beth mae'r Cyngor am ei wneud yn ystod 2016-20?

Beth yw'r amserlen?

4.1 Ymgyrch i lenwi bylchau yn y data nodweddion cydraddoldeb

Cychwyn ym Mehefin 2016

4.2 Cwblhau awdit tâl

2016/17 – 2019/20.

4.3 Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r awdit tâl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall

2016/17 – 2019/20

Beth ddigwyddodd yn ystod 2018-19?

4.1 Roedd ein holiadur monitro staff wedi dyddio ac nid oedd yn gofyn y cwestiynau cywir am rai nodweddion, yn arbennig crefydd. Mae holiadur newydd sydd yn ateb yr angen yn well yn awr yn fyw. Negeseuon amrywiol wedi eu cyhoeddi'n pwysleisio'r angen i'w gwblhau er mwyn cael ffigyrau gwerth chweil i weithredu arnynt, er, wrth gwrs, nid os gan y Cyngor yr hawl i fynnu ymateb. Dan yr amgylchiadau, mae'n anrffod fod y nifer oedd wedi ei gwblhau er mwyn adrodd ar 31 Mawrth 2019 yn sylweddol is na'r flwyddyn ddiwethaf. Wedi dweud hynny, rhaid cofio fod yr wybodaeth rydym yn ei gasglu erbyn hyn yn ateb ein dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 llawer gwell

4.2 Wedi ei gwblhau

4.3 Mae Blaenoriaeth Gwella 3 yng Nghynllun y Cyngor, sef Merched mewn Arweinyddiaeth, yn hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y nifer o ferched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan h.y. 70% yn ferched a 30% yn ddynion, er i'r awdit tâl diweddar ddangos nad oes yna fylchau cyflog cyfartal.

Amcan 5

Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sydd angen dogfennau mewn fformat gwahanol

Beth mae'r Cyngor am ei wneud yn ystod 2016-20?

Beth yw'r amserlen?

5.1 Ymgysylltu hefo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a grwpiau eraill perthnasol i adnabod yr angen mwyaf

parhaol

5.2 Gweithredu ar yr hyn a ddywedir, os yn bosib

parhaol

Beth ddigwyddodd yn ystod 2018-19?

Mae trafodaeth wedi ei gynnal hefo BDA (British Deaf Association) sy'n gyfrifol am Siarter Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL). Gan nad oes llawer o bobl yng Ngwynedd yn ddefnyddwyr BSL (35 yn ôl y cyfrifiad diwethaf) camau bychain mae nhw'n disgwyl gennym i gyrraedd sefyllfa i arwyddo'r Siarter. Rydym felly'n gweithio i roi fideo ar y Wefan Gorfforaethol er mwyn hysbysu pobl o'u hawliau a'u hannog i ofyn am ddogfennau BSL os ydynt eu hangen. Byddwn wedyn yn gwirio i weld beth arall sydd ei angen.

Mae trafodaeth wedi ei gynnal hefo Grwpiau Hunan-adfocatiaeth (pobl hefo Anabledd Dysgu) ac mae nhw'n awyddus iawn i gael dogfennau Hawdd eu Darllen. Bydd angen gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r fformat yma, a fformatau eraill, yn ystod y flwyddyn nesaf. Paratôdd y Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ddogfennau Hawdd eu Darllen ar gyfer yr ymgynghoriad Blaenoriaethau Cyngor. Mae dogfennau Hawdd eu Darllen yn fformat arbennig sy'n defnyddio lluniau a brawddegau syml er mwyn bod yn haws i'w ddarllen. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf, plant a phobl ifanc neu bobl sydd â sgiliau llythrennedd is am unrhyw reswm arall.

Bydd angen ymgysylltu ymhellach hefo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn ei gyfanrwydd yn ystod 2019-20.

Agorodd Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog ystafell arbennig ar gyfer cynnal sesiynau Grwpiau Anogaeth ym mis Ebrill 2018. Mae staff Ystafell yr Enfys yn canolbwyntio ar sgiliau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol law yn llaw â sgiliau iaith a chyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Derbyniwyd cefnogaeth wych i'r fenter gan fusnesau lleol a'r gymuned, gyda bron popeth ar gyfer yr ystafell yn rhoddion, ynghyd ag oriau o lafur. (Oedran, Anabledd)



Ym Mai 2018 cyhoeddodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gynllun newydd i ddangos sut fydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i ddiwallu anghenion gofal pobl gogledd Cymru. Roedd y Bwrdd (Cynghorau'r Gogledd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid eraill) yn ymateb i'r asesiad poblogaeth a amlygodd gynnydd yn yr angen am ofal a chymorth. Mae'r cynllun, yn sgil ymgynghoriad eang, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws gogledd Cymru, ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr a phobl â chyflyrau iechyd meddwl. (Anabledd)



Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia, 21-27 Mai, bu diwrnodau agored DementiaGo yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, Y Bala, a Chanolfan

Bro Dysynni, Tywyn. Roedd croeso i unrhyw un oedd yn bryderus am eu cof neu am ddatblygu dementia, neu'n gofalu, ddod i gyfarfod â staff y rhaglen gweithgareddau corfforol. Roedd cyfle i ymuno â dosbarth ymarferion ysgafn mewn cadair, cael paned a derbyn gwybodaeth gan y Gymdeithas Alzheimers a sefydliadau lleol eraill. Cynhaliwyd sesiwn gwybodaeth 'Ffrindiau Dementia' i ddysgu ychydig mwy am y cyflwr, a sut i gefnogi pobl yn y gymuned. (Anabledd)



Yn ogystal, yn ystod yr wythnos, bu disgyblion o Ysgol y Gorlan, Tremadog, yn dysgu am y cyflwr a'r pethau bach y gall pobl wneud i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia. Cafodd y disgyblion y cyfle i gwrdd â phobl sy'n byw gyda dementia a chymryd rhan mewn

gweithgarwch corfforol gyda nhw yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn.
(Oedran, Anabledd)

Bu gwaith uwchraddio yn Llys Cadfan (Tywyn), Plas Hafan (Nefyn) a Phlas Hedd (Bangor) mewn ymateb i alwadau lleol am wasanaethau gofal arbenigol i bobl â chyflyrau fel dementia. Gall pobl ddal i fyw o fewn eu cymunedau, hefo aelodau o'r teulu'n ymweld a chynnal cyswllt hollbwysig. Ceir cydweithio rhwng tîm



gofal y Cyngor a staff meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofalu am hyd at wyth o bobl â dementia ym mhob safle. Mae Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y gwaith. (Anabledd, Oedran)

Yn ddiweddar mae pobl oedd yn derbyn cefnogaeth ym Manton wedi symud ymlaen i dderbyn gwasanaethau mewn lleoliadau eraill yn yr ardal leol. Maent yn derbyn pecyn gofal personol, unigol gyda chyfleoedd i ddysgu a datblygu fel aelodau annibynnol o'r gymuned. Mae rhain yn gwneud gwaith coed ar safle Glynllifon ac eraill yn mynychu Menter Fachwen a Seren neu fynychu darpariaeth gymunedol newydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon. Mae cyfleoedd hyfforddi achrededig, i ddatblygu sgiliau a hyder unigolion, i'w galluogi, maes o law, i symud ymlaen i leoliad gwaith neu goleg. Mae hyn yn dilyn dros y ddwy flynedd o drafod gyda'r unigolion a'u teuluoedd er mwyn canfod beth oeddynt eisiau ar gyfer y dyfodol. (Anabledd)



Agorwyd caffi a stafell gymunedol wedi eu huwchraddio yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon, ym mis Mehefin gan ddarparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion sy'n adnabyddus i dîm anabledd dysgu. Mae'n fodel newydd ar ddarparu gwasanaeth er mwyn gweithio tuag at weledigaeth y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i annog annibyniaeth. Bydd yr unigolion yn datblygu sgiliau bywyd ymarferol pwysig, gan ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u grymuso i fyw bywydau llawn.

Hwylusir ystod eang o weithgaredd cymunedol, i ateb anghenion y gymuned leol, fel grwpiau rhieni a phlant, sesiynau 'Paned a Sgwrs', gweithgareddau iechyd a lles a chlinigau 'pop-up' cyngor a gwybodaeth gan asiantaethau. Derbyniwyd cyllid o Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru. (Anabledd)

Amlygodd adran YGC y Cyngor rôl rhai o'r merched sy'n gweithio o fewn yr adran ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Merched mewn Peirianeg ym mis Mehefin. YGC sy'n gyfrifol am ystod eang o brosiectau adeiladwaith,

rheoliadau adeiladu a prosiectau amgylcheddol. Y gobaith yw ysbrydoli mwy o ferched ifanc i ystyried gyrfa yn y maes ac annog mwy o amrywiaeth yn y genhedlaeth nesaf o beirianwyr. (Rhyw)



Hefyd ym mis Mehefin cynhaliodd Amgueddfa Lloyd George, a Neuadd Llanystumdwy (ar y cyd gydag Archif Merched Cymru), ddigwyddiad i ddathlu 100 mlynedd ers i rai merched gael yr hawl i bleidleisio. Cynhaliwyd ail-gread o ddigwyddiad yn 1912 pan darfwyd ar Lloyd George wrth agor y neuadd bentref gan aelodau o'r WSPU (Women's Social and Political Union) fel rhan o'u hymgyrch. Hefyd fe gynhaliwyd sgwrsiau, cyfweiliadau a chystadleuaeth ysgolion fel rhan o'r dathliad. Yn ogystal roedd 'Sioe ar Daith', sef y siawns i ddod ag eitemau sy'n cofnodi hanes a bywyd merched yng Nghymru i gael eu cofnodi a'u sganio gan arbenigwyr. (Rhyw)

Cymerodd blant a phobl ifanc Dyffryn Nantlle ran mewn llu o weithgareddau fel rhan o 'Ha' Pen Hapus! 2018' yn ystod yr haf. Roedd pob math o ddigwyddiadau - chwaraeon, dysgu am archaeoleg, pysgota a chwrs ffilm i enwi ond rhai. Daeth nifer o gyrrff a grwpiau at ei gilydd i gynnig cymorth i'r fenter yn ogystal â staff y Cyngor a chynghorwyr lleol. Mae'r wyl yn rhan o weledigaeth ehangach - pobl ifanc yn cymryd rôl flaenllaw i arwain y broses o drefnu a thrafod y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw. Daeth y syniad sgil pobl ifanc yn dod i lyfrgell Penygroes i ymholi a oedd yna weithgareddau yn cael eu cynnal yn yr ardal. (Oedran)



Daeth prosiect ieuencid Derwen (wedi ei sefydlu gan dimau Derwen a Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Gwynedd) i'r brig yng nghategori 'Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth' Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid Cymru 2018. Mae'n cynnig gweithgareddau amrywiol i bobl anabl er mwyn magu hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau prif ffrwd. Mae'r unigolion yn derbyn profiadau addysgol anffurfiol ar sgiliau bywyd fel coginio, siopa, croesi'r ffordd, diogelwch ar y we. Mae'r siawns i ennill cymwysterau mewn meysydd fel coginio, chwaraeon dan do, celf a drymio yn rhoi'r un cyfle ag eraill i bobl ifanc anabl i fynychu nosweithiau gwobrwyo sirol er mwyn dathlu llwyddiant. (Anabledd, Oedran)

Lansiwyd profiad rhithwir (VR) yng Ngaleri Caernarfon ym mis Gorffennaf i helpu defnyddwyr i ddeall sut beth yw byw gyda dementia - a hynny'n hollol ddwyieithog. Wedi'i ariannu gan Arloesi Gwynedd Wledig a Grant Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, o dan arweiniad ein Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd, cafodd y prosiect ei greu gyda'r asiantaeth greadigol bwrpasol Galactig". (Anabledd)

Derbyniodd Cyngor Gwynedd adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n cadarnhau fod gan ei Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd "gryfderau sylweddol". Roedd y rhain yn cynnwys gweithlu "ymroddedig a sefydlog", "arweinyddiaeth gref" a "bwrdd rhianta corfforaethol yn awyddus i sicrhau canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal ac yn cael cymorth da gan bob rhan o'r cyngor". Mae sicrhau lles a diogelwch plant a theuluoedd Gwynedd wrth wraidd popeth mae'r Cyngor yn ei wneud er gwaethaf y pwysau hynod heriol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. (Oedran)



Mi gafodd pobl ifanc Ysgol Glancegin, Maesgeirchen arweiniad ar sut i aros yn iach dros yr haf diolch i ddietegwyr sy'n cefnogi Rhaglen Cymru gyfan, Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, 'Bwyd a Hwyl'. Mae'r cynllun yn darparu prydau iach, addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol a sesiynau cyfoethogi, mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o glwb gwyliau am ddim, sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau hwyliog a bwyd iach, gael ei gynnu yng Ngwynedd. Roedd yn boblogaidd iawn ymysg teuluoedd. (Oedran)

Diwedd mis Hydref derbyniodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd £1.69m o Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru (cynllun Cymru Iachach) i ddatblygu gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu. Drwy integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn fwy effeithiol, a defnyddio technoleg gynorthwyol, bydd y prosiect yn helpu unigolion i fyw'n fwy annibynnol a chael gofal yn nes at eu cartrefi. Bydd llai o ddyblygu mewn systemau cofnodi, fel nad yw bobl yn gorfod dweud rhywbeth fwy nag unwaith. Mae'n datblygu ffyrdd newydd o weithio a allai gael eu defnyddio ledled Cymru yn y pen draw i leihau'r pwysau ar wasanaethau arbenigol yn y dyfodol. (Anabledd)



Agorwyd llwybr newydd ym mis Hydref ger safle Tŷ Moelwyn, Porthmadog gydag arian Grant Cyfalaf

Seilwaith Gwyrdd a chydweithrediad gwahanol berchnogion tir. Mae'n addas ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn. (Anabledd)

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn Nhachwedd a Rhagfyr 2018 i ganfod barn am y 63 toiled cyhoeddus a'r 35 toiled cymunedol sydd wedi eu lleoli mewn adeiladau megis caffis a siopau gynnwys cyfleusterau newid i fabanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl. (Oedran, Anabledd)

Mae'r chwe sir yng ngogledd Cymru, wedi ymuno mewn partneriaeth â Sefydliad Tai Siartredig Cymru, i gyhoeddi Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau: Dull rhanbarthol i fynd i'r afael â digartrefedd yng ngogledd Cymru. Mae'r ddogfen yn nodi strategaeth ranbarthol i fynd i'r afael â phob math o ddigartrefedd fel pobl yn cysgu allan, digartrefedd ymysg pobl ifanc, pobl yn byw mewn llety dros dro tra ar restrau aros tai cymdeithasol. Wrth wraidd y strategaeth, mae cynllun gweithredu rhanbarthol a chwe chynllun gweithredu unigol pob awdurdod lleol. (Oedran, Anabledd)



Mae dau o hyfforddeion Rheolwyr Yfory Cyngor Gwynedd, Arawn Glyn a Sara Marged Jones, wedi gweithio ar gynllun 'Cist Cof Cymuned' ar gyfer preswylwyr cartrefi Plas Gwilym, Penygroes; Bryn Blodau, Llan Ffestiniog a Phlas y Don, Pwllheli. Mae'r cynllun yn defnyddio hen luniau ac archif sain i helpu hel atgofion am fagwraeth y preswylwyr a'u helpu i gofio am y fro y cawsant eu magu ynddi. Ceir hefyd llyfr sgrap gwag, er mwyn iddynt allu ychwanegu eu hatgofion eu hunain, a sicrhau nad ydi hanesion lleol yn mynd yn angof. (Oedran)

Agorodd Hafod y Gest, datblygiad ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin, yng nghanol tref a chymuned Porthmadog, yn agos at y siopau a chyfleusterau'r dref. Mae'n caniatáu i bobl hŷn yr ardal fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cymunedol diogel gyda gwasanaethau gofal hyblyg hefyd ar gael. Ceir 26 o fflatiau dwy stafell wely a 14 o fflatiau un stafell wely ynghyd ag ardaloedd cymunedol, fel stafell fwyta, lolfeydd, gerddi a stafelloedd gweithgaredd. Roedd y cynllun wedi rhoi profiad gwerthfawr o fewn y maes adeiladu i 12 prentis o ogledd Cymru. (Oedran, Anabledd)



Cynhaliwyd arddangosfa 'Menywod, Rhyfel a Heddwch' yn Storiell, Bangor, ar y cyd gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Casgliad o waith gan y ffoto-newyddiadurwraig Lee Karen Stow oedd ydoedd, yn archwilio effaith rhyfel ar fywydau merched gyda'r darluniau yn adrodd straeon personol iawn a dangos sut mae merched wedi ysbrydoli'r ymchwil am heddwch ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymhlith y portreadau roedd Ifanwy Williams o Borthmadog, 97 oed, un o sefydlwyr Heddwch Nain/Mam-gu, ac ymgyrchydd. (Rhyw)

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnig sesiynau Cymorth Digidol yn y cartref i bawb sy'n methu ag ymweld â'u llyfrgell. Mae hyn yn ychwanegiad at ein gwasanaeth Llyfrau i'r Cartref sydd wedi bod ar gael ers rhai blynyddoedd. Bellach os yw pobl sy'n methu a chyrraedd llyfrgell eisiau cymorth i ymgysylltu yn ddigidol, neu eisiau cymorth ar ddefnyddio TG neu gael mynediad at wasanaethau digidol mae'r llyfrgell yn eu cynnig, megis e-lyfrau, e-lyfrau llafar neu e-gylchgronau, gall Llyfrgellydd ymweld â'r unigolyn yn ei ch/gartref er mwyn cynnig cymorth a chefnogaeth. (Anabledd, Oedran)

Yn dilyn cais gan grwp LHDT/LGBT sy'n cyfarfod yn GISDA, Caernarfon, sefydlwyd casgliad LHDT parhaol yn Llyfrgelloedd Caernarfon a Bangor. Mi gydweithiodd Llyfrgelloedd Gwyneddi yn agos â'r gymuned LHDT wrth leoli'r adran ac rydym hefyd wedi ehangu ar yr amrywiaeth o deitlau a oedd eisoes mewn stoc. Roeddy Gwasanaeth yn falch o



allu ymateb yn bositif i'r cais hwn ac yn hapus i ddarparu gwasanaeth llyfrgell sy'n adlewyrchu anghenion y defnyddwyr a'r gymdeithas gyfan. Mae'r casgliad wedi'i anelu at oedolion ac oedolion ifanc gyda chymysgedd o lyfrau hunangymorth, ffuglen, ffeithiol a bywgraffiad, a llyfrau gan awduron LHDT. (Cyfeiradedd Rhywiol)

Mae'r Swyddog Tîm Chwaraeon am Oes i Ysgolion Arbennig yn rhoi amrywiaeth o sesiynau chwaraeon i'r ysgolion gan gynnwys pêl-fasged, cylched ffitrwydd, tennis a phêl droed. Yn ogystal gall ysgolion gael bloc o sesiynau mae nhw yn arbenigo ynddynt e.e. cafodd Hafod Lon a Pendalar gyfnod o 6 wythnos o griced yn cael ei redeg gan cried Cymru. Yn ogystal cafodd Pendalar gyfnod o 6 wythnos o sesiynau dringo yn nghanolfan dringo Beacon, Caernarfon a Hafod Lon yn cael ei sesiynau nhw yn Nghanolfan

Hamdden Harlech. Ar ddiwedd y sesiynau yma mae gwahoddiad i gystadlu mewn cystadlaethau. (Anabledd, Oedran)



Cynhaliodd y Swyddog Datblygu Chwaraeon ar gyfer Pobl Anabl Ymgynghoriad Chwaraeon Anabledd ledled y Sir gyda 220 o holidauron yn cael ei lenwi. Mae'r canlyniadau wedi siapio yr wybodaeth mae

Canolfannau Byw'n lach yn roi ar y wefan, cais Plas Heli am Grant Big Lottery a rhaglen waith strategol Chwaraeon Anabledd drwy'r sir. Yn ol adroddiad Chwaraeon Anabledd Cymru roedd y nifer o weithiau y cymerodd pobl anabl ran mewn digwyddiad chwaraeon drwy'r sir wedi cynyddu o 38,666 yn 2017 i 53,391 yn 2018. Yn ystod yr un cyfnod, roedd aelodau clybiau chwaraeon anabledd yng Ngwynedd wedi cynyddu, ac Aelodaeth o Ganolfannau Byw'n lach bron wedi dyblu (o 431 i 844). Mae gwaith y Cynllun Insport wedi cyfrannu at hyn gyda rhaglen o gyrsiau hyfforddiant cynhwysedd anabledd a gwaith datblygu. Mae'n sicrhau cydweithio agos rhwng adrannau'r Cyngor ac asiantau allanol yn cynnwys y 3ydd sector. (Anabledd)

Ym mis Chwefror cynhaliwyd agoriad swyddogol Hafan y Sêr. Mae'n cynnig gofal egwyl fer i hyd at chwech o blant ag amhariadau amrywiol mewn adeilad pwrpasol. Mae plant yn cael eu cyfeirio i'r ddarpariaeth sydd wedi ei leoli ym

Mhenrhyndeudraeth trwy dimau arbenigol plant yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r adeilad yn cynnwys ystafelloedd modern, lle cyn hamdden agored, offer synhwyrdd, cyfleusterau cyfrifiadurol a gardd amgaeedig. Bydd y plant sy'n aros yn Hafan y Sêr yn ei weld fel gwyliau – gyda chyfle i ymlacio, cael hwyl yng nghwmni ffrindiau, cymryd rhan mewn gweithgareddau, trio pethau newydd a datblygu sgiliau. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi amser byr i deuluoedd a rhieni gael hoe o'u cyfrifoldebau gofalu, gan gael cael cyfle i wneud pethau mae llawer o bobl yn ei gymryd yn ganiataol fel mynd i siopa neu mynd am bryd o fwyd.



Gwybodaeth bellach

Cwynion a Sylwadau

Derbyniwyd un cwyn ffurfiol yn ystod y cyfnod 2018-19. Roedd yn ymwneud hefo'r dewisiadau ar ffurflen gais ar y wefan (nodwedd gwarchodedig – cyfeiriadedd rhywiol). Nid oedd y dewisiadau yn ddigon eang i siwtio pob angen. Fe newidwyd y ffurflen yn syth, gan ychwanegu opsiynau eraill, yn ogystal â symud i wirio ffurflenni eraill.

Daeth materion eraill i sylw'r Swyddog Polisi a Chydraddoldeb hefyd fel cwynion anffurfiol. Roedd nifer ohonynt ynglŷn ag ystafelloedd newid canolfan Byw'n Iach hefo'r teimlad nad oedd tegwch yn y ddarpariaeth i ferched (nodwedd – rhyw). Cymerwyd camau i newid yr arwyddion er mwyn esbonio'r sefyllfa yn well.

Derbyniwyd sylw arall am restr dewisiadau ar y wefan, y tro hyn am sipsiwn a theithwyr (nodwedd – hil). Addaswyd y rhestr.

Yn ystod ymgynghoriadau ar arbedion derbyniwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r cwestiynau am nodweddion gwarchodedig oedd ar yr holiaduron. Nid oedd pawb yn deall pam roedd angen gofyn rhai o'r cwestiynau. Byddwn yn awr yn sicrhau ein bod yn esbonio'n well yr angen yr angen i ofyn y cwestiynau yn y dyfodol.

Gwybodaeth Cydraddoldeb

Gweler atodiad 2 am y ffigyrau monitro staff Cyngor Gwynedd

Erbyn hyn mae'r holiadur ei wella a'i ddiweddarau (gweler amcan 3). Rydym felly wedi gorfod gofyn i bawb lenwi'r ffurflen i mewn o'r newydd. Er fod yr ymateb o fewn yr amserlen wedi bod yn dda mae'r niferoedd sydd wedi ei lenwi yn anorfod yn is. Byddwn yn parhau i weithio i annog mwy o bobl i'w lenwi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwybodaeth Cyflogaeth 2018-19

Mae gan y Cyngor ddyletswydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, i ddarparu gwybodaeth cyflogaeth yn flynyddol. Roeddem wedi sylweddoli nad oedd y cwestiynau yn yr hen holiadur yn cydymffurfio ymhob achos hefo'r ddyletswydd yma. Hefyd roedd peth o'r terminoleg a ddefnyddwyd wedi dyddio. Rydym felly wedi diweddarau'r ffurflen yn ystod y flwyddyn a gofyn i bawb i llenwi'r un newydd. Mae hyn yn anrffod wedi golygu gostyngiad yn y nifer sydd wedi ei gwblhau ond byddwn yn parhau i weithio i gynyddu'r nifer.

I. Manylion y gweithlu yn gyffredinol

Mae 17.2% o staff y Cyngor wedi llenwi'r holiadur cydraddoldeb dewisol, ac mae'r ffigurau isod wedi eu selio ar y rhain os nad ydym yn nodi'n wahanol. Mae'r wybodaeth am y nodweddion cydraddoldeb fel â ganlyn:

Rhyw :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Benyw	68.3	11.7
Gwryw	30.6	5.3
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	-	-
Gwell gennyf beidio â dweud	1.1	0.2
Cyfanswm	100.0	17.2

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Albanwr / Albanes	0.3	0.1
Cymro / Cymraes	91.7	15.8
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	0.1	0.0
Prydeiniwr / Prydeines	4.4	0.7

Sais / Saesnes	1.7	0.3
Arall	0.8	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	1.0	0.2
Cyfanswm	100.0	17.2

Hil :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Gwyn	97.7	16.8
Du – Caribiaidd	-	-
Du - Affricanaidd	-	-
Du – Arall	-	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	0.2	0.1
Cymysg – Arall	-	-
Asiaidd – Indiaidd	-	-
Asiaidd - Pacistanaidd	0.2	0.0
Asiaidd – Bangladesiaidd	-	-
Asiaidd – Tseinieg	0.1	0.0
Asiaidd – Arall	0.2	0.0
Arall	0.2	0.0
Gwell gennyf beidio â dweud	1.4	0.3
Cyfanswm	100.0	17.2

Cyfeiriadedd Rhywiol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Deurywiol	0.3	0.0
Dyn Hoyw	0.4	0.1
Dynes Hoyw / Lesbian	0.4	0.1
Heterorywiol neu 'Strêt'	94.8	16.3
Arall	0.4	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	3.7	0.6
Cyfanswm	100.0	17.2

Crefydd :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Anffyddiwr	2.4	0.4
Bwdhaidd	0.1	0.0
Cristion	56.3	9.7
Dim Crefydd	32.3	5.6
Mwslim	0.2	0.0
Iddewig	-	-
Hindw	-	-
Arall	1.8	0.3
Gwell gennyf beidio â dweud	6.9	1.2
Cyfanswm	100.0	17.2

Statws Priodasol :

Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	40.2	6.9
Ydw	55.6	9.6
Gwell gennyf beidio â dweud	4.2	0.7
Cyfanswm	100.0	17.2

Anabledd :

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	94.6	16.3
Ydw	2.2	0.4
Gwell gennyf beidio â dweud	3.2	0.5
Cyfanswm	100.0	17.2

Hunaniaeth Rhywedd :

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydi	96.9	16.7
Ydi	0.7	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	2.4	0.4
Cyfanswm	100.0	17.2

Oedran :

	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
16-19	0.8	0.2
20-24	5.1	0.9
25-29	10.7	1.8
30-34	10.0	1.7
35-39	12.1	2.1
40-44	12.4	2.1
45-49	15.2	2.6
50-54	12.8	2.2
55-59	12.4	2.2
60-64	4.8	0.8
65-69	1.1	0.2
70-74	0.1	0.0
Gwell gennyf beidio â dweud	2.5	0.4
Cyfanswm	100.0	17.2

2. Natur Swyddi

Dim ond nodwedd cydraddoldeb **rhyw** sydd angen ei nodi yma.

a) Y nifer â gyflogir yn ôl swydd :

Dadansoddiad ddim ar gael

b) Nifer â gyflogir yn ôl graddfa cyflog :

	% Benyw	% Gwryw	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Prentis	0.0	0.1	0.0	0.1	0.0
Graddfa Sylfaenol (GS)	25.2	6.0	0.3	31.5	5.4
Swyddogion (S)	20.9	12.6	0.4	33.9	5.8
Uwch Swyddogion (PS)	14.6	9.1	0.4	24.1	4.1
Uwch Reolwyr (UR)	0.4	0.7	0.0	1.1	0.2
Prif Swyddogion	0.2	0.3	0.0	0.5	0.1
Athrawon (Cynnwys heb gymhwyso a llanw)	3.6	0.5	0.0	4.1	0.7
Prifathrawon / Dirprwy Brifathrawon	3.1	1.3	0.0	4.3	0.8
Soulbury	0.4	0.0	0.0	0.4	0.1
Cyfanswm	68.3	30.6	1.1	100.0	17.2

c) Nifer â gyflogir fesul amrediad cyflog :

Hyn ar sail cyflog pe byddai'r unigolion yn Gyfwerth Amser Llawn (FTE), ac nid o reidrwydd y gwir gyflog maent yn ei dderbyn.

	% Benyw	% Gwryw	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
£10,000 - £19,999	25.2	6.1	0.3	31.6	5.4
£20,000 - £29,999	22.3	12.9	0.4	35.6	6.1
£30,000 - £39,999	13.4	7.7	0.3	21.4	3.7
£40,000 - £49,999	4.6	1.8	0.1	6.5	1.1
£50,000 - £59,999	2.2	1.4	0.0	3.6	0.6
£60,000 - £69,999	0.4	0.5	0.0	0.9	0.2
£70,000 - £79,999	0.1	0.0	0.0	0.1	0.0
£80,000+	0.1	0.2	0.0	0.3	0.1
Cyfanswm	68.3	30.6	1.1	100.0	17.2

ch) Nifer â gyflogir yn ôl math o contract

	% Benyw	% Gwryw	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Cyfnod Penodol	3.8	1.4	0.0	5.2	0.9
Achlysurol	2.5	0.5	0.0	3.0	0.5
Parhaol	62.0	28.7	1.1	91.8	15.8
Cyfanswm	68.3	30.6	1.1	100.0	17.2

d) Nifer â gyflogir yn ôl patrwm gwaith

	% Benyw	% Gwryw	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Llawr Amser	44.9	27.4	1.0	73.3	12.6
Rhan Amser	23.4	3.2	0.1	26.7	4.6
Cyfanswm	68.3	30.6	1.1	100.0	17.2

3. Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Nodyn : ymgeiswyr sydd wedi ceisio am swydd ar lein yn unig ydi'r rhain - ddim yn cynnwys y rhai sydd wedi gwneud cais ar bapur. Mae'n cynnwys pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod yn ogystal ag ymgeiswyr allanol. Gall person fod wedi ymgeisio am fwy nac un swydd ac felly yn ymddangos dwywaith yn y data.

Rhyw	Nifer
Benyw	1,620
Gwryw	933
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	4
Gwell gennyf beidio â dweud	8
Heb ateb	3
Cyfanswm	2,568

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	8
Cymro / Cymraes	2,167
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	6
Prydeiniwr / Prydeines	108
Sais / Saesnes	206
Arall	67
Gwell gennyf beidio â dweud	6
Cyfanswm	2,568

Hil	Nifer
Gwyn	2,505
Du – Caribiaidd	2
Du – Affricanaidd	4
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Asiaidd – Indiaidd	7
Asiaidd - Pacistanaidd	4
Asiaidd – Bangladesiaidd	6
Asiaidd – Tseinieg	1
Asiaidd – Arall	5
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	10

Cymysg – Arall	-
Arall	5
Gwell gennyf beidio â dweud	19
Cyfanswm	2,568

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	17
Dyn Hoyw	17
Dynes Hoyw / Lesbian	10
Heterorywiol neu 'Strêt'	2,436
Arall	18
Gwell gennyf beidio â dweud	62
Heb ateb	8
Cyfanswm	2,568

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	23
Bwdhaidd	1
Cristion	590
Dim Crefydd	1,376
Hindŵ	3
Iddewig	2
Mwslim	6
Arall	24
Gwell gennyf beidio â dweud	202
Mae gen i grefydd neu gred	334
Heb ateb	7
Cyfanswm	2,568

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	948
Ydw	509
Gwell gennyf beidio â dweud	59
Heb ateb	1,052
Cyfanswm	2,568

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	1,449
Ydw	30
Gwell gennyf beidio â dweud	37
Heb ateb	1,052
Cyfanswm	2,568

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	1,476
Ydi	14
Gwell gennyf beidio â dweud	26
Heb ateb	1,052
Cyfanswm	2,568

Oedran	Nifer
16-19	52
20-24	304
25-29	298
30-34	211
35-39	164
40-44	110
45-49	116
50-54	100
55-59	65
60-64	20
65-69	1
70-74	0
75+	1
Heb ateb	1,126
Cyfanswm	2,568

4. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am swydd wahanol o fewn yr awdurdod

Rhan o'r ffigyrau uchod.

5. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer fu'n llwyddiannus

Nid ydi'r data am y rhai na fu'n llwyddiannus ar gael.

6. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn llwyddiannus

Bu i 2,417 aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, boed yn hyfforddiant traddodiadol neu yn fodiwl e-ddysgu. O'r rhain 640 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	435
Gwryw	197
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	8
Cyfanswm	640

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	3
Cymro / Cymraes	583
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	1
Prydeiniwr / Prydeines	29
Sais / Saesnes	12
Arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	6
Cyfanswm	640

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	2
Asiaidd – Tseinieg	1
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Bangladesiaidd	-
Asiaidd – Arall	1
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	3
Cymysg – Arall	-
Gwyn	622
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	-
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	1
Gwell gennyf beidio â dweud	10
Cyfanswm	640

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	2
Dyn Hoyw	2
Dynes Hoyw / Lesbian	4
Heterorywiol neu 'Strêt'	609
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	23
Cyfanswm	640

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	15
Bwdhaidd	-
Cristion	358
Dim Crefydd	211
Mwslim	2
Iddewig	-
Hindŵ	-
Arall	8
Gwell gennyf beidio â dweud	46
Cyfanswm	640

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	270
Ydw	345
Gwell gennyf beidio â dweud	25
Cyfanswm	640

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	605
Ydw	13
Gwell gennyf beidio â dweud	22
Cyfanswm	640

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	624
Ydi	3
Gwell gennyf beidio â dweud	13
Cyfanswm	640

Oedran	Nifer
16-19	7
20-24	30
25-29	77
30-34	72
35-39	77
40-44	71
45-49	94
50-54	87
55-59	73
60-64	25
65-69	8
70-74	1
Gwell gennyf beidio â dweud	18
Cyfanswm	640

7. Aelodau o staff sydd wedi bod yn rhan o'r weithdrefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel y sawl y gwnaethpwyd cwyn yn eu herbyn

Mae 6 unigolyn wedi bod yn rhan o weithdrefn gwyno. Nid oedd yr un o'r rhain wedi cwblhau yr holiadur cydraddoldeb.

8. Aelodau staff sydd wedi bod drwy'r weithdrefn ddisgyblaethol

Mae 96 achos o ddisgyblu wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. O rhain dim ond 5 o rhain oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

9. Aelodau staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor

Bu i 594 unigolyn adael cyflogaeth y Cyngor yn ystod 2018/19. O'r rhain, 4 ohonynt oedd wedi ateb yr holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	2
Gwryw	2
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	-
Cymro / Cymraes	4
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	-
Prydeiniwr / Prydeines	-
Sais / Saesnes	-
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	-
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Bangladesiaidd	-
Asiaidd – Tseinieg	-
Asiaidd – Arall	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	-
Cymysg – Arall	-
Gwyn	4
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	-
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	-
Dyn Hoyw	-
Dynes Hoyw / Lesbian	-
Heterorywiol neu 'Strêt'	4
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	-
Bwdhaidd	-
Cristion	1
Dim Crefydd	2
Mwslim	-
Iddewig	-
Hindŵ	-
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	1
Cyfanswm	4

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	3
Ydw	1
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	3
Ydw	1
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	-
Ydi	4
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

Oedran	Nifer
16-19	-
20-24	1
25-29	1
30-34	1
35-39	-
40-44	-
45-49	-
50-54	-
55-59	-
60-64	-
65-69	1
70-74	-
Gwell gennyf beidio â dweud	-
Cyfanswm	4

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb

2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer?
Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

- Pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Grwpiau sy'n cynrychioli pobl â'r nodweddion yma

3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

8 Hydref 2015
Fersiwn 2019 – 18 Mehefin 2018

4) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r
Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y bwriad yw gwneud hynny drwy bennu amcanion fydd yn sicrhau fod llais pobl hefo'r nodweddion hynny'n cael ystyriaeth deg. Pwysig hefyd yw sicrhau fod cydraddoldeb yn treiddio trwy holl waith y Cyngor.

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw adrodd ar unrhyw gynnydd.

5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda phobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth lunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth o ymgysylltiadau blaenorol wedi ei ddefnyddio hefyd.

Cynhaliwyd ymgysylltiad cyhoeddus ar ddiwedd 2015

6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

Mae ein tystiolaeth wedi dod o amryw o ffynonellau gan gynnwys

- Ymgysylltu – gweler uchod
- Gwybodaeth fewnol y Cyngor
- Data ar nodweddion cydraddoldeb o nifer o ffynonellau

Rydym yn ymhelaethu ar y data yma yn y Cynllun.

7) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

Rydym wedi nodi bylchau mewn tystiolaeth yn y Cynllun ac wedi adnabod dulliau o'u cywiro e.e. casglu gwybodaeth ar nodweddion cydraddoldeb y gweithlu. Rydym eisoes wedi diweddarau yr holiadur ond angen annog mwy o bobl i'w gwblhau.

Nid ydym yn teimlo fod gennym ddigon o wybodaeth am yr angen am ddogfennau mewn fformatau gwahanol e.e. Hawdd ei Ddarllen neu Iaith Arwyddion Prydeinig. Nid oes llawer o alw wedi bod am ffynonellau amgen ond nid ydym yn sicr os yw hyn oherwydd bod dim galw gwirioneddol neu oherwydd bod pobl ddim yn ymwybodol o'u hawliau yn y mater yma. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod mwy o wybodaeth drwy ein pumed amcan.

8) PERTHASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchoddedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

8a)

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	Perthnasedd	Yr effaith wirioneddol neu debygol
Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Positif	Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Positif	Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif.
Meithrin perthnasau da	Positif	Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif.

8b)

Nodweddion	Perthnasedd	Yr effaith wirioneddol neu debygol
Hil	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiâu, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, edrych ar ein trefniadau cyflogi a gwella ein cyfathrebu.
Anabledd	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiâu, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, edrych ar ein trefniadau cyflogi ac ystyried ein dulliau o gyfathrebu.
Rhyw	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd bron pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiâu, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi.
Ailbennu rhywedd	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd bron pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiâu, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd bron pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein ymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiâu, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi.

Crefydd neu gred	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd bron pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi.
Yr iaith Gymraeg	Positif	Nid oes effaith penodol ar yr iaith Gymraeg ond wrth gwrs bydd yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor
Oedran	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, edrych ar ein trefniadau cyflogi a gwella ein trefniadau gyfathrebu.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd bron pob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif	Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. Bydd bronpob un o'r amcanion, yn cael effaith drwy gynnwys pobl yn ein hymgysylltu, llawn ystyried anghenion pobl wrth asesu effaith ein polisiau, annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau, ac edrych ar ein trefniadau cyflogi.

9) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

a)	<p>Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)</p> <p>Disgwylir i'r cynllun a'r amcanion gael effaith bositif o safbwynt cydraddoldeb.</p>
b)	<p>Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?</p> <p>Monitro ac adolygu, gweler isod.</p>
c)	<p>A oes angen ail-ystyried y cynllun?</p> <p>Nac oes</p>

10) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er bod yr asesiad uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gwblhau yn flynyddol i nodi'r gwaith fydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac i adnabod unrhyw fylchau.

11) PENDERFYNU

Cyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo'r cynnwys, ac er gwybodaeth.